ECO'R WYDDFA 200

Rhif 200 EBRILL 1994 Pris 25c

Eco'r Wyddfa yn ddeunaw oed

Gobaith yr iaith fu'r maeth iawn, — Ei geiriau
Fu'r fagwraeth gyflawn,
A heddiw mor amryddawn
Yw'r plentyn yn llencyn llawn.

IEUAN WYN

DATHLU'R 200 DAUGANFED RHIFYN A DEUNAWFED PENBLWYDD ECO'R WYDDFA

DIOLCH YN FAWR . . .

Mae holl arian gwerthiant a hysbysebwyr Eco'r Wyddfa yn cael ei ailfuddsoddi yn y papur ar ffurf tudalennau newyddion i chwi'r darllenwyr. Casglwyd arian ychwanegol felly ar gyfer gweithgareddau **DATHLU'R 200** ac fe'u cynhelir oll drwy haelioni'r **NODDDWYR** a ganlyn:

PRIF NODDWYR
BANC Y MIDLAND · EURO-DPC
GWASG GWYNEDD · FFILMIAU BRYNGWYN
NATIONAL GRID · MANWEB
CAMBRIAN CATERING · MATTHEW BROWN,
CYFLENWYR CLWB Y LLENG BRYDEINIG, LLANBERIS

NODDWYR ERAILL
FFILMIAU'R NANT · LLUN Y FELIN
COLEG PRIFYSGOL GOGLEDD CYMRU
CYNGOR CYMUNED LLANRUG
CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLEN
CENAD · AVW, CAERNARFON
CYMDEITHAS TAI ERYRI
SIOP Y MODUR, CAERNARFON · OWAIN BEBB (Cyfrifwyr)
BOB PARRY (Arwerthwyr)
TREFOR JONES (Dillad) CAERNARFON
CYFIEITHWYR CYMEN, CAERNARFON
CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR
CWMNI SAIN, LLANDWROG

Roedd Pwyllgor Llywio Eco'r Wyddfa yn awyddus i ddathlu'r 200fed rhifyn mewn modd a fyddai o fudd parhaol i'r fro, felly trefnwyd fel a ganlyn:

★ Cyflwyno setiau cyflawn o'r papur wedi eu rhwymo'n gyfrolau cain i:
—Lyfrgell Ysgol Uwchradd Brynrefail at ddefnydd ymchwil y disgyblion;
—Amgueddfa'r Gogledd, Llanberis, at ddefnydd y cyhoedd;
—Lyfrgell Deiniolen at ddefnydd y cyhoedd.

★ Llunio MYNEGAI o'r 200 rhifyn, tasg enfawr ond hanfodol i gael hyd i straeon y gorffennol. (Pryd, er enghraifft, y soniodd Eco'r Wyddfa am bêldroediwr addawol o'r enw Malcolm Allen, 10 oed, a llun o bianydd addawol o'r enw Annette Bryn Parry.)

(Gweler hysbyseb arall am swydd ymchwil dros yr haf i lunio'r Mynegai)

I'n Gwirfoddolwyr,
Dosbarthwyr,
Casglwyr Newyddion,
Tynnwyr Lluniau,
. . . ac ati . . . ac ati

Os ydych, neu os y buoch, yn rhan o dîm yr Eco fe'ch gwahoddir i
NOSON DATHLU'R 200
ym mhencadlys Euro-DPC, Llanberis, ar nos Fercher, 18 Mai, i hel atgofion am y 18 mlynedd a aeth heibio. Bydd yno gyflwyniadau a thamaid o fwyd yn ogystal. Os na chawsoch lythyr a chwithau eisiau dod cysylltwch â:
R. John Roberts
Bedw Gwynion
Llanrug
erbyn 11 Ebrill fan bellaf.
Ni chaniateir mynediad heb drefnu ymlaen llaw.

CEFNOGWCH EIN NODDWYR A'N HYSBYSEBWYR

ECO'R WYDDFA

Rhif 200

EBRILL 1994

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon.

Cyhoeddwyd gyda chymorth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru

DYDDIAU A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Miss Sioned Roberts, Pantafon, Waunfawr, Ffôn: 650570.

RHIFYN	DYDDIAD PLYGU	BLE?	CYSYLLTU Â	RHIF FFÔN
MAI	EBRILL 28	DEINIOLEN	Mr W. O. Williams	871259
MEHEFIN	MAI 26	BRYNREFAIL	Miss Lowri P. Roberts	870580
GORFFENNAF	MEHEFIN 30	BETHEL	Mr Geraint Ellis	(0248) 670726
AWST	—	—	—	—
MEDI	MEDI 8	DINORWIG	Mr Meirion Tomos	870056
HYDREF	MEDI 29	PENISARWAUN	Mrs Ann Evans	872407
TACHWEDD	HYDREF 27	LLANBERIS	Mr Gwilym Evans	872034
RHAGFYR	RHAGFYR 1	CAEATHRO	Mr Clive James	677438

Diolch i'r cysylltwyr am eu cefnogaeth.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDDOL
IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
(Ffôn: 675649)
JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
(Ffôn: 872390)

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (0248) 670115
DYDDIADUR Y MIS
Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi, Deiniolen (870394)
FFOTOGRAFFWYR
Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon, Llanrug (674669)
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (677263)
Gareth Williams, Angorfa, Rhes Rhythallt, Llanrug (673683)
Tony Storey, Awel y Mynydd, Ceunant, Llanrug (650600)
TREFNYDD HYSBYSEBION
John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug (675605)
TREFNYDD BWNDELU
Siân Gwenfron Hughes, Derlwyn, Ffordd yr Orsaf, Llanrug: (676846)
Ann Gibbins, Lodj Plas Tirion, Pontrug (673696)
TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)
TREFNYDD GWERTHIANT POST
Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach, Llanrug (650200)
TREFNYDD PLYGU
Sioned Roberts (650570)

GOHEBWYR PENTREFI
Dyma'r bobl i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd.
BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran (0248 670726)
BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed (870580)
CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn Gwna (677438)
CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)
CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)
DEINIOLEN: W. O. Williams, 6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)
DINORWIG: Glyn Tomos, Pen y Bwlch, Dinorwig (870576)
LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri (870491)
LLANRUG:
NANT PERIS: Elwyn Searell Jones, Dwyfor (870440)
PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)
TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry, Ael-y-Bryn (872276)
WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, EBRILL 28
Deunydd i law'r golygyddion perthnasol
NOS LUN, EBRILL 18
os gwelwch yn dda

ANTUR PADARN
CYNLLUNIAU CYFFROUS AR Y FFORDD

Mewn cyfarfod o Antur Padarn a gynhaliwyd yn Ysgol Gymuned Penisarwaun ar nos Iau, 17 Mawrth, adroddwyd bod cynlluniau cyffrous ar droed yn ystod y misoedd nesaf.

Fel y cyhoeddwyd yn y rhifyn diwethaf o'r Eco mae cynlluniau ar y gweill i gofio achlysur cau Chwarel Dinorwig bum mlynedd ar hugain yn ôl. Eisoes mae'r bwriad wedi derbyn sêl bendith a chefnogaeth lawn cynrychiolwyr Cynghorau Cymuned Llanddeiniolen a Llanberis; Cyngor Sir Gwynedd; Dr Merfyn Jones, Coleg y Brifysgol, Bangor; a Dr Dafydd Roberts, Pennaeth Amugeddfa'r Gogledd, Llanberis. Cynhaliwyd cyfarfod ar 8 Mawrth i drafod y cyfan ac yn dilyn cyfarfod pellach yn ystod mis Ebrill, gobeithir cyhoeddi manylion llawn am yr holl weithgareddau yn rhifyn mis Mai o'r Eco. Gwyliwch amdanynt.

Fel ymdrech i geisio creu diddordeb lleol mewn cerdded llwybrau cyhoeddus mae'r Antur, mewn cydweithrediad â'r hanesydd lleol Dafydd Whiteside Thomas, ar fin cyhoeddi taflen wybodaeth am daith gerdded ar hyd rhai o lwybrau cyhoeddus yr ardal. Er mwyn lansio yr holl syniad bwriedir cerdded y daith gyda'r nos ym mis Mai ac fe estynnir gwahoddiad i bobl yr ardal i ymuno yn yr hwyl. Os dangosir diddordeb yn y fenter yna bwriedir annog darllenwyr yr Eco i lunio teithiau eu hunain a chael yr Antur i'w cyhoeddi ar ffurf taflen. Datgelir mwy o fanylion am hyn yn y rhifyn nesaf o'r Eco.

Yn yr un cyfarfod deallwyd fod gwahoddiad i'r Antur fod yn bresennol mewn cyfarfod, ddiwedd mis Mawrth, â chynrychiolwyr o'r Cyngor Sir, Cyngor Bwrdeistref Arfon, Awdurdod Datblygu Cymru, a Bwrdd Croeso Cymru i drafod y gwahanol brosiectau o fewn Dyffryn Padarn.

Adroddwyd bod holiadur busnesau bychain bron a'i gwblhau a phenderfynwyd estyn gwahoddiad i Meinir Owen o Teleganolfan Gwynedd i fynychu'r cyfarfod nesaf o'r Antur, sydd i'w gynnal ar nos Iau, 21 Ebrill, am 7 o'r gloch yn Ysgol Gymuned Penisarwaun. Fel arfer, mae'r cyfarfod yn agored i'r cyhoedd. Yn y cyfamser dymunwn adferaid buan i'r Cynghorydd Emyr Tomos, Is-gadeirydd yr Antur, sydd wedi bod yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Deallwn ei fod gartref erbyn hyn ac yn gwella bob dydd.

DDEUNAW MLYNEDD YN ÔL

Faint ohonoch sy'n cofio rhifyn cyntaf Eco'r Wyddfa? Oes gynnoch chi gopi ohono yn y tŷ acw? Rydan ni wedi atgynhyrchu tudalen flaen y rhifyn cyntaf wrth ddathlu cyhoeddi'r ddau ganfed rhifyn y mis hwn. Mae'r erthygl flaen yn pwysleisio mai papur trigolion y fro oedd yr Eco o'r dechrau, ac mae hynny cyn wired o hyd gobeithio. Eich papur chi, ei ddarllenwyr a thrigolion y fro, ydyw. Daliwch i'w gefnogi ac i gyfrannu iddo.

Ond beth oedd cynnwys y rhifyn cyntaf hwnnw? Roedd ynddo golofnau amrywiol fel 'O Seneddau'r Fro', 'Llannerch y Llenor', a 'Chwedlau'r Fro' yn ogystal â Chroesair a Dyddiadur y Mis. Roedd sôn ynddo am gyngerdd arbennig a gynhaliwyd yn Ysgol Brynrefail i lansio'r papur, ac am gynhyrchiad diweddaraf Cwmni Drama Llanberis. Ac wrth gwrs roedd digon o newyddion pentref. Gellid llunio cwis difyr ar sail newyddion y rhifyn cyntaf hwnnw. Er enghraifft, pa fand gymerodd ran yn nathliadau can mlynedd a hanner adeiladu Pont y Borth? Ble'r oedd Hogia'r Wyddfa ac 87 o'u cefnogwyr yn mynd ar Chwefror 28? Trigolion pa bentref oedd yn poeni bod ceir yn gor-yrru trwy'r pentref? Plant pa ysgol sydd bellach wedi cau fu'n cymryd rhan yng Nghyngerdd Lansio'r Eco?

Mae'n amlwg bod diwyg y papur wedi bod yn lân a phroffesiynol yr olwg o'r cychwyn. Yr oedd â wnelo'r gefnogaeth barod a gafwyd o'r dechrau gan Wasg Gwynedd â hynny yn sicr. Yn yr hen ysgol yn Nant Peris yr oedd cartref y Wasg ar y pryd wrth gwrs, ac yno yr argraffwyd yr Eco am rai blynyddoedd. Pan symudodd y cwmni i Gaernarfon, fe aeth yr Eco i'w ganlyn, ac yno ar Stad Cibyn y mae'r papur yn dal i gael ei argraffu. Mae'r cydweithio hapus rhwng y papur a'r Wasg yn para o hyd, ac mae'n iawn i ni gydnabod y gefnogaeth a'r cydweithrediad a gawn yng Ngwasg Gwynedd bob amser.

BETH AM YMUNO MEWN PROSIECT DIDDOROL

A oes gennych ddiddordeb mewn llwybrau cyhoeddus?

A ydych yn mwynhau cerdded llwybrau?

A oes gennych wybodaeth ynglŷn â'u cefndir a'u hanes?

A fuasech yn dymuno dod i wybod mwy am y gwahanol lwybrau cyhoeddus sydd ar hyd a lled Dyffryn Padarn?

Beth bynnag yw eich diddordeb yna fe all y prosiect canlynol apelio atoch.

Mewn ymgynghoriad ag Antur Padarn, mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn awyddus i glywed gan unrhyw rai o fro'r Eco (boed yn unigolyn neu aelodau o gymdeithasau a mudiadau lleol) sydd â diddordeb mewn prosiect yn ymwneud â dehongli llwybrau cyhoeddus o ran eu pwysigrwydd hanesyddol; safle daearyddol; eu gwerth diwylliannol ac economaidd yn y gorffennol ac hyd heddiw. Yn syml bydd y prosiect yn ymwneud ac yn edrych ar lwybrau unigol a chasglu gwybodaeth ddiddorol amdanynt.

Cyfle ydyw i'r gymdeithas leol ddehongli eu cymuned eu hunain yn eu ffordd eu hunain heb ddibynnu ar eraill o'r tu allan i'r ardal i wneud hynny. Felly, mae perchnogaeth y bobl leol ar y prosiect yn allweddol i'w lwyddiant. Os bydd diddordeb, yna y mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn barod i estyn pa bynnag gefnogaeth sydd ei angen i gydweithio â'r bobl leol ar brosiect o'r fath.

Os oes gennych ddiddordeb, neu eisiau mwy o wybodaeth am y prosiect, yna y mae croeso i chwi gysylltu â Glyn Tomos (Cadeirydd Antur Padarn) ar Llanberis 870576; neu Gethin Clwyd (Cyngor Cefn Gwlad Cymru) ar Bangor 370444. Cysylltwch â hwy heddiw.

Cynnal hen draddodiad ar ei newydd wedd

A'r 200fed rhifyn o'r *Eco* ar fin dod o'r wasg daeth newyddion cyffrous am un o bapurau Cymraeg arall yr ardal. Yn ystod y mis yma bydd *Yr Herald Cymraeg* a *Herald Môn* yn uno. Enw'r papur o hyn allan fydd *Yr Herald*, a daw'r rhifyn cyntaf o'r wasg ar Ebrill 22ain. Dymunwn yn dda iddo.

ECO'R WYDDFA

RHIF 1 CHWEFROR 1976 PRIS : 8g.

BETH DDAW O'R YSGOL?

Dair blynedd ar ddeg yn ôl, prynwyd hen Ysgol Brynrefail gan y "Rainer Foundation" i'w defnyddio yn ysgol i blant oedd ag angen addysg a sylw arbennig. Oherwydd prinder arian, bu'n rhaid cau'r ysgol, ac erbyn hyn mae'r adeilad unwaith eto'n wag.

PRYDER

Ar ôl hyn, mynegodd nifer o drigolion eu barn ynghylch dyfodol yr ysgol, a rhai'n bryderus oherwydd sibrydion y gellid defnyddio'r lle fel man aros i weithwyr. Er mwyn mynd i lygad y ffynnon, bu gohebwyr Eco'r Wyddfa mewn cyfarfod cyhoeddus i wyntyllu'r mater. Rhoed cyfle i bobl Brynrefail fynegi eu barn yn gyhoeddus yng nghwmni'r Cynghorydd P. Larsen, Cyngor Arfon, y Cynghorydd Gwyn O. Jones, Cyngor Gwynedd, a Mr. Ken Jones o'r Cyngor Cymuned. Da oedd cael clywed sylwadau cynrychiolydd y 'Rainer Foundation', sef Mr. Clenell, y Prif Warden. Llywydd y noson oedd Mr. G. Pritchard.

AWGRYMIADAU

Cafwyd trafodaeth fywiog, ac ymysg yr awgrymiadau o du'r pentrefwyr yr oedd i Gynghorau Sir Cymru ei phrynu yn Ganolfan Addysgiadol Awyr Agored, ond i'r pentref ei defnyddio fel Canolfan Gymdeithasol yn ogystal. Teg yw dweud mai dyna ddymuniad y mwyafrif yn y cyfarfod, a dyna'r argymhelliad a basiwyd.

CEFNOGAETH CYNGHORWYR

Roedd y Cyng. P. Larsen yn ffyddiog na fyddai'r Bwrdd Cynhyrchu Trydan yn defnyddio'r ysgol fel llety i weithwyr, a phwysleisiodd y dylid cadw golwg am geisiadau oddi wrth sefydliadau am ganiatâd i newid defnydd yr adeilad. Mae hi a'r Cyng. Gwyn O. Jones yn gyfrifol am hyn.

TROEDIO'N OFALUS

Barn Eco'r Wyddfa yw y dylid troedio'n ofalus a chryfhau'r ymgyrch leol i sicrhau y defnyddir yr hen ysgol er budd yr holl ardal. Hyderwn y bydd Cyngor Gwynedd yn ystyried y mater yn ddiffrifol gan fod canolfannau o'r fath yn brin yng nghefn gwlad.

CÂN ECO'R WYDDFA

Fe gewch yn Eco'r Wyddfa
Rywbeth at bob dant,
Ysgrifau a barddoniaeth
A chomic bach i'r plant.
Wel, prynwch Eco'r Wyddfa
A chewch newyddion bro
O Benisarwaen a Bethel
Llanrug a Chwm-y-Glo.

Cytgan:
Eco'r Wyddfa, Eco, Eco'r Wyddfa
Dyma'n papur bro.
Eco'r Wyddfa, Eco'r Wyddfa,
Dyma'r papur bro.

O'i wely yng Ngwasg Gwynedd
Unwaith yn y mis
Daw'r Eco i'ch cartrefi,
Rhesymol yw ei bris.
Newyddion o Ddinorwig,
Deiniolen a Fachwen;
Am gasglu sgŵps yr ardal
Bydd Eco'r Wyddfa'n ben.

Tudalen ar chwaraeon,
Llythyrau, pynciau'r dydd,
A lle i bawb ohonoch
Gael lleisio'ch barn yn rhydd;
Llanberis a Brynrefail,
O Glwt y Bont i'r Nant,
Wel, dyma'r papur gorau
I Taid a Nain a'r plant.

Selwyn Griffith.

EICH PAPUR CHI

Dyma fo o'r diwedd – papur bro plwyfi Llanrug, Llanberis a Llanddeiniolen. Bu'r gobaith o sefydlu papur o'r math yma yn freuddwyd i lawer ers sawl blwyddyn. Trodd y breuddwyd yn bosibilrwydd ym mis Hydref 1975, a dyma fo ar ddiwedd Chwefror 1976 – yn ffaith.

EI SEFYDLU

Daeth nifer go dda o drigolion y fro at ei gilydd i Ysgol Brynrefail, Llanrug i drafod y posibiliadau o'i sefydlu. Ar ôl cael sgwrs a thrafodaeth hir â chynrychiolwyr o ddau bapur bro cyfagos, sef Llais Ogwen a Lleu, daethpwyd i'r penderfyniad i sefydlu ECO'R WYDDFA. Mae'n dyled i'r cynrychiolwyr hyn yn fawr iawn. Aethpwyd ati yn ystod wythnosau'r gaeaf i lunio polisi a rhyw fath o gyfansoddiad i'r papur yn ogystal â dewis swyddogion i fod yn gyfrifol am wahanol adrannau ac agweddau ohono.

BABI NEWYDD

Papur newydd misol fydd ECO'R WYDDFA, gyda'i holl staff yn gweithio'n wirfoddol a di-dâl. Rhaid wrth staff i'w redeg, ond ni, trigolion y fro fydd piau'r papur. Ni fydd yn ei reoli, ei ysgrifennu, ei werthu a'i brynu. Yn naturiol felly mae'n rhaid i mi apelio'n daer arnoch chi'r trigolion i'n cefnogi a chydweithredu â ni. Os ydi'r babi newydd yma am fyw, y mae'n rhaid i chi ei dderbyn i'ch tŷ a rhoi sylw arbennig iddo.

APEL GO IAWN

Dowch yn llu gyda'ch erthyglau, a'ch pytiau, eich storiau a'ch jôcs, eich newyddion a'ch clecs! Rhaid dilladu'r babi. Cysylltwch â rhyw ohebwr neu swyddog os bydd gennych gyfraniad, boed y cyfraniad hwnnw ar lafar neu yn ysgrifenedig. Beth am fynd ati i hel a dethol deunydd ar gyfer hanes y fro neu 'sgrifennu am hen gymeriadau diddorol? Oes gennych chi hen luniau? Gallwn wneud defnydd mawr o'r rheini. Beth am fynd ati i hel newyddion o fis i fis? Bydd gohebwyr bro yn hynod falch o'ch cymorth. Mae enw, cyfeiriad a rhif ffôn pob gohebwr bro ar ddiwedd newyddion y pentrefi. Rhowch gymorth iddynt. Beth am roi cynnig ar y croeseiriau a'r posau? Oes gennych chi rywbeth i'w werthu? Gosodwch hysbyseb yn y papur. Dowch, gwnewch ddefnydd i'r eithaf ohono. Eich papur chi ydi o.

RHYDDID BARN

Mae rhyddid i bawb ddatgan ei farn yn ECO'R WYDDFA. Byddaf fel golygydd yn hynod o falch o dderbyn llythyrau gan unrhyw unsydd am weld ei farn, ei sylwadau, ei feirniadaeth, ei werthfawrogiad ar unrhyw ddigwyddiad neu bwnc yn cael ei gyhoeddi. Beth bynnag fo'ch rhesymau – 'sgwennwch i mewn.

LLWYFAN GWLEIDYDDOL

Bydd yn bapur hollol annibynnol, heb gysylltiad ag unrhyw blaid wleidyddol, enwad crefyddol nac unrhyw sefydliad arall. Yn unol â pholisi'r papur ni chaniateir i'r bwrdd golygu ddefnyddio'r papur i gefnogi na lledaenu propaganda ar ran unrhyw blaid. Ond mae rhyddid i unrhyw blaid i'w ddefnyddio fel llwyfan ar unrhyw achlysur i ddatgan eu barn ac i gynnwys adroddiadau o'u gweithgareddau. Felly os na wneir defnydd o'r cynnig yma gennych chi wleidyddion a changhennau politicaidd y fro – peidiwch, da chi, â beio neb. Mae'r sefyllfa 'nawr ar ddu a gwyn.

BABI CYMRAEG

Babi Cymraeg fydd hwn. Dyna oedd pwrpas pennaf ei sefydlu. Rydym beunydd yn cael ein hatgoffa o'r dirywiad yn yr iaith ac hefyd broffwydoliaeth gwybodusion am ei dyfodol. Mae rhai wedi mynd mor bell â rhifo'r blynyddoedd sydd ar ôl iddi. Allwn ni fel trigolion y fro adael i'r iaith farw dan ein trwynau? Ein gobaith mawr ni a gobaith papurau bro ar hyd a lled Cymru yw estyn oes yr iaith, ac os yn bosibl ei chadw'n ddiogel ar wefusau ein plant hyd dragwyddoldeb.



DDEUNAW MLYNEDD YN ÔL

Dyma i chi rai pytiau difyr o'r rhifyn cyntaf . . .

Ydach chi'n cofio pwy oedd swyddogion cyntaf yr Eco. Dyma'r rhestr a ymddangosodd yn y rhifyn cyntaf:

PWY 'DI PWY

Dyma restr o rai o Swyddogion Eco'r Wyddfa ynghyd â'u cyfrifoldebau. Apeliwn yn daer arnoch i gysylltu â'r rhain os bydd gennych unrhyw gyfraniad i'r papur, boed y cyfraniad hwnnw ar lafar neu yn ysgrifenedig.

Golygydd : *Arwel Jones*

Golygydd Erthyglau : *Norman Williams. Cysylltwch â'r ddau yn y cyfeiriad yma : Gwên-y-Wawr, Glanffynnon, Llanrug. Ffôn : Caernarfon 3719.*

Swyddog Hysbysebion : *John Roberts, 'Brynawelon,' Ffordd yr Orsaf, Llanrug.*

Trefnydd Gwerthiant : *Selwyn Williams, 'Cartref,' Ffordd yr Orsaf, Llanrug. Ffôn : Caernarfon 3577.*

Golygydd Chwaraeon : *Dafydd Evans, 'Sycharth,' 5, Bryn Eglwys, Penisarwaen.*

Gohebwyr Lleol :
Anfonwch newyddion Nant Peris a Llanberis i'r Parch. John Owen, 'Bron y Graig,' Llanberis. Ffôn : 388.
Anfonwch newyddion Llanrug, Ceunant, Tanycoed, Cwm-y-Glo a Phenisarwaen i Leslie Larsen, 'Llygad yr Haul,' Penisarwaen. Ffôn : Llanberis 533.
Anfonwch newyddion Bethel i Geraint Elis, 'Sycharth,' Bethel. Ffôn : Y Felinheli 726.
Anfonwch newyddion Deiniolen, Dinorwig, Fachwen a Brynrefail a Chlwt y Bont i Robert Williams, 4 Tai Caradog, Deiniolen.

Mae dau o'r rhain yn parhau i wneud yr un gwaith, sef John Roberts, y trefnydd hysbysebion, a Geraint Elis, gohebydd Bethel. Mae Arwel Jones, Dafydd Evans a Robert Williams yn aelodau o Bwyllgor Llywio'r Eco ar hyn o bryd.

Mae yna rai pethau wedi newid ers 1976. Bryd hynny roedd band Llanberis yn amlwg yn brysur . . .

yn eu colled.

Y SEINDORF ARIAN

Nos Sul, Mawrth 7, yng Nghapel Coch am 8 o'r gloch cynhelir Cyngerdd Amrywiol dan nawdd Seindorf Arian Llanberis gyda Chôr Plant Llanberis (trwy garedigrwydd Ysgolfeistr Dolbadarn) ynghyd ag unawdau gan Miss Paula Jones (Clarinet), Miss Ruth Lennon (Ffliwt) a Mr. Edwin Evans, Deiniolen (Bariton). Arweinydd y cyfarfod fydd Y

Yn 1994 fe gafodd ffilm Gymraeg ei henwebu ar gyfer yr Oscars a'i dangos yn Los Angeles.
Nôl yn 1976 roedd yna sôn am *premiere* un ffilm yn Nant Peris . . .

FFILMIAU

Y mae Cromlechdy yn un o fannau pwysicaf y byd ffilmiau Cymraeg y dyddiau hyn. Y mis hwn, gorffennodd Wil Aaron ffilm awr a chwarter ar weithgareddau'r Urdd. Cafwyd rhagflas o'r ffilm ar 'Y Dydd' am y tro cyntaf ar Chwefror 16. Cymerodd y ffilm flwyddyn o amser i'w pharatoi. Ar hyn o bryd y mae Wil Aaron wrthi'n paratoi'r ffilm 'Gwaed y Sêr' a thynnwyd y rhan fwyaf o'r ffilm hon o gwmpas y Nant ar ddechrau'r gaeaf. Gobeithir cael y 'premiere' yn y Nant yn ddiweddarach eleni.

FFAREWELIO

. . . a phobl yn chwarae dartiau yng Ngwesty'r Castell yn y pentref . . .

Mae yna rai pethau sy'n aros yr un fath. Roedd galw am fanc yn Llanrug . . .

us yn gyfreithiol wedi peri i Gyngor Cymdeithas Llanrug drefnu i gyfarfod a Swyddog Goleuo'r Cyngor Sir gyda golwg ar gael cymorth.

Mae'r broblem o fancio arian yn achosi pryder i drigolion Llanrug hefyd, a phenderfynodd y Cyngor anfon at y pedwar banc i ofyn iddynt ystyried agor banc rhan amser yn y pentre. Pobl ariannog yn Llanrug!

Hysbyswyd Cyngor Cymdeithas Llanddeiniolen gan Brif Beiriannydd y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig eu bod yn symud ymlaen i gyflwyno ddeiniolen i gan iddynt un swm â'i ar gyfer y g y cyfrif cyff Cafodd C aeth gan A Datblygu D cynllun car Gwm-y-Glo, yng nghynl wedi derbyr dod. Fe fyd or yn cael awgrymiada negol Cyngo

. . . ond ddeunaw mlynedd yn ddiweddarach mae pobl Llanrug, sydd mae'n debyg yr un mor gefnog, yn dal heb fanc. A faint bynnag fo'r galw erbyn hyn, â'r banciau yn cau canghennau a diswyddo gweithwyr, dydi Llanrug ddim yn debygol o gael banc byth!

Roedd galw am doiledau cyhoeddus yn Llanrug hefyd — a chafwyd addewid gan Gyngor Arfon . . .

safle'n agos iawn i sgwâr Llanrug ac yn hwylus iawn ar gyfer gwasanaethau fel y Swyddfa Bost, siopau, bysiau, ac ati.

CYFLEUSTERAU CYHOEDDUS

Mae Cyngor Arfon hefyd wedi cytuno mewn egwyddor i adeiladu cyfleusterau cyhoeddus yn Llanrug.

Trefnir b am sedd Neville T Llanrug. pris sedd.

CYMDE CAPEL I

Nos lau, noson go ddefosiwn

. . . ddeunaw mlynedd yn ddiweddarach does dim golwg o doiledau cyhoeddus yn Llanrug. Gan fod addrefnu llywodraeth leol ar y gorwel, mae'n debyg bod gan Gyngor Arfon ryw flwyddyn ar ôl i gyflawni ei addewid i drigolion Llanrug.

cadw ein hanesion traddodiadol ... gyfer y dyfodol.

DINORWIG

CYFARCHIAD O DDINORWIG I 'ECO'R WYDDFA'

Clywodd trigolion yr ardal eco ergydion o'r chwarel am flynyddoedd maith. Yn Awst 1969 distawodd sŵn cŷn a morthwyl ac ergyd, ond erbyn hyn wedi cyfnod o ddistawrwydd clywir sŵn newydd ar garreg fedd yr hen chwarel. Bellach, clywir eco newydd ar ochr yr Elidir, eco peiriannau gwaith newydd, peiriannau 'Gwaith Pwer Trydan Dinorwig.' Gobeithir dod o hyd i nerth newydd yng nghrombil yr hen fynydd a welodd ymladdfa a sugno nerth i droi cerrig yn fara. Bellach daeth ffurfiau newydd o ennill bara. Pob llwyddiant i'r eco newydd yn yr ardal, ac i'r eco arall, "Eco'r Wyddfa."

Yng ngholofn Dinorwig cafwyd cyfeiriad at y gwaith o adeiladu yr Orsaf Drydan yn yr hen chwarel . . .

. . . os oedd sŵn y periannau i'w clywed yn Ninorwig, GWELD pethau wnaethai rhywun ym Mhenisarwaun. Beth oedd tu cefn i'r stori hon tybed?

y pentref.
yrrwyr yn
'r pentref.
yn cadw
bryd i'w

yn Eglw-

Bryn Egl-
uluoedd
hyn. Y
yno yw

U.F.O. ???

Tua 5.30 p.m., Sadwrn, Ionawr 31ain, gwelwyd fflach o olau glaswyn yn gwibio'n gyflym uwchben Pensarn a'r Lôn Las. Daeth y golau o gyfeiriad Sir Fon, ac aeth i'r De at yr Wyddfa.

MAES CHWARAE

Y llynedd bu rhai o swyddogion Arfon yn garedig iawn yn derbyn dirprwyaeth o Bwyllgor Maes

yr Ofalaeth. Daeth nifer fawr o wobrwyon i'r Nant ac mae'r plant i'w canmol yn fawr am eu gweithgarwch ynglŷn â'r Eisteddfod. Da iawn, blant. Daliwch ati.

PRYNWR CYNTAF

Yn ôl pob tebyg, y prynwr cyntaf o gopi cyntaf Eco'r Wyddfa oedd Mrs. Brenda Roberts, Glanrafon. 'Roedd y gwerthwr, Mr. J.W.Ellis, yn curo ar y drws cyn i'r inc sychu ar y papur bron.

Wyth geiniog oedd pris yr Eco ar y cychwyn. Erbyn y canfed rhifyn roedd y pris wedi codi i 20 ceiniog, a dyma'r ddau ganfed rhifyn i'w gael am 25 ceiniog. Erbyn heddiw mae pris yr Eco deirgwaith yn fwy nag ydoedd ddeunaw mlynedd yn ôl. Pan gymharwch chi hynny efo'r codiadau mewn prisiau eraill mi welwch bod yr Eco heddiw yn dipyn o fargen. Yn yr ail rifyn ymddangosodd yr hysbyseb hwn am dai newydd yn Llanrug . . .

TAI NEWYDD AR WERTH YN LLANRUG

o wneuthuriad rhagorol gan adeiladydd lleol. Stâd heb fod fawr, yn agos i'r siopau, ysgolion a bysys. Yn mwynhau golygfa ardderchog tua'r Wyddfa ac yn llygad yr haul.

Pris £9650

CYFNOD CYNTAF : TAI PÂR (SEMI-DETACHED) GYDA GWRES CANOLOG NWY

AR Y LLAWR — Stafell Fyw. Stafell Fwyta Cegin helaeth wedi'i dodrefnu, Ail Dŷ Bach a Stafell Gotiau.

I FYNY'R GRISIAU — Tair llofft dda, Stafell 'Molchi, Stôr, Cwpwrdd Sychu Dillad.

TU ALLA — Gardd Fawr, Garej i'r cyfunol gyda dŵr wedi'i cysylltu.

£9,650 × 3 = £28,950. Gamp i chi ddod o hyd i dŷ newydd tebyg am hynny heddiw . . . ydi, mae'r Eco yn dipyn o fargen!

Mae yna rai pethau sydd heb newid o gwbl mewn deunaw mlynedd. Ar dudalen flaen yr ail rifyn rhoddwyd sylw i dair apêl a wnaed gan Heddlu Gwynedd . . .

1. Apeliwyd ar i berchnogion cŵn gadw eu hanifeiliaid dan reolaeth gan fod defaid wedi cael eu lladd yn yr ardal.

. . . a hithau'n dymor wyna eto, clywyd am ffermwr yn cwyno bod hyn yn broblem fawr eto eleni.

2. Apeliwyd ar i bobl beidio parcio ceir wrth fynedfeydd ysgolion yr ardal, gan fod hynny yn achosi perygl mawr i blant ysgol.

. . . mae'n amlwg bod pobl wedi bod yn araf iawn i ddysgu'r wers hon gan fod Heddlu'r Gogledd wedi rhannu taflenni lliwgar y mis diwetha 'ma yn cyfeirio at y perygl o barcio ar y llinellau sig-sag melyn sydd wrth fynedfeydd ysgolion. Gobeithio bydd yr ymgyrch hon yn llwyddo i wthio'r neges adref.

3. Apeliwyd ar i bobl fod yn wyliadwrus rhag lladron gan fod llawer o ladrata o dai gwag wedi digwydd ym mhob rhan o'r fro.

. . . gwaetha'r modd mae'r broblem hon hefyd gyda ni o hyd, a gormod o lawer o drigolion y fro wedi cael colledion mawr.

A beth am yr hysbysebwyr? Roedd wyth hysbyseb yn y rhifyn cyntaf. Mae pump o'r rheiny, sef Arvonia Coaches, Gwesty Dolbadarn, Storfa Llanrug, Gwaith Cerrig Beddi Llanrug, a Garej Minffordd yn dal i hysbysebu yn yr Eco o hyd, er bod y tri olaf a enwyd wedi newid perchnogaeth yn ystod y cyfnod hwnnw. Yn y canfed rhifyn yr oedd John Roberts yn dweud mai'r diweddar Eric Morris, perchennog Arvonia Coaches ar y pryd, oedd y cyntaf i brynu hysbyseb ganddo, ac mae'n ddiddorol sylwi mai dyma'r unig gwmni sydd wedi hysbysebu yn ddidor dros y 200 rhifyn . . .

AM DRIP CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD I BLE BYNNAG Y BO .....

Eric Morris

Arvonia Coaches LLANRUG

FFÔN WAUNFAWR 254

O sôn am yr ail rifyn wyddech chi bod y DRAENOG wedi bod yn chwilio am straeon pigog ers y rhifyn hwnnw . . .

DRAENOG

Un ar y naw ydi Draenog. Wrth gropian hyd ffyrdd y Fro — o Ddeiniolen i Ddinorwig, o Fethel i Frynrefail, Llanrug i Lanberis, dydi o'n methu dim. Mae'n hel pob rhyw hen sgandal, yn clustfeinio am hanesion trwstan, wrth 'i fodd efo jôcs a thynnu coes. Maen nhw'n deud 'i fod o'n pigo ar bawb yn ei dro!

Pwy ydi o, meddech? Wel, ie wir, pwy? Pan ofynnodd y Golygydd y cwestiwn allweddol, y cyfan wnaeth Draenog oedd cyrlio'n belen a deud dim. Mae o'n greadur swil, 'dach chi'n gweld. Felly, os ydach chi am gysylltu ag o gyda rhyw stori fach bryfoclyd neu ddigri, gwnewch hynny drwy'r Golygydd. Buasai Draenog yn falch iawn o glywed oddi wrthych, achos allith o byth fod ym mhobman ar unwaith. Cofiwch amdano, a gwyliwch rhagddo — mae o'n hogi'i nodwydda' medden nhw!

Ni ddylai Saeson sy'n teithio ar Reilffordd Llyn Llanberis gael unrhyw drafferth i ddweud yr enwau "Gilfach Ddu" a "Cei Llydan" eleni oherwydd mae amserlen a thaflen hysbysrwydd y cwmni ar gyfer 1976 (sy'n uniaith Saesneg, gyda llaw) yn rhoi'r cyngor goleuedig canlynol :

Am Gilfach Ddu —
say "Gil-vak-Thee"
ac am Cei Llydan —
say "Kay Thlid-ann"

"Gil-vak-Thee", "Kay Thlid-ann" myn uffar i. A oes raid darnio'r hen iaith fel hyn 'for ddy sec of ywar Inglish frens'? Barn Draenog yw

REELFORTH TH-LYNN THLAN BERRIES - RAG YK QUILLYTH

PÊLDROED

LLANBERIS

Chwefror 7. Cwpan G. Cymru
Llanberis 3 — Llanfairpwll 4
Sgorwyr : John Pritchard, Barry Davenport, Gwilym Williams.

Cael eu trechu fu hanes Llanberis hefyd yng Nghwpan Gogledd Cymru, a hynny gan un o dimau gorau Cynghrair Môn. Mae'n rhaid dweud nad oedd y cefnwyr yn sicr o'u pethau o gwbl yn yr hanner cyntaf, ac aeth Llanfairpwll dair gôl ar y blaen.

Yn yr ail hanner, 'roedd mwy o galon yn y tîm, a gwell trefn yn eu chwarae — y cefnwyr bellach yn gwneud eu gwaith ac yn cael amser a lle i gefnogi'r blaenwyr,

Ar y dudalen chwaraeon roedd yna sôn am ddartiau, pêl-rwyd, sgio, codi pwysau . . . a gwyddbwyll.

Ac wrth gwrs rhoddwyd sylw i bêl-droed. A rŵan pwt o wybodaeth na fydd o ddiddordeb o fath yn y byd i neb — ar wahân i un o olygyddion presennol y papur — Pwy oedd y cyntaf i gael ei enw yn Eco'r Wyddfa am sgorio gôl? (Dau beth sy'n fy nghadw rhag mynd ati i ymffrostio gormod yw'r sgôr derfynol — a'r ffaith mai un o'r cefnwyr y cyfeirir atynt oeddwn i!!)

MAE'N BLESER GAN FANC Y MIDLAND FOD YN GYSYLLTIEDIG Â'R ACHLYSUR HWN

MIDLAND

Y Banc sy'n Gwrando

AELOD O GRŴP HSBC

CLYBIAU A CHYMDEITHASAU: gwell manteision bancio

Mae'r 171,000 a mwy o elusennau cofrestredig, a'r miloedd o grwpiau gwirfoddol eraill ym Mhrydain yn chwarae rhan allweddol yn eu cymunedau ond yn wynebu brwydr barhaol i gynnal eu hincwm a thorri i lawr ar gostau.

Pan fydd pob ceiniog yn cyfrif, mae'n bwysig iddynt allu sicrhau fod cyn lleied o arian â phosibl yn cael ei wario ar waith gweinyddu.

Ond maent yn wynebu'r un math o gostau â busnesau: cyflogau, adeilaau, biliau tanwydd, ffôn, postio, ac ati. Yn draddodiadol mae'r banciau'n ystyried clybiau, cymdeithasau ac elusennau fel busnesau bychain ac o ganlyniad maent wedi talu'r ffioedd a godir ar fentrau masnachol.

Mewn nifer o achosion, oherwydd fod clybiau, ac ati, yn defnyddio cyn lleied o wasanaethau bancio (er enghraifft, efallai mai dim ond ychydig o sieciau y mis fyddant yn eu hysgrifennu), maent yn teimlo fod codi'r ffioedd hyn arnynt yn annheg.

Ac mae'n rhaid iddynt dreulio amser ac ymdrech ar symud arian o gyfrifon cyfredol i gyfrifon cadw sy'n talu llog er mwyn cael yr incwm uchaf.

Mae'r gwasanaethau sydd ar gael gan y prif fanciau yn anelu at gydnabod anghenion arbennig y sefydliadau hyn a'u pwysigrwydd i'r gymuned. Er enghraifft, mae MIDLAND yn cynnig bancio am ddim ac yn talu llog ar gyfrifon elusennau a chlybiau.

Mae cyfrif TREASURER MIDLAND wedi cael ei ddatblygu er mwyn adeiladu ar enw da'r banc cymunedol.

Dywedodd Chris Wathen, Rheolwr Gyfarwyddwr Midland, Bancio Cangen: *'Mae clybiau, cymdeithasau ac elusennau yn gwsmeriaid pwysig i ni ac 'rydym yn cydnabod fod eu anghenion bancio yn wahanol i anghenion busnesau bychan confensiynol.*

Mae cyfrif TREASURER yn rhan o arolwg cyffredinol gwasanaethau MIDLAND i gymunedau: mae'r banc hefyd yn annog staff i gymryd rhan amlycach mewn sefydliadau lleol ac yn symud ei bolisi nawdd a chyfraniadau oddi wrth ddigwyddiadau cenedlaethol amlwg i fentrau lleol sydd wedi eu lleoli yn y gymuned sydd o les amlwg i bobl leol.

Gyda chyfrif TREASURER ceir: **dim taliadau banc** — ar yr amod fod llai na 10 siec yn cael eu talu bob mis (bydd sieciau ychwanegol yn costio 60c yr un), **talu mewn, debydau uniongyrchol, archebion sefydlog a throsglwyddiadau am ddim; dim isafswm cyfrif, taliadau llog ar bob cyfrif mewn credyd.'**

Mae llyfryn am ddim — *The Treasurer's Handbook* — hefyd ar gael, yn rhoi cyngor ar bob agwedd o redeg cyllid sefydliad ac yn egluro sut y gall y Banc helpu.

Mae'r cyfrif TREASURER ar gael i glybiau, cymdeithasau, elusennau ac eglwysi bychain gyda throsiant o llai na £100,000.

CYMDEITHAS TAI ERYRI

Cartrefi ar gyfer angen lleol



Y Gymdeithas Dai Leol

Yn sensitif i anghenion lleol

Yn cyfrannu i'r economi lleol

Tŷ Silyn
Penygroes
(0286) 881588

4 Ffordd yr Efail
Llangefni
(0248) 750359

Isallt
Blaenau Ffestiniog
(0766) 831778

Trwy nawdd a dderbyniwyd i ddathlu'r 200fed rhifyn a'n 18fed pen-blwydd cynigir

SWYDD

I FYFYRIWR/FYFYRWRAIG

DROS WYLIAU'R HAF YN LLUNIO MYNEGAI I ÔL-RIFYNNAU

ECO'R WYDDFA

Tua 25 awr yr wythnos o waith am 8 wythnos (gellir addasu'r oriau yn ôl gofynion yr unigolyn)

Os yda' chi'n nabod ardal yr Eco yn dda, â diddordeb byw yn hanes diweddar y fro; os yda chi eisiau gwneud job werthfawr i'r papur a chael tâl anrhydeddus am y gwaith — cysylltwch **cyn Sadwrn, 9 Ebrill,** â John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug, Caernarfon (Ffôn: 0286 675605) i glywed mwy. Gobeithir penodi ym mis Ebrill.

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr

Enillwyr y Clwb 300 am fis Chwefror: £40: Mr I. Huws Roberts, Bodrida; £25: Mr a Mrs Greasley, Minafon; £10: Mrs Gladys Jones, Tref Eilian.

Merched y Wawr: Dathlu Gŵyl Ddewi fu'r aelodau ar nos lau, 24 Chwefror. Paratowyd y wledd gan aelodau'r pwyllgor gyda diolch ychwanegol i Gill Brown a Glenys Williams. Rhoddwyd y rafflau gan Nan, Alma a Brenda ac fe'u enillwyd gan Gill Brown, Nellie Williams a Heulwen Huws.

Y mis nesaf disgwyliwn Cefin Burgess atom.

Y Gymdeithas Lenyddol: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas ar nos Lun, 21 Chwefror, pryd y cafwyd noson o gystadlaethau llenyddol ymysg yr aelodau gyda Mr Iolo Huws Roberts yn beirniadu. Enillwyd y gwahanol gystadlaethau gan Mrs Margaret Jones, Mri Ifor Hughes, Glyn Roberts, Deiniol Hughes, R. Gwynn Davies a Rol Williams. Talwyd y diolchiadau gan Mr R. Gwynn Davies.

'Roedd cyfarfod olaf y tymor ar nos Lun, 7 Mawrth, pan ddaeth un o fechgyn y Waun atom, sef y Parchedig Richard Jones, Llanelwy, i roi sgwrs hynod ddifyr ar gynnwys dyddlyfr y diweddar Barchedig D. J. Lewis, cyn-Weinidog Capel Bethel. Llywyddwyd gan Mr R. Gwynn Davies a thalwyd y diolchiadau gan Mrs M. Vaughan Jones.

Cyhoeddodd yr ysgrifennydd, Mr Rol Williams, y byddai'r trip blynyddol a phryd o fwyd fin nos yn gynnar ym Mehefin a cheir y manylion yn rhifyn nesaf o'r Eco.

Genedigaeth: Llongyfarchiadau i Terence a Denise, 4 Bryn Golau, ar enedigaeth merch fach, Kelley, chwaer fach i Lesley a Tamsin, ac wyres fach i Gwilym ac Angela Parry, 7 Bryn Golau.

Llongyfarchiadau hefyd i Corin a Neil, Llannerch, Teras Cefn Du, ar enedigaeth merch fach, ac i Mr a Mrs B. Ackers, Mon Abri, ar ddod yn daid a nain i'r fechan.

Llwyddiant Eisteddfodol: Llongyfarchiadau i Myra Turner, Collfryn, ar ddod yn fuddugol yn y brif adroddiad yn Eisteddfod Llanllyfni; ac i Mr Gwyn Davies, Bryn Eithin, ar ddod yn fuddugol mewn cystadleuaeth farddonol.

Dyweddïo: Llongyfarchiadau i Meirion Williams, Bro Waun, ar ei ddyweddiad â Carys Evans o'r Felinheli (merch Shirley Slaven).

Mentro'i Fywyd: Llongyfarchiadau i Aled Taylor, Baladeulyn, ar dderbyn Tystysgrif gan yr RSPCA am ei ddewrder yn mentro i lawr wyneb clogwyn i achub dafad ac oed.

Dathlu Pen-blwydd: Llongyfarchiadau i Geraldine Henderson, Bryn Gwynedd, ar gyrraedd ei deunaw oed.

Anfonwn ein dymuniadau calonnog i Mrs J. Parry, Clydfan, a fydd yn dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed ar 8 Ebrill.

Adref o'r Ysbyty: Bu tri o blant y pentref yn yr ysbyty yn ddiweddar ac rydym yn falch o weld Elgan Jones, Tan-y-coed ac Ioan a Guto Keller, Stad Croes-y-waun, adref o'r ysbyty.

Mae amryw o drigolion y pentref yn wael ac yn yr ysbyty. Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau da am wellhad llwyr a buan iddynt, gan edrych ymlaen i'w croesawu adref.

Cydymdeimlo: Trist oedd clywed am farwolaeth Mr Lloyd, Bryn Awelon, ddechrau'r mis. Anfonwn ein cydymdeimlad cywiraf i Mrs Lloyd a Christine a theulu Hafan yn eu profedigaeth o golli priod a thad annwyl.

Diolchiadau

Dymuna Mandy a Ceirion, Bro Waun, ddiolch i'w teulu a'u ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniasant ar enedigaeth eu mab bychan, Owain Taliesyn.

Dymuna Mrs Eluned Parry, 4 Rhes Eilian, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y blodau, cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ddathlu ei phen-blwydd arbennig iawn yn 90 oed ar 1 Mawrth. Diolch yn fawr iawn.

Yr Urdd: Ar 2 Chwefror fe ddaeth Ann Elfryn i wneud gwaith llaw ar gyfer yr Eisteddfod hefo'r plant fenga' ac fe gafodd y gweddill wneud cardiau Sant Folant hefo Anti Sylvia, Anti Jean ac Anti Shirley. Diolch i bawb am helpu ar y noson.

Cafwyd newid yr wythnos yma, 9 Chwefror, pan aeth y plant ar ymweliad a'r Antur a chafwyd noson ddiddorol a gwahanol. Gwelwyd sleidiau o'r Antur fel yr oedd ac fel y mae heddiw; ac fel welsom y siop ble mae'r nwyddau yn cael eu gwneud; yna i weld y swyddfa newydd cyn cael popcorn, a oedd wedi ei ddarparu yn arbennig i'r plant, i ddiweddu'r noson. Diolch yn fawr iawn i Hywel a Jill am roi eu hamser ac i Anti Rhian, Anti Bet ac Anti Sharon am gadw trefn ar y plant.

Ar 23 Chwefror cafwyd noson i'r 'Steddfod ac yr oedd yn noson lwyddiannus iawn hefo'r plant fydd yn cymryd rhan yn yr Eisteddfod Cylch yng Nghaernarfon. Cafwyd eitemau ungiol, dawnsio disgo, dawnsio gwerin, côr adrodd a'r gân actol.

Mae'r gân actol wedi bod yn llwyddiannus ac fe fyddant yn cystadlu yn Eisteddfod y Sir ym Mangor ar 26 Mawrth. Llongyfarchiadau i Heledd Elfryn ar ei llwyddiant gyda'r ffliwt — fe fydd hithau'n cystadlu hefyd ym Mangor. Diolch yn fawr iawn i bawb am helpu i gael y plant yn barod ar gyfer y gân actol. Diolch hefyd i'r dynion am baratoi'r llwyfan.

Glory Roberts, Tŷ Hen, ddaeth i ddiddanu'r plant ar 2 Mawrth, trwy ddangos sleidiau a rhywfaint o nwyddau a ddefnyddir ym Mhatagonia. Diolch yn fawr iawn i Glory a John am ddod at y plant ac i Anti Sioned ac Anti Heulwen am gadw trefn.

Ar nos Fawrth, 8 Mawrth, daeth yr actor Dyfan Roberts atom a chafodd y plant noson wrth eu bodd. Daeth a fideo 'Jini Me' a 'Dryw yn y Drain' ynghyd â rhywfaint o'r offer a ddefnyddiwyd i wneud y gyfres. Roedd y plant wrth eu bodd gan fod y rhan fwyaf ohonynt yn 'ffans' Jini Me. Diolchodd Delyth Jones i Mr Roberts am ddod a gobeithio y cawn ei gwmni yn yr Urdd eto yn fuan iawn. Anti Nan ac Anti Heulwen oedd yno yn helpu.

National Grid

CWMNI GRID CENEDLAETHOL CCC
BUSNES STORFA BWMP

GORSAF BŴER DINORWIG

DATHLIAD 10 MLYNEDD

DYDD SADWRN, 7 MAI 1994
10 a.m. — 5.30 p.m.

Ymwelwch â Gorsaf Bŵer Dinorwig yn rhad ac am ddim dydd Sadwrn, 7 Mai. Gweithgareddau yn cynnwys stondinau busnes a chrefftau, teithiau dan ddaear (trwy docyn yn unig), ras hwyl, ras redeg, ras rafft ac atyniadau eraill.

Anfonwch am docynnau am ddim i'r daith dan ddaear i:
GORSAF BŴER DINORWIG
LLANBERIS, GWYNEDD LL55 4TY
gan farcio'r amlen 'Dathliad 10 Mlynedd' a chan wneud yn glir y nifer o docynnau — naill ai y bore neu'r prynhawn — a ddymunir. Mae'r tocynnau yn brin ac fe'u dosberthir yn ôl y drefn y derbynir y ceisiadau. Dim ond ceisiadau gan unigolion a theuluoedd a gaiff sylw.

DYMUNIADAU GORAU I ECO'R WYDDFA AR GYHOEDDI EI 200FED RHIFYN!

Ar 16 Mawrth cafodd y plant noson o gemau hefo Carolyn Davies a chafwyd blas ar chwarae pêl-rwyd. Diolch yn fawr iawn i Carolyn am ddod.

Bydd tymor yr Urdd yn dod i ben ar 23 Mawrth hefo Twmpath Dawns hefo Dyfrig Jones. Estynnir croeso cynnes i bawb. Ym mis Medi y bydd y tymor newydd o'r Urdd yn ailddechrau.

Genedigaeth: Llongyfarchiadau i Yvette a Tudor, Bron Eryri, ar enedigaeth eu mab bychan, Tegid Siôn.

Llongyfarchwn hefyd Jane a Darren, 3 Dôl Erddi, ar enedigaeth mab bychan, brawd i Steven a Jade.

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna
679501 (gwaith); 677438 (cartef)

Gwasanaethau'r Capel: Beth am fynychu Capel y pentref yn ystod y Pasg? Disgwylir gwasanaethau o dan arweiniad y canlynol yn ystod mis Ebrill:

3: Gwasanaeth Sul y Pasg am 10
10: Y Gweinidog am 10
17: Parch Ronald Williams am 2
24: Y Gweinidog am 2.

Sioe'r Pentref: Y Pasg yw'r amser traddodiadol i droi'r ardd a phlanu llysiau a blodau ar gyfer yr haf. A ydych chi wedi dechrau tybed?

BETWS GARMON

Llongyfarchiadau i Eurwyn a Pear Williams, Parc, ar ddod yn daid a nain. Ganwyd mab bychan, Talwrn, i'w mab David a'i wraig Lorna.

CLWB ERYRI

Cynhaliwyd y cinio Gŵyl Ddewi ar nos Wener, 4 Mawrth, yng Ngwesty Erw Fair, Llanberis. Cafodd cynulleidfa deilwng ei diddanu a'u swyno gan Gwynn Davies, y Waunfawr, y siaradwr gwadd, a soniodd am y cymeriadau a'r digwyddiadau doniol a ddaeth â blas arbennig i'w yrfa hir fel cyfreithiwr. Wedyn cafwyd dwy gystadleuaeth lenyddol eu naws, a chipiwyd y prif lawryfon gan Evan Parry, Ceunant, a'r Dr R. W. Williams, oedd yn amlwg wedi swyno'r beirniad â'u gwreiddioldeb treiddgar! Yn wir anogwyd y ddau i ymgymryd yn fwy pendant ac ymroddgar â gofynion yr awen barod er sicrhau iddynt le yn oriel ein hanfarwolion! Diolchwyd i'r rhai a gyfrannodd at lwyddiant y noson gan yr Is-lywydd, Evan Parry, ac wrth gloi cyhoeddodd y Llywydd, Eurwyn Jones, Llanberis, fod cyfarfod nesaf y Clwb ar NOS IAU, 7 Ebrill, gyda Geraint Elis, Bethel, yn traddodi a Brython Jones, Caernarfon yn y gadair.

DRAENOG

Mae 'na siopau M-A-W-R yn Llundain. Dyna ddysgodd siopwr o Lanberis pan aeth am dro i Harrods. Fe aeth ar goll yno! Bu chwilio dyfal amdano. Mae nhw'n deud mai chwilio am y cownter llysiau a ffrwythau oedd o ar y pryd — er mwyn gweld safon y gystadleuaeth!

O BRUNEI I BEIJING

Wel, lle dwi'n cychwyn medda chi, a finna yn ôl ym Mrunei rŵan ers dau fis, ar ôl treulio cyfnod y Nadolig adref efo fy rhieni a'm ffrindiau.

Yr un hen stori efo'r tywydd yma, sef cythreulig o boeth yn ystod y dydd ac yna glaw trwm drwy'r nos.

Mae Puasa wedi cychwyn yma, sef mis o ymprydio i'r Mwslemiaid, ond fe gânt fwyta ac yfed unwaith bydd yr haul yn machlud. Nid yw hyn effeithio llawer arnom ni, ond rhaid gofalu nad ydym yn yfed nac yn bwyta dim tra'n cerdded y strydoedd, ac mae amseroedd y siopau a'r swyddfeydd yn cael eu newid — pob siop Fwslemaidd yn cau am dri y prynhawn.

Mae'r boblogaeth Tseiniaidd hefyd wrthi'n dathlu yma — dathlu dechrau blwyddyn newydd. O'r herwydd cawsom ychydig ddyddiau o wyliau ac felly i ffwrdd a fi am Beijing (Peking) yn China!

Dwi 'di bod eisiau ymweld â'r wlad anferth yma ers tro ac o'r diwedd dyma drefnu ymweliad bach sydyn.

Cychwyn o Brunei am hanner nos a chyrraedd Beijing am saith y bore. Rhaid cyfaddef fod awyrgylch y maes awyr yn ddychryn braidd. Gweld yr holl filwyr yn eu gwyrddwisg yn sefyll ym mhobman, a dim gwên i'w gweld ar wyneb yr un ohonynt. Neb bron yn siarad tra'n disgwyl i gael stampio'r passport, a llawer o ffurflenni angen cael eu llenwi cyn cael mynediad i'r wlad, er enghraifft, ffurflen iechyd yn gofyn cwestiynau fel — a oeddech yn diodde o ddeiaria ar y pryd!

Wrth gwrs roedd yn oer ar y naw yno, ond rhaid oedd diodda'r oerni nes cyrraedd y gwesty a chael rhoi mwy o ddillad amdanaf. Dyna'r peth callaf i'w wneud o dan yr amgylchiadau, ond na, roedd yn rhaid i un o'm cyd-deithwyr agor ei chês yng nghanol y maes awyr a rhoi pâr arall o drowsus dros ei choesau! Wrth lwc chwerthin wnaeth y swyddogion.!

Roedd tri diwrnod llawn o weithgareddau wedi ei drefnu ar ein cyfer a'r bore cyntaf yma, a ninnau heb gysgu winc ar yr awyren, dyma gychwyn am Sgwâr Tiananmen. Dyna oedd y bwriad beth bynnag, ond ar ôl cyrraedd yno fe wrthodwyd mynediad i ni gan y swyddogion am fod cyfarfod pwysig yn cael ei gynnal gan y Llywodraeth mewn adeilad cyfagos. Diolch yn fawr — a ninna' ond hefo 'chydig o amser yn y wlad!

Ymlaen wedyn am y Ddinas Waharddedig, 'cartref' yr holl Ymerawdwyr yn y blynyddoedd a fu. Hwyrach fod rhai ohonoch wedi gweld y ffilm 'The Last Emperor', sef hanes Ymerawdwr olaf Tseina cyn i'r werin bobol gymeryd trosodd. Wel — siom arall mae arna'i ofn — 'roedd y lle wedi cau! Pam? Doedd neb yn gwybod!

Teithio mewn bws mini, efo Mr Woo y dreifar a Lu Fang ein tywyswraig, am y 'Summer Palace'. Andros o le mawr crand lle arferai Ymerawdwyr y dydd dreulio tymor yr haf. Roedd yno dŷ opera enfawr a llawer i adeilad crand. Roedd y llyn anferth a amgylchynai'r lle wedi rhewi'n gorn a phobol yn mwynhau sglefrio arno. Anodd yw ceisio disgrifio'r adeiladau a'r holl gerfluniau cywrain sydd arnynt, ond mae'n rhaid cyfaddef fy mod i'n talu llai a llai o sylw i'r holl adeiladau yma fel yr a'i yr amser ymlaen gan eu bod o'ch cwmpas ym mhobman.

Ymlaen wedyn i gael cinio. Ond i ble medda chi? Roeddwn wedi llygadu Kentucky Fried Chicken yn gynharach, ond na, roedd Mr Woo am fynd a ni am wledd i'w hoff fwyty ef!

Roedd hi'n teimlo'n oerach yn y 'ty bwyta' yma nag allan yn yr awyr iach, ond anghofiodd pawb yn reit sydyn am yr oerni pan dynnwyd ein sylw at y tanc pysgod oedd wrth ymyl ein bwrdd bwyta ni — digon o bysgod *mawr* yn nofio yn y tanc *bach*, ond roedd yna un pysgodyn yn arnofio ar wyneb y dŵr! Na, doedd o ddim yn ceisio nofio ar ei gefn, gan ei fod yn hollol farw! Jôc fawr wedyn, tra roedd Mr Woo yn archebu'r bwyd, mai'r pysgodyn marw o'r tanc a fyddai ar ein platiau cinio ni!

Wel, wir i chi, roedd yn rhaid i mi ymweld â'r *ty bach* er nad oeddwn yn edrych ymlaen o gwbl am y profiad o ymweld a'r ystafell fechan, gan y gwyddwn yn iawn sut doiledau sydd i'w cael yn y Dwyrain Pell! Mi fyddwch yn falch iawsn nad wyf am fynd i fwy o fanylion ynglŷn â'r toiled! *Ond*, wrth fynd heibio'r tanc pysgod unwaith eto, a welwyd pwysgodyn yn arnofio? Wel naddo, ond roedd Mr Woo wrthi'n mwynhau y 'wledd' oedd o'i flaen, gyda gweddill y criw yn edrych yn reit welw!

Rhaid cyfaddef mai dim ond reis a gawsom i ginio y diwrnod cyntaf hwnnw, ond chwara' teg, mi fentrodd un o'r genod i flasu'r cawl sglefren fôr!

Yn ystod y prynhawn, ymweld â rhai o demlau'r ddinas gan gynnwys Teml y Nefoedd, ond erbyn hynny roeddem i gyd yn dechrau teimlo effaith noson ddi-gwsg yn enwedig felly a'n stumogau'n wag!

Ar ôl noson dda o gwsg, deffro'n weddol gynnar gan roi digon o ddillad cynnes amdanom gan ein bod yn bwriadu mynd i gerdded ar ddarn o Wal Fawr Tseina. Beth oedd yn ein hwynebu pan aethom tu allan i'r gwesty ond planced dew o eira ymhobman a'n tywyswraig yn dweud mai ffôl fyddai mentro ar daith i weld y Wal.

Trefnu taith felly i ymweld â'r 'Ming Tombs', sef pentref tanddaearol lle arferid claddu rhai o Ymerawdwyr Bejing. Gweld sgerbydau'r bobol hyn a theimlo yn reit ben ysgafn gan gofio ein bod o dan ddaear. A deud y gwir ro'n i'n teimlo fel fy mod i'n sefyll yng nghanol pwerdy trydan Dinorwig, cymaint oedd maint yr ystafelloedd tanddaearol yma.

Erbyn hyn roeddem wedi dod yn ffrindiau reit dda hefo Mr Woo ac fe wahoddwyd ni am swper i'w dŷ. Profodd hwn i fod yn brofiad go arbennig, nid yn unig oherwydd ein bod yn cael ymweld â thŷ dyn cyffredin fel Mr Woo yn hytrach na bod yng nghanol moethusrwydd yr Holiday Inn, ond oherwydd fod y swper a gawsom yn swper go arbennig. Swper i ddathlu y flwyddyn newydd Tseiniaidd, ac roedd ei ferch pedair ar ddeg oed wedi bod wrthi'n ddyfal yn paratoi'r bwyd drwy'r dydd.

Roedd Mr Woo wedi dweud wrth ei ferch nad oeddem yn rhy hoff o 'Sea Cucumber' a phethau llithrig felly, a rhaid dweud mai dyma'r pryd bwyd Tseniaidd gorau dwi 'rioedd wedi'i fwyta, yn enwedig felly y 'dumplings' traddodiadol a'r holl garlleg amrwd wedi ei socian mewn finegr a gawsom!

Rhaid dweud mai'r diwrnod gorau o'r gwyliau i mi oedd y trydydd diwrnod gan i ni lwyddo i gael caniatad i gerdd ar Sgwâr Tiananmen, sydd yn gofiadwy i ni heddiw oherwydd y brwydro a'r holl ladd a dioddefaint a ddigwyddodd yno ychydig flynyddoedd yn ôl.

Roedd y Sgwâr o dan blanced ysgafn o eira, a'r gwynt rhewllyd yn cochi bochau'r cannoedd hynny oedd yn sefyllian o gwmpas. Niferoedd lawer o faneri coch yn chwifio o'n hamgylch a'r lliw tanllyd yma yn ein hatgoffa o'r holl waed a gollwyd yn ystod yr anghytundeb; a chofio hefyd am y myfyriwr ifanc hwnnw a heriodd y tanciau i gyd a hynny o flaen llygaid y byd. Ys gwn i beth ydy hanes y bachgen arbennig hwnnw erbyn hyn.

Dros y ffordd fawr i'r Sgwâr fe welir llun enfawr o Mao wedi ei osod yn dra gofalus ar wal mynedfa i'r Ddinas Waharddedig. Y llun yno er mwyn atgoffa pawb sut bu i'r werin bobol lwyddo i gael gwared â'r Ymerawdwr Olaf. Treuliais oriau y tu mewn i waliau'r ddinas gan geisio dychmygu sut brofiad ydoedd i'r Ymerawdwr Olaf yma orfod tyfu i fyny oddi mewn i waliau'r Ddinas Waharddedig, a hynny heb erioed gael mentro allan i'r ddinas fawr; a sut y bu iddo orfod gadael ei gartref gan ddechrau byw bywyd cyffredin.

Roedd 'na gannoedd o ymwelwyr yn y lle hanesyddol yma a'r costau mynediad yn llawer uwch i ni i'r Tseiniaid!

Hwyrach y gallwn ni fel Cymry ddysgu gwers o hyn gan fentro codi tâl uwch yn meysydd parcio, er enghraifft, yn enwedig yn ystod tymor prysur yr haf! Mater o farn dwi'n gw'bod!

Dyna'r cyfan am y tro. Felly, tan y tro nesa' — Hwyl!

DELYTH ERONWY



Delyth hefo un o'r cymeriadau diddorol y daeth ar eu traws yn China.

SIOP GREFFTAU
CAFFI
CANOLFAN GARDD

ANTUR WAUNFAWR

Ar agor bob dydd Sadwrn o 10 a.m. – 3 p.m.
o Fai 1af

Galwch i weld ein cynnyrch arbennig

CABS LLANRUG

C'fon 675951

Prisiau cystadleuol
Gwaith contract
pell ac agos

'Un funud fach . . .'

CAEL CAWELL

'Gawsoch chi gawell?' Doeddwn i ddim yn deall y cwestiwn pan glywais o gynta yn Llŷn. Roedd rhaid esbonio'r ymadrodd i mi. Cael cawell wnewch chi wrth alw heibio i dŷ a chael neb gartra. Mi gafodd pawb ohonom gawell rywdro neu'i gilydd.

A chael cawell wnaeth y criw o ferched aeth at fedd Iesu Grist ar fore Sul y Pasg. Roedd yr Iesu wedi marw ar y groes ac wedi cael ei gladdu mewn bedd. Roedd ei ffrindiau'n naturiol yn galaru. Ac ar y bore Sul hwnnw aeth Mair Magdalen a'i ffrindiau am dro at ei fedd. Bwriadu dangos eu cariad at yr Iesu oedden nhw trwy eneinio ei gorff. Roedden nhw am dalu'r gymwynas olaf i'r un a olygodd gymaint iddynt. Ond cawell gafon nhw. Doedd yr Iesu ddim yno. Roedd y garreg fawr wedi symud oddi wrth geg y bedd, a dyna angel yn gofyn iddynt, *'Pam yr ydych yn ceisio ymhlith y meirw yr hwn sy'n fyw? Nid yw ef yma; y mae wedi ei gyfodi'.*

Lle'r awn ni i chwilio am yr Iesu ar Ŵyl y Pasg eleni? Cawell gawn ninnau os disgwyliwn ei gael mewn bedd. Mae hwn yn fyw. Ac nid byw trwy ei ddylanwad, neu yn ei ddysgeidiaeth, neu trwy ei eiriau a'i esiampl a olygir. Mae'r person ei hun yn fyw. Dyna ran o neges fawr y Pasg i ni. Cafodd hwn ei ladd, ond fe gafodd ei godi yn ôl yn fyw. Bu mewn bedd, ond daeth allan ohono. Roedd yn farw ond mae yn fyw!

Mae'r Efengyl yn galw arnom i gredu yn yr Iesu a atgyfododd. Fe enillodd Iesu'r dydd dros bechod a marwolaeth a'r bedd. Mae'r atgyfodiad yn profi ei fod wedi dioddef marwolaeth — fel cosb am bechod — yn lle pobl eraill. Gallwn ymddiried ynddo am faddeuant. Mae't atgyfodiad yn profi nad oes gan farwolaeth na'r bedd afael ynddo. Gallwn ymddiried ynddo i ddod â ninnau trwy farwolaeth i fywyd y nefoedd ryw ddydd. Mae'r atgyfodiad yn profi mai person byw sy'n cynnig ei gymorth a'i gwmnïaeth i ni. Chwiliwch am yr Iesu byw, a chewch chi ddim cawell.

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: 872407

Ysgol Feithrin: Ar fore Mawrth 1af cynhaliwyd gwasanaeth arbennig gan blant bach y cylch. Roedd pob un yn gwisgo gwisg draddodiadol Gymreig a chafwyd actio, canu ac adrodd am Ddewi Sant.

Ysgol Sul Bosra: Croesawyd aelod newydd i'r Ysgol Sul, sef Sioned Griffith, Waun. Bydd y plant yn cymryd rhan mewn dwy gymanfa eto eleni, yng Nhapel Jerusalem, Llanberis, ar Sul, 17 Ebrill; ac yng Nghapel Seilo, Tre-garth, ar 24 Ebrill.

Gwellhad: Anfonir cofion annwyl at Mrs Eileen Thomas, Bron y Gaer, sy'n derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Balch yw deall fod Leslie Jones a Dylan Edwin, Meillionydd, yn gwella yn Ysbyty'r Brifysgol, Lerpwl. Derbyniodd Dylan aren gan ei dad Leslie. Dyna, Ffydd, Gobaith a Chariad yng ngwir ystyr yr adnod. Brysiwch adref eich dau.

Llongyfarchiadau: Dathlodd Mrs Annie Williams, Meillionydd, ei phen-blwydd yn 95 oed ar Sul, 20 Mawrth a'r cyfarchiad a'r anrheg gorau a gafodd oedd clywed llais Dylan a Leslie o'r ysbyty yn Lerpwl. Llongyfarchiadau i chwi Mrs Williams a phob bendilth i chwi oll ym Meillionydd.

Pob bendith a hapusrwydd i Sioned Lewis, Penpwllcoch, ar achlysur ei phen-blwydd yn 18 oed yn ddiweddar. Pob dymuniad da i'r dyfodol Sioned.

Pwyllgor Neuadd: Cynhelir cyngerdd yn y Neuadd Gymuned ar nos Fercher, 20 Ebrill, gyda Hogia'r Wyddfa ynghyd ag eitemau gan blant yr Ysgol a ieuenctid y pentref. Pris mynediad fydd: Oedolion £3, Pensiynwyr £1.50; Plant £1. Bydd tocynnau ar werth gan aelodau'r pwyllgor. Croeso cynnes i chwi. Bwriedir cynnal raffl fawr yn ystod Mehefin a Gorffennaf.

Tynnwyd Clwb Cant mis Chwefror yn Llygad yr Haul, a'r enillwyr oedd — 1, Carolyn Roberts, Pen Dinas Mawr; 2, Annette Webb, Bryntirion; 3, Siân a Bethan, Caernarfon.

Dydd Gweddi Byd-eang y Chwiorydd: Cynhaliwyd gwasanaeth yng Nghapel Bosra, Penisarwaun, i ddathlu Dydd Gweddi Byd-eang y Chwiorydd. Llywydd y noson oedd Mrs Ann Evans ac anerchwyd y cyfarfod gan Mrs Pat Larsen. Mrs Nansi Jones, Meillionydd oedd y cyfeilydd. Bu nifer o chwiorydd yr ardal yn cyfrannu i'r oedfa ac yn eu plith roedd Mrs Eirlys Jones, Mrs Betty Hughes, Mrs Nansi Jones, Miss Mair Ffoulkes, Mrs Mary Davies, Mrs Elizabeth Jones, Mrs Judith Harding, Mrs Janice Jones, Mrs Eluned Jones a Mrs Eleanor Jones. Diolch i bawb am gyfraniad parod bob amser.

Yr Urdd — Adran Bentref: Mawrth 8: Bu'r bechgyn yn chwarae pêl-droed pump-bob-ochr o dan ofal Dafydd Roberts a'r genethod yn gwneud aerobics gyda Susan. Diolch yn fawr i'r ddau am eu cymorth.

Mawrth 15: Daeth Bronwen Jones atom i ddangos sut i wneud origani. Llwyddodd pob un o'r plant i wneud cwpan allan o bapur a'i defnyddio i yfed eu diod oren. Diolch yn fawr Anti Bronwen am fod mor barod i ddod atom unwaith eto.

Mawrth 21: Ymunodd yr Adran gyda Adran Cwm-y-glo i orffen y tymor gyda disgo. Diolch o galon i Adran Cwm-y-glo am eu croeso.

Llongyfarchiadau i Elgan ar ei lwyddiant yn yr Eisteddfod Cylch a phob lwc i Lois yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Mae gweithgareddau'r Urdd wedi dod i ben am y tro. Gobeithir cael noson o fabolgampau y tymor nesaf. Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb sydd wedi cefnogi gweithgareddau'r Adran drwy'r tymor. Byddwn yn ailgyfarfod yn yr hydref.

Yr Ysgol Gynradd

Bywyd newydd: I gydfynd â'r thema 'Wyau' cafodd plant dosbarth Mrs Thomas brofiad arbennig yn ddiweddar. Gwelsant bump o gywion bach melyn yn cael eu geni mewn deorydd yn y dosbarth. Roedd y plant wedi dotio at y rhyfeddod. Mae'r cywion ar hyn o bryd yn cael gofal arbennig a'u bwydo'n rheolaidd ac yn sicr o fod yn enillwyr y dyfodol mewn sioeau ledled y wlad!

Mae'r dosbarth wedi ymweld ag Eglwys Santes Helen o dan arweiniad Anti Meri yn ddiweddar a chael y pleser o groesawu Mr John Owen a'i ddiweedar gi, Owi, i'r dosbarth i gael sgwrs.

Bu prysurdeb mawr yn yr Adran Iau hefyd. Fel rhan o thema y ddau ddosbarth fe aethpwyd ar ymweliad addysgol ag Eglwys Gadeiriol Bangor. Yn ystod yr ymweliad cawsom gyfle i glywed hanes yr Eglwys o'r flwyddyn 525 O.C., hyd at heddiw. Yr esgob cyntaf ym Mangor oedd Deiniol, ac yn ddiweddar, fe gofiwch, i'r esgob presennol, Y Gwir Barchedig Barry Cennydd Morgan, ymweld â ni yn yr Ysgol.

Cawsom ein tywys o amgylch yr eglwys ac yn ogystal â chlywed ei hanes diddorol cawsom gyfle i holi ynglŷn ag ystyr y gwahanol sumbolau sy'n gysylltiedig â'r eglwys, ac i lenwi holiadur. Ar ddiwedd yr ymweliad cafodd pob plentyn lyfryn diddorol iawn am yr Eglwys Gadeiriol a'i Hanes. Gwerthfawrogwn y cyfle i ymweld â'r Gadeirlan yn fawr iawn ac fe hoffem ddiolch i bawb a fu mor garedig wrthym wrth drefnu ac ar yr ymweliad.

Gweithgaredd arall a drefnwyd yn yr Ysgol yn ddiweddar oedd Ffair Lyfrau. Er fod y tywydd yn ein herbyn ar y noson fe gafwyd ymateb boddhaol iawn, gyda'r silffoedd yn edrych yn wag iawn ar ddiwedd y noson. Diolch i bawb a'n cefnogodd.

Diolch: Dymuna Elen a Haydn Lewis, Penpwllcoch, a'r teulu oll ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad yn eu profedigaeth o golli mam i Elen.

Dymuna Sioned Lewis ddiolch am y llu cariau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 18 oed yn ddiweddar.



Trefniadau Blodau Sych a Ffres yn ôl eich gofyn
Alwyn a Sarah Jones
RACCA
PENISARWAUN
★ Danfon blodau i ysbytai a chartrefi henoed
★ Addurno capeli ac eglwysi ar gyfer priodasau
★ Blodau ar gyfer angladdau
★ Stoc o flodau ffres
Galwch neu ffoniwch
870605
am fanylion

ERIC JONES
PENISARWAUN
Ffôn: 872421
★ Prisiau rhesymol
★ Spreio tu mewn a thu allan
★ Estimates am ddim
PEINTIO • PAPURO • MÂN ATGYWEIRIO

O SIAMBAR SELWYN

Ydw, rydwi'n cofio'r noson. Noson sefydlu'r *Eco* yn Ysgol Brynrefail. Anodd coelio fod yna ddau can rhifyn wedi ymddangos, a deunaw mlynedd wedi gwibio i'r gorffennol. Oes, mae gennym le i ddathlu yn sicr. Ymlaen at y milfed rhifyn pwy bynnag ohonoch fydd yma i'w ddarllen — 'daliwn heb laesu dwylo'.

* * * *

Mae yna sefydliad pwysig arall sydd ar fin dathlu ei ganmlwyddiant. Cyfeirio rydw i at y Cyngor Plwy' — neu y Cyngor Cymdeithas fel y gelwir ef bellach.

Fel yr *Eco,* mae holl aelodau'r Cyngor hwn dros y ganrif wedi gwasanaethu eu hardaloedd yn gwbwl wirfoddol. Dyma'r unig Gyngor o fewn i batrwm llywodraeth leol na chaiff yr un aelod ddima' goch am eu gwasanaeth. Dim hyd yn oed eu costau teithio.

* * * *

Pasiwyd y ddeddf i sefydlu Cyngorhau Plwy yn y flwyddyn 1894 ac fe gynhaliwyd y cyfarfod cyntaf o Gyngor Plwyf Llanddeiniolen yn hen ysgol Penisarwaun am 6 o'r gloch, nos Iau, Ionawr 3ydd, 1895.

Cadeirydd cynta'r Cyngor oedd y Parchedig David H. Williams, Bodhyfryd, Ebenezer. Ia, Ebenezer gyda'r 'Z' — does 'na ddim sôn am Ddeiniolen yn y cofnodion cynnar.

Llawenydd i 'nhalon i oedd canfod i Gyngor Plwy Llanddeiniolen benderfynu yn 'i gyfarfod cynta' un y byddai cofnodion y Cyngor a'i holl weithrediadau yn cael eu cadw a'u cynnal drwy'r iaith Gymraeg.

Yn y cyfarfod hwn hefyd pasiwyd cydymdeimlad â theulu y Parchedig Robert W. Griffith, Bethel, yr hwn a fu am dros chwe mlynedd yn Gynghorydd Sirol dros ran isaf y plwy, ac *'a fu bob amser yn weithgar ac yn ffyddlon gyda phob mudiad daionus yn y plwyf, yn gymdeithasol a chrefyddol'.*

Cafwyd rhybudd o gynigiad gan John Jones, Frondeg, Gallt-y-foel, yn datgan y byddai yn y cyfarfod nesa' yn dwyn i sylw y priodoldeb *'o nodi man sefydlog i gynnal cyfarfodydd y Cyngor'.* Y penderfyniad fu i gyfarfod ar *nos Sadwrn,* ym Mhenisarwaun ac yn Neiniolen (na, Ebenezer) ar yn ail — hyn er cyfleusdra i'r aelodau ac i drethdalwyr y rhan uchaf a'r rhan isaf o'r plwyf. Dydw i ddim yn credu y byddwn i'n boblogaidd iawn pe bawn i'n trefnu i gynnal ein cyfarfodydd ar nos Sadwrn yn yr oes sydd ohoni. Ond, wrth gwrs, roedd 'na reswm dros hyn gan mlynedd yn ôl. Roedd yr aelodau i gyd yn chwarelwyr ac yn gweithio hyd yn oed ar foreau Sadwrn. Fe barhaodd y trefniant hwn am rai blynyddoedd.

Diddorol oedd sylwi at nifer o gwynion ynglŷn â llwybrau — cwynion rydw i'n dal i ohebu ynglŷn â hwy er i gan mlynedd fynd heibio.

Mr Benjamin Jones, Coed-y-Parc, yn galw sylw'r Cyngor at rwystr sydd ar y llwybr sy'n arwain at Ffynnon Cegin Arthur (Cyngor Ionawr 26, 1895). Er crefu a chrefu ar y Cyngor Sir. Mae 'na rwystrau o hyd ar y llwybr sy'n arwain at y Ffynnon.

Mr T. Rees Owen, Penisarwaun yn tynnu sylw at Lwybr Gors Goch, a oedd mewn cyflwr cwbwl amhosibl i'w gerdded, oherwydd y dyfroedd, a chan mai mawnoglyd yw'r tir, ystyrid mai gorchwyl anodd fyddai atgyweirio'r llwybr, heb gael rhyw gynllun i sychu'r tir. Cyfeirid hefyd at arllwysiad carthffosiaeth i'r gors, a diffyg rhedfa i'r dŵr sy'n sefyll yn y ffos gyfochrog â'r llwybr am bellter o ffordd, ac yn ogleuo i'r fath raddau fel yr oedd yn peryglu iechyd. 'Haleliwia' meddaf, ar ôl can mlynedd mae'r gwaith ar fin cael ei gwblhau!

Hugh J. Griffith, Bethel (cefnder W. J. Griffith), yn tynnu sylw at nifer o dai adfeiliedig yn ardal Saron: *'sy'n cael eu defnyddio gan rhyw bersonau i ddibenion ffiaidd ac aflan'.* Pwy oedd y rhai euog hyn tybed, a pha werthoedd ffiaidd ac aflan a gyflawnwyd ym Methel gan mlynedd yn ôl?

Mewn cyfarfod ar Fedi 14, 1895, roedd 'na deimlad cryf o blaid goleuo y pentrefi — yn enwedig y rhai mwyaf poblog. Gwnaed ymholiadau am y nifer o lampau a oedd eu hangen, gyda'r canlyniad fod angen: 7 lamp yn Ebenezer; 6 yng Nghlwt-y-bont; 4 ym Methel; 2 ym Mrynrefail; 2 ym Mhenisarwaun; a 3 yn Rhiwlas a Waun Pentir.

* * * *

Heddiw mae yna yn agos i 1,000 o lampau yn goleuo plwy' Llanddeiniolen, ac os oes gennym achos i ymfalchïo ynddo o gwbwl, gallwn lawenhau am i ni geisio, a llwyddo, i ddod a'r hen blwy' 'ma o'r tywyllwch i'r goleuni!

* * * *

Ymlaen yn oleuedig at y milfed *Eco* hefyd. Ac wrth ddathlu canmlwyddiant y Cyngor Plwy', gofynnwn gyda'r Prifardd Llwyd Williams: *'Pwy fydd yma 'mhen can mlynedd?'*

Selwyn Griffith yn rhinwedd ei swydd fel clerc Cyngor Cymuned Llanddeiniolen. Wrth ei ochr, cadeirydd y Cyngor, Hefin Williams, Rhiwlas, sydd hefyd yn gynghorydd dosbarth dros Ward Bethel/Rhiwlas.

DINORWIG

Glyn Tomos, Pen y Bwlch, Ffôn: 870576

Croeso i Donna ac Anthony ac i'r ferch fach, Anthea Lynn Owen, i'w cartref newydd yn 8 Bro Elidir. Ffarweliwn â Mrs a Mrs Steven Jones a'r ferch fach, Haf Bryn, gan ddymuno pob dymuniad da iddynt yn eu cartref newydd yn Neiniolen.

Cinio Gŵyl Ddewi: Daeth tymor y Gymdeithas i ben ar 3 Mawrth pan y sicrhaodd yr aelodau ginio gwerth chweil yng Ngholeg Pencraig, Llangefni. Ar y diwrnod roedd Mrs Alice Griffiths yn dathlu ei phen-blwydd ac i ddathlu'r achlysur roedd y myfyrwyr wedi paratoi teisen hardd iddi. Gweler llun o'r aelodau yn mwynhau eu gwledd a diolch i Mr Rennell Williams am dynnu'r llun. Mae swyddogion y Gymdeithas yn dymuno diolch i bawb am bob cefnogaeth iddynt yn ystod tymor y gaeaf.

Diolch: Dymuna Mrs Alice Griffiths, Tanybwlch, ddiolch yn fawr am y dymuniadau da ar achlysur ei phen-blwydd yn ddiweddar. Roedd yn hyfryd cael cwmni teulu a ffrindiau i ddathlu'r amgylchiad gan iddo ddisgyn ar y diwrnod roedd y Gymdeithas yn cynnal eu cinio Gŵyl Ddewi. Llawer o ddiolch i Hannah a Marian am y paratoadau.

Cydymdeimlo: Cydymdeimlwn fel ardal â theulu y ddiweddar Ellen Thomas, Buarth Newydd, a fu farw ar 15 Mawrth. Cynhaliwyd gwasanaeth yn Amlosgfa Bangor ar 18 Mawrth.

Cyngerdd Arbennig: Cofiwch am y cyngerdd arbennig sydd i'w gynnal yng Nghapel Ebeneser, Deiniolen, ar nos Sul, 17 Ebrill am 7.30 o'r gloch. Bydd artistiaid o fri (gweler yr hysbyseb yn y rhifyn hwn o'r Eco) yn perfformio yno a bydd elw'r noson tuag at Apêl Haematoleg a Chancr, Ysbyty Gwynedd. Pris mynediad fydd £2 i oedolion a £1 i blant.

Pob dymuniad da i bawb sydd ddim yn mwynhau iechyd rhy dda ar hyn o bryd. Rydym yn falch o ddeall fod Mr John Peris Roberts, 11 Maes Eilian, yn gwella ar ôl ei anhwylder yn ddiweddar.

Cario'r Groes: Croeso i bawb ymuno yn yr orymdaith gyda'r Groes trwy'r pentref ar brynhawn dydd Gwener y Groglith. Bydd yr orymdaith yn cychwyn o'r Ganolfan am 2 ac yn dychwelyd yno erbyn 2.45 pryd y cynhelir gwasaneth syml. Yna fe ddilynir y gwasanaeth gyda phaned i bawb.

Aelodau Cymdeithas Lenyddol Undebol Dinorwig yn mwynhau eu cinio Gŵyl Ddewi ar y 3ydd o Fawrth yng Ngholeg Pencraig, Llangefni.

CHIROPODIST
Gwasanaeth yn eich Cartref
E. Ll. Parry
M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.
57 Glanffynnon
LLANRUG
Ffôn:
Caernarfon
675754

Eglwys St. Mair: Cynhelir Cymun y Pasg ar fore dydd Sul, 3 Ebrill, am 9 y bore. Bydd y gwasanaeth yng ngofal y Parchg Tegid Roberts. Cofiwch ei bod yn ofynnol i bob aelod o'r Eglwys dderbyn ei gymun ar Sul y Pasg. Rhoddir blodau ar yr allor gan Mrs G. Alwena Williams ar 3 a'r 10 Ebrill; ac yna Mrs Glenys Jones, 4 Bro Elidir, fydd yn rhoi y blodau ar y Suliau 17 a 24 o Ebrill. Diolch ymlaen llaw iddynt hwy. Disgwylir i bawb ddychwelyd blychau Cymorth Cristnogol erbyn Sul y Pasg neu yn fuan ar ôl hynny.

Pasg Hapus: A ninnau wedi troi'r cloc ychydig dros wythnos yn ôl edrychwn ymlaen yn awr at y gwanwyn a'r haf. Mae'n amser iddi gynhesu a chael diwedd ar yr holl dywydd gwlyb. Pasg hapus i bob un ohonoch.

CHWILOTA YMATEB I SIOPAU LLANRUG

Mae'r rhestr siopau a anfonodd Mr Myrddin Williams i'r *Eco* y mis diwethaf wedi ennyn llawer o ddiddordeb — ac nid yn Llanrug yn unig. Bu sawl person mewn cysylltiad â mi ynglŷn â'r siopau a 'anghofiwyd' gan Mr Williams; ond cofiwch nad oedd yntau yn honni ei fod wedi eu rhestru i gyd! Roedd sawl un yn cofio siop chips gyferbyn â thai presennol Rhos Rhug, ond yn ansicr ynglŷn â'r union dŷ. Roedd llawer un hefyd yn cofio am siop da-da yn Llain-gro — mae'n rhaid ei bod yn un arbennig gan fod nifer wedi cyfeirio ati.

Daeth cais gan Mrs Joan Griffith, Pant Tirion, Llanrug, yn gofyn a oes gwir yn y gred fod tafarn wedi bod yn Fron Haul ar un cyfnod. Oes rhywun all ateb? Dywed Mrs Griffith mai siop oedd eu tŷ hwy hefyd ar un cyfnod, a bod ffenestr y siop yno pan brynwyd y tŷ ganddynt hwy. Ond sut fath o siop oedd hi?

Daeth llythyr diddorol hefyd gan Mrs Mair Parry o Llanllyfni (yn wreiddiol o Lanrug). Mae hithau yn cyfeirio at y siop da-da enwog honno yn Llain-gro, ond mae hefyd yn sôn am siop yn Crawia. *'Cofiaf yn dda am siop oedd gan fy nain — mam fy nhad — yn Crawia. Adwaenid y siop fel Siop Margian Williams, a gwerthai siwgr a the ac angenrheidiau bob dydd eraill — a phethau da wrth gwrs. Rhoddodd y gorau i gdw'r siop (yn y parlwr) yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Cofiaf weld yr hen glorian yn un o'r cytiau allan yn y cefn ymhen blynyddoedd lawer wedi marw nain.'* Yn 2 Rhes Crawia roedd y siop honno.

YR URDD AC AWDURON O'R FRO

Ymateb i hanes yr Urdd ac awduron y cyfnod a wnaeth Mrs W. A. Jones, Y Dalar Deg, Llanrug. Mae'n synnu nad oedd enwau neb o'r fro yng nghyfrolau *Cymru'r Plant* 1923 gan fod cangen gref iawn yn Llanrug yn y dauddegau meddai hi. *'Byddai aelod a gawsai 50 o aelodau ei ddyrchafu yn gadfridog, ac yr oedd yna fwy nag un cadfridog yn Llanrug.'* Dywedodd fod Grace Moxen a Mat Pritchard yn weithwyr dygn gyda'r Urdd yn Llanberis yn yr un cyfnod.

Ynglŷn â'r awduron y cyfeiriais atynt: yn ôl Mrs Jones, 'E.P. o Fethel' oedd Miss Ethel Pritchard, a fu'n ysgrifenyddes i'r Cyfarwyddwr Addysg. Gwraig i'r Parchg Owen Jones, Ynys Enlli oedd 'K. Jones, Llanrug'. Daethant i fyw i Bryn Teg, Llanrug, ac yr oedd ganddynt fab o'r enw Emrys. Dyna ddatrys dau ddirgelwch yn syth felly.

Nid yw Mrs Jones mor sicr o'r enw arall: *'Wn i ddim pwy oedd "Nefydd o Lanberis", os nad y Parchg Nefydd Hughes Cadfan a ddaeth drosodd o Batagonia, ac a fu'n weinidog yn Sir Gaernarfon.'*

Cywir Mrs, Jones, ac i gael mwy o'r hanes cewch ddarllen yr erthygl 'Trysor Cof' yn rhifyn mis Mai o'r Eco.

'YR ECO CHWARTEROL' PAPUR BRO 1794

Rhag ofn i'r *haneswyr* yn eich plith gyfeirio at ddiffygion yn y 'ffug bapur' sydd wedi ei gynnwys gyda'r rhifyn arbennig hwn, cofiwch nad oedd bosibl i ardal fel hon gynnal unrhyw fath o gyfnodolyn ddwy ganrif yn ôl. Dychymyg wedi ei seilio ar ffeithiau hanesyddol yn unig ydyw. Roedd *Y Cylchgrawn Cynmraeg* y cyfeirir ato yn costio chwecheiniog (drud iawn!) ac er mai yn chwarterol y cyhoeddid ef, dim ond pedwar rhifyn a ymddangosodd. Diffygion cylchrediad a dosbarthu oedd achos ei dranc.

Y mae'r cymeriadau sy'n cael eu henw yn *Yr Eco Chwarterol* i gyd yn bobl go-iawn! Y drafferth fawr oedd fy mod yn gwybod beth ddigwyddodd i'r rhan fwyaf ohonynt ar ôl 1794!

Anfonwch unrhyw sylwadau i Dafydd Whiteside Thomas, Bron-y-Nant, Llanrug, (0286) 673515.

Mae'r gwobrau'n dal i ddod ar gyfer

CYSTADLEUAETH FAWR DATHLU'R 200 YN ECO'R WYDDFA

Eisoes derbyniwyd:

- ★ Gwerth £30 o nwyddau o Gatalog Cwmni Sain casetiau, CDs a Fideos
- ★ 10 gwobr o MOTs hanner pris; Balansio a Tracio yn ATS Caernarfon
- ★ Tiwnio Bosh am ddim yn AVW, Stad Cibyn, Caernarfon

I'ch enw fynd i'r het pan ddewisir yr enillwyr yn Noson Dathlu'r 200 ar 18 Mai 1994, atebwch yn gywir y cwestiynau a ganlyn:

PWY OEDD GOLYGYDD CYNTAF ECO'R WYDDFA?

(a) Rupert Murdoch;
(b) John Eilian;
(c) Arwel Jones (Hogia'r Wyddfa)

BE DI ENW'R WASG SYDD WEDI ARGRAFFU ECO'R WYDDFA O'R DECHRAU?

(a) Gwasg y Lolfa;
(b) Gwasg Gwynedd
(c) Gwasg Gomer

BETH YDI ENW'R CYMERIAD PIGOG SY'N ADRODD HANES DIGWYDDIADAU GWIRION YN ECO'R WYDDFA?

DYWEDWCH MEWN DIM MWY NA 10 GAIR:

'Rwy'n hoffi Eco'r Wyddfa oherwydd:.....

.....

Anfonwch eich atebion at unrhyw un o'r Golygyddion erbyn diwedd Ebrill.

DRAENOG

Hen beth digon peryg ydi 'porch'. Wel dyna ydy barn un gŵr busnes o'r fro beth bynnag, ar ôl profiad go ryfedd yn ddiweddar. Roedd ei wraig wedi mynd allan un noson, gan gloi drws ffrynt y porch yn ddeddfol ar ei hôl. Pan aeth ei gŵr allan yn hwyrach caeodd yntau ddrws mewnol y porch yn glep ar ei ôl a — da chi'n ei gweld yn dod dwi'n siŵr. Dyna ble'r oedd o — drws wedi ei gloi o'i flaen ac un arall y tu ôl iddo. Roedd o wedi ei gau mewn llathen sgwâr o borch a dim ond geraniums yn gwmni. Yn ôll pob sôn bu'n rhaid iddo WAVEio a CIGio tipyn ar y drws er mwyn tynnu sylw rhyw Samariad at ei drybini.

DIOLCH AM BOB ARWYDD O GEFNOGAETH A PHOB DYMUNIAD DA AR ACHLYSUR CYHOEDDI'R RHIFYN ARBENNIG HWN.

COFIWCH BRYNU'R 200 RHIFYN NESAF

Emyr Jones
PLYMAR A PHEIRIANNYDD GWRESOGI
Cynnal boileri nwy, olew, tanwydd solat a thredio peipiau
44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon 673513

I drin a thrwsio pob math o beiriannau gwnïo
MENAI SEWING MACHINE CENTRE
40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn: (0248) 714043
neu C'fon 674520
Edau, Nodwyddau ac ati mewn stoc

IEUAN WILLIAMS
Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484
★ Bysiau o 12 i 53 sedd
★ Teithiau Lleol a Thramor
★ Gwaith Contract
★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

GERAINT OWEN
Gosodwr carpedi a phob math o loriau
Cil-y-Mynydd
WAUNFAWR
Ffôn: Waunfawr 650552

ECO'R IFANC gan blant Ysgol Gwaun

I GOF

Deddech chin gwybod fod tymheredd Gwener yn codi i 500°c yn ystod y dydd?

FAINT O BLANEDAU SYDD YMA? _____



Enwch 5 planed gyda llythrennau hyn

Deddech chi yn gwybod ein bod yn rhan o alaeth y Llwybr Llaethog?



1. GLAS
2. BROWN
3. DÛ
4. OREN
5. MELYN
6. LLWYD
7. COCH

Wyddoch chi mae seren ydi ein haul ni?

Y LLEUAD

Does dim swn ar y lleuad
Yn 1969 Neil Armstrong oedd y
dyn cyntaf i gerdded ar y lleuad

Mae y lleuad yn mynd o amgylch
y ddaear unwaith bob mis

Os ydych yn mynd ar y lleuad
mae hoel eich troed yn aros yno
oherwydd does yno ddim
aer na dwr ar y lleuad

Yn ystod y dydd mae y haul
yn gwenu ar y lleuad ac yn
ei wneud yn boethach na dwr
berwedig ac yn y nos mae 'r lleuad
mor oer a rhew.

Liliwiwch y creadur arallfyd

Gynfi

OD

Deddech chi yn gwybod bod 1 centimetr sgwar o wyneb yr haul mor llachar a 232,500 o ganhwyllau.



Deddech chi yn gwybod fod gan Sadwrn tua 17 lleuad.?

Rhagarweiniad

Mae dosbarth 5 a 6 ysgol Gwaun Gynfi wedi bod yn gweithio ar thema 'y gofod' tymor diwethaf, ac rydym wedi gwneud posau a ffeithiau i chi eu mwynhau.
Wrth weithio ar y thema , rydym wedi dysgu llawer iawn ac mae pawb yn cofio ym mha drefn mae'r planedau'n dod , hyd yn oed!

MERCHER,GWENER,DAEAR,MAWRTH,IAU,SADWRN, WRANWS,NEIFION A PLWTO



Ble mae'r creaduriaid arallfydol yma'n byw?

Mae'r planedau wedi eu henwi ar ôl Duwiau Rhufeinig neu Groegaidd.
Negesydd y duwiau oedd Mercher.
Duwies cariad oedd Gwener.
Duwies natur oedd y Ddaear.
Duw rhyfel oedd Mawrth.
Iau oedd Brenin y Duwiau.
Duw amaethyddiaeth oedd Sadwrn.
Wranws oedd Duw yr awyr.
Neifion oedd Duw y môr.
Pluto oedd Duw tanddearol.

YR ECO CHWARTEROL

PAPUR BRO PERIS A GWYRFAI

Rhifyn Ionawr, Chwefror a Mawrth 1794 **Pris 6 cheiniog**

POBL Y FRO A'R DDADL AMERICANAIDD

Y MAE berw mawr ynglŷn âr ymfudo i'r America yn parhau. Chwi gofiwch i ni roddi adroddiad pur fanwl ar ddadleuon William Jones, Dolhywel, Llangadfan, Maldwyn, yn Eisteddfod y Gwyneddigion yn Llanrwst dair blynedd yn ôl. Y llynedd, ymwelodd ag Efrog Newydd, a chyfarfod yno, Owen Jones, ffrind Humphrey Thomas, Y Waunfawr (brawd Dafydd Ddu Eryri).

Un arall o'r Waunfawr sydd ar daith anghyffredin yn y wlad bellenig honno yw John Evans; brawd Evan Evans, a mab y diweddar Thomas Evans, o'r Gwredog Uchaf a Hafod Olau; ill dau yn bregethwyr cynnar gydag achos y Methodistiaid yn yr ardal. Balch ydym o ddeall ei fod wedi ei ryddhau o garchar yr Ysbaenwyr yn St. Louis wedi i'r gorthrymwyr gael gwybodaeth am ei wir fwriadau. Deallwn ei fod wedi cyrraedd yr afon anferthol honno a elwir y Missouri. Y mae siawns eto iddo ddarganfod disgynyddion y fintai honno a hwyliodd i'r wlad newydd gyda Madog ab Owain Gwynedd yn 1170.

Rydym yn ddiolchgar i'r Parch Peter Bailey Williams, Rheithor plwyfi Llanrug a Llanberis am gael benthyg llyfr y Dr John Williams, *An Enquiry into the Truth of the Tradition concerning the Discovery of America by Prince Madog ab Owen Gwynedd about the year 1170.* Mae yn ein meddiant hefyd gopïau o'r *Cylchgrawn Cynmraeg,* sydd dan ofal y Parch Morgan John Rhys. Y mae yntau hefyd yn gwir gredu ym modolaeth y Madogiaid, a deallwn ei bod yn fwriad ganddo yntau ymfudo i'r America yn ddiweddarach eleni. Efallai i rai o'r darllenwyr ei gofio yn pregethu yn Llanberis, gan ddatgan rhagoriaeth y wlad honno fel lle i'r Cymry ymfudo iddi. Mae cryn lawer o bobloedd yr ardal hon eisoes yn trafod y syniad o ymfudo. Cawsom wybodaeth yn ddiweddar fod y Parch Morgan John Rhys ar fin cyhoeddi llyfryn bychan ynglŷn â'r anturiaeth hon. Ei deitl fydd *Y Drefn o Gynnal Crefydd yn Unol Dalaethau America, a Rhesymau Digonol i Gyfiawnhau'r Cyfryw sy'n myned o'r wlad hon i America a Chyngor i'r Cymry.* Dichon y cawn ganiatad i gyhoeddi rhannau o'r llyfryn hwn yn *Yr Eco Chwarterol* nesaf.

Nid yw pawb, fodd bynnag, â chymaint o awydd i fentro i'r wlad newydd. Bu'n achos peth cynnwrf yng Nghyfarfod Misol Sir Gaernarfon ym Mrynengan ddechrau'r flwyddyn hon. Roedd Hugh Morris, mab yr hen Maurice Williams, Y Fach-wen, yn bresennol yn y cyfarfod hwnnw, a bu'n gwrando ar y Parch Robert Jones, Rhos-lan, yn traethu. Cawsom sylwadau'r hybarch ŵr hwnnw i'w cyhoeddi yma, a mawr ddiolchgar ydym am hynny:

'Disgynodd trwy amrywiol ardaloedd ryw gawod ddisymwth ar lawer iawn am fyned i'r America; effeithiodd yn ormodol ar rai proffeswyr fel y gorfu arnom ei drin yn y Cyfarfod Misol (Brynengan), ac wrth ymdrin â'r mater penderfynwyd gennym fel hyn:

"Fod yn rhaid i bwy bynnag a elo yna gael ei alwad yn glir iawn o'r Nef, neu fod erledigaeth neu rywbeth goleu yn achos o fyned yno. Tu yma i hynny beth sydd arnom ei eisiau."

Ffolineb yw meddwl fod lle yn America i ffoi rhag cerydd yr hwn y pechasom i'w erbyn. Am hynny yr ydym yn bwriadu trwy gymorth i annog ein gilydd fel corff i ymostwng tan alluog law Duw fel ein dyrchafer mewn amser cyfaddas. Gan hynny, ffarwél America ar hyn o amser.'

Un o'r fro hon sydd eisoes wedi ymsefydlu yn America yw Abraham Williams, gynt o'r Cwmglas mawr; mab yr hen Thomas Williams. Mae'n fwy adnabyddus i lawer fel Bardd Du Eryri. Chwi gofiwch i ni roi adroddiad am hanes ei ymadawiad yn un o rifynnau'r llynedd, pan adawodd y Bardd Du a'i deulu gyda llong o Fangor, a Dafydd Ddu, un o'i hen ffrindiau ysgol, yn wylo'n hallt o'i weld yn ymadael. Un arall o'i ffrindiau yw Griffith Williams, neu Gutyn Peris fel y mae'n cael ei alw. Cafodd ein gohebydd air â Gutyn ynglŷn â hynat a helynt y Bardd Du: *'Pan aeth Abraham Williams i'r America, meddyliais am werthu y lle sydd gennyf yn Llanberis (Llwyn Celyn), a myned gydag ef, ond roeddwn ar y pryd yn bwriadu priodi, ac yr oedd yn ormod ganddo aros hyny ag yntau wedi gwerthu ei bethau ac yn barod i gychwyn. Mi gefais lythyr yn ddiweddar gan yr hen gyfaill yn fy ngwahodd ato, ac yn cynnig talu am ein cludiad os deuem, ac y caem fod yn rhannog â hwy ym mhob peth a drinent. Ond ni fyn Elisabeth fyned.'*

Cawsom ganiatad parod Griffith Williams i gyhoeddi rhan o lythyr Abraham Williams iddo, ac yr ydym yn wir ddiolchgar am yr hawl hwnnw: ***'Y mae'r wlad hon yn caru gweithwyr yn well na boneddig. Nid oes yma ddim roi gormod o gyflogau i rai, a dal y lleill i lewygu fel yr ydych chwi yna. Rwi ar ddibenu yn athrist oherwydd fy nghydgenedl y Cymry sydd dan y fath orthrymder.'***

Deallwn fod Griffith Williams wedi trefnu i briodi yn Eglwys Llandegai fis Mehefin eleni, a dymunwn yn dda iddo ef a'i briod, Elisabeth, merch Ellis Jones, Braith-talog, Llandegai.

Mae Dafydd Ddu Eryri hefyd wedi derbyn llythyr o'r America, gan Griffith Griffiths, Drws y Coed. Mae ef yn bartner gyda Robert Roberts o'r Bala, mewn chwarel lechi yn nhalaeth Efrog Newydd. Bu Griffith Griffiths yn lletya am dair noson gyda Bardd Eryri, ac am gyfnod hefyd gydag Owen Jones yn Rosevelt Street, New York:

(parhad drosodd . . .)

LLANRUG

Bu pump o fedyddiadau yn y plwyf yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn: Anne, ferch Evan Roberts a Jane, Cefntrersaint; Elin, ferch William Thomas ac Elin, Cilgwythwch; Elin, ferch Morgan Jones ac Ann, Tyddyn Whiskin; William, mab Griffith David ac Elin, Ddôl Helyg; a Mary, merch Griffith Jones ac Elin. Bedyddiwyd y pedwar cyntaf ym mis Chwefror, a'r olaf ym mis Mawrth.

Yn Ionawr bu pedair claddedigaeth. Cydymdeimlwn â John Jones a Catherine o Gaerweddus yn eu profedigaeth o golli dau fab yn ystod y mis, sef Morris a Hugh. Claddwyd hefyd, Elin, ferch John Williams a Gaynor, Tyddyn Hiddigl; ac Elin Owen, Bryn Mihangel. Yn ystod mis Chwefror claddwyd Elizabeth, ferch John Rowlands a Mary, Bryn y Fedwen; a Grace Owen, merch Owen Dafydd, Cae'r Garth.

Y mae'n ymddangos fod y Frech Wen, a fu'n achos cynifer o farwolaethau ar ddiwedd y llynedd, wedi cilio oddi wrthym eto.

Ar ddechrau Ionawr, priodwyd Marjery Roberts, o'r plwyf hwn â Griffith David o Gelynnog Fawr. Yn dilyn ym mis Chwefror, priodwyd Jane Jones o Landdeiniolen â John Huxley o'r plwyf hwn. Y Rheithor, y Parch Peter Bailey Williams oedd yn gweinyddu yn y ddwy briodas.

Mae canmol gan y plwyfolion i'r gwaith a wnaethpwyd yn yr eglwys ddiwedd y llynedd pan adgyweiriwyd y pulpud a'r ddesg ddarllen.

Deallwn fod y Festri Blwyfol yn trafod y posibilrwydd o bwrcasu neu adeiladu tŷ neu dai ar gyfer tlodion y plwyf. Mae'r llôg o ewyllys y diweddar John Jones, gŵr bonheddig, Bryn y Fedwen, yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd i brynu bara gwyn i'r tlodion, ac yn cael ei rannu iddynt o'r eglwys ar ddydd Nadolig. Gadawodd dair punt i'r bwriad hwn yn ei ewyllys pan fu farw yn 1781. Deallwn fod rhai aelodau o'r Festri yn credu y byddai mwy o fudd yn deillio o'r arian pe gellid ei ddefnyddio i godi tŷ a fyddai'n rhoi noddfa i'r tlodion gydol y flwyddyn.

LLANBERIS

Yn ystod tri mis cyntaf y flwyddyn gweinyddwyd tri bedydd yn eglwys y plwyf: Jane, ferch William Rowland ac Elinor o'r Fachwen; Lowry, ferch John Griffith a Mary o'r Coed Mawr; a Rowland, mab John David a Mary o Ty'n Algarth.

Bu pedair claddedigaeth yn yr un cyfnod: Elinor Owen, tlotyn a Mary Owen, plentyn, o fewn ychydig ddyddiau i'w gilydd yn niwedd Ionawr; a Morrice William a Maurice Owen, plentyn, o fewn dau ddiwrnod i'w gilydd yng nghanol Mawrth.

Deallwn oddi wrth John Closs, Tyddyn Alis, tafarnwr Ty'n Llan, y bydd nifer o fonheddwyr o Loegr yn ymweld â'r fro eto eleni i chwilio am lysiau prin ar lethrau'r mynyddoedd.

BETTWS GARMON

Ar ddechrau Mawrth bedyddiwyd Humphrey, mab Thomas Hughes ac Anne, Plas y Nant.

Bu tair claddedigaeth. John Evans, Treflan, Llanbeblig yn Ionawr. Henry Williams, mab William Parry ac Anne o Wastadfaes, Llanbeblig; a Catherine Jones, gwraig Owen Williams, Treflan, ym Mawrth. Y Rheithor, David Williams oedd yn gwasanaethu yn yr oll o'r uchod.

NEWYDDIADUR SAISNEG

Mae dau bapur dyddiol yn Saesneg ar gael yn awr. Cyrhaeddodd rhai copïau o'r *Times* ni drwy garedigrwydd cyfeillion o Lundain. Mae'r *Times* yn bodoli eisoes ers naw mlynedd. Ar yr wythfed dydd o Chwefror eleni, cyhoeddwyd newyddiadur Saesneg arall, sef *The Morning Advertiser*. Deallwn ei fod wedi ei anelu yn bennaf at y 'coffee-houses' yn Llundain ac at dafarnau a thai cwrw ledled y wlad. Ni lwyddasom i gael copi hyd yma, ond mawr obeithiwn y cawn roi mwy o wybodaeth i'n darllenwyr yn y rhifyn nesaf o'r *Eco Chwarterol*.

-::o::-

TRETH BLWYFOL

Mewn Festri a gynhaliwyd yn Eglwys y Plwyf Bettws Garmon ar yr ugeinfed o'r mis bach, penderfynwyd ar Dreth o 6 cheiniog y bunt. Arwyddwyd y penderfyniad gan y Parch David Williams, ynghyd â'r Wardeiniaid Thomas Griffith, Bron y fedw; Humphrey Hughes, John Ellis, John Jones, John Roberts a Thomas Hughes, Plas y Nant.

Nid ydym wedi derbyn gwybodaeth hyd yma ynglŷn â threthi plwyfi eraill y fro.

-::o::-

I Ddafydd Ddu Eryri y mae'r diolch am roddi i ni arwyddair i'r cyfnodolyn hwn:

'Os nad ydych yn deall Cymraeg mwyaf yn y Byd y cywilydd, ac os nad oes ond chwychwi yn unig yn deall Saisneg, pa beth a ddaw o'r Cymry uniaith? O na fyddwch mor angharedig ac anghymwynasgar a gadael iddynt fyw a marw mewn anwybodaeth. Pa leshâd i chwi yw bod yn gydnabyddus mewn gwledydd pellenig ac yn ddieithr gartref?'

LLANDDEINIOLEN

Bu tair priodas yn y plwyf yn ystod y chwarter: Jane Maurice a Hugh Williams yn Ionawr, y ddau o'r plwyf hwn; ac yn Chwefror, Elinor Jones o'r plwyf hwn a John Roberts o Lanfairisgaer; a Jane Humphrey a William Williams, y ddau o'r plwyf hwn. Y Parch William Williams oedd yn gweinyddu.

Bu nifer o gladdedigaethau. Ym mis Ionawr, Thomas Williams, Tyddyn y berth a Margaret, merch Roger Jones. Ym mis Chwefror, mab Griffith Jones; Mary, merch Richard Roberts, Glanrafon bach; Elen, merch Morgan Jones; Mary Griffith; Griffith David a Robert, mab William Thomas. Ym mis Mawrth, Mary Thomas a Margaret, merch John Parry.

WAENFAWR TREFLAN

Mae'r 'capel bach' fel y gelwir ef gan drigolion y fro yn ddeg oed, ac y mae Evan Evans y pregethwr, a John Pritchard wedi cychwyn ysgol yno. Mae wedi ei chynnal yn wythnosol yn ystod gaeaf eleni, ac wedi rhoi cyfle i nifer o'r trigolion ddarllen am y tro cyntaf. Yr arferiad cyn cychwyn yr ysgol oedd gweddïo yn unig. Torrwyd pren fforchog a'i osod yn llawr y 'capel bach'. Yna, rhoi cannwyll yn ei ben. O amgylch y pren fforchog y cynhaliwyd yr ysgol gydol y gaeaf hwn.

Mae nifer o dai newydd yn cael eu hadeiladu yma ar hyn o bryd, ac un o'r prif adeiladwr yw Robert Dafydd Luke. Mae'n defnyddio cerrig o'r Cefn Du, a gall godi tŷ am bris o ryw saith neu wyth bunt.

Y DRETH RYFEL

Y mae Prydain a Ffrainc wedi bod mewn stâd o ryfel ers blwyddyn bellach, ac y mae'n ymddangos na fydd diwedd cyflym i'r ymrafael. Gosodwyd Treth Ryfel o 20% ar y Fasnach Lechi, a deallwn fod cyfarfod wedi ei drefnu yng Nghaernarfon i ddwyn petisiwn yn erbyn y Dreth honno.

NEWYDDION YR YMNEILLTUWYR

Y mae achos yr Ymneilltuwyr ar gynnydd yn y fro. Eisoes y mae capel yn Llanberis ac ar Waenfawr Treflan gan y Trefnyddion Calfinaidd. Mae'r achos yn Llanrug hefyd yn cryfhau, gan ddenu aelodau o blwyfi Llanfairisgaer a Llanddeiniolen. Ar hyn o bryd maent yn cyfarfod yn Nhwll y Clawdd, a Robert William, Garreg Goch, Llanfairisgaer sy'n blaenori. Y mae Hugh Williams, Drwsddeugoed yn bregethwr yma hefyd. Y mae'n fwriad gan yr aelodau i ymofyn caniatad i Festri Blwyfol i godi capel ar y tir comin. Deallwn eu bod wedi rhoi eu bryd ar fan cyfarfod y llwybrau troed i Bont Rhyddallt ac o Sarn y Crywiau.

Mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn Llanddeiniolen hefyd, a William Sion, Caecorniog yn flaenllaw iawn gyda'r trefniadau. Nid rhyfedd hynny, o gofio ei fod yn nai i Robert Jones, Rhos-lan.

Mae nifer o drigolion plwyf Llanberis a pharthau'r Fach-wen yn cyfarfod ger Llwyn Celyn ar lan Afon Goch i wrando pregethu gan y Bedyddwyr.

Y mae rhyw newid mawr ar gerdded drwy'r fro.

(. . . o'r dudalen flaen)

'He lives very well. He is a Chandler and Soap boiler'. Dyma neges amserol Griffith Griffiths i bobl Cymru meddai Dafydd Ddu: ***'Tell them all that there is land enough for as many people as there are in Wales. Give my best respects to all that I know of Prydyddion Cymru.'***

DIGWYDDIADAU

Y Pasg: Chwarae Bêl ar Glwt y Bêl, Waun Gynfi.

Noswaith Lawen ac Ymryson Canu yn y Nantalgwyn, Pontrug. Cysylltwch â Gruffydd Pritchard.

Difiau Dyrchafael — Cerdded Terfynau Llanddeiniolen. Arweinydd fydd Ffowc Sion, Penllyn.

Yn fy marn i . . .

Gwasanaeth Iechyd mewn trybini

Pan sefydlwyd y gwasanaeth iechyd, gan yr aelod seneddol Llafur, Aneurin Bevan, 46 mlynedd yn ôl, ychydig ohonom freuddwydiodd y byddai dirywio i'r fath raddau nes peri caledi enbyd yn enwedig i'r tlawd a'r diymgeledd, sef yr union bobl y darparwyd y gwasanaeth ar eu cyfer. Ond dyna sy'n digwydd.

Roeddwn yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar yn ymwled â chalf. Cefais fy synnu fod y claf wedi hen dderbyn ei driniaeth ac wedi ei yrru adref i'w ymgeleddu gan ei deulu. Mae tywys claf i'r ysbyty bellach fel mynd â'r car i'r garej. Rhaid bargeinio am y gwasanaeth gorau a thalu'r bil amdano. Gorau po gyntaf y cwblheir y gwaith er mwyn gwneud lle i'r cwsmer nesaf. Yn anffodus nid trin ceir yw gwaith awdurdod iechyd ond trin pobol.

Rwyf wedi synnu ers blynyddoedd mor bell y mae pobl yr ardal hon, yn enwedig y rhai sy'n diodde o salwch difrifol, yn gorfod teithio am driniaeth arbenigol. Mae cancr yn enghraifft dda. Amcangyfrifir y bydd un rhan o dair o boblogaeth Gwynedd yn datblygu cancr rywbryd yn ystod eu bywyd, gyda 26% yn debyg o farw o'r clefyd. Ar unrhyw amser penodol bydd tua 6,000 o bobol yn dioddef o gancr yng Ngwynedd. Rhaid bod yn ofalus wrth ddadansoddi ffeithiau fel hyn gan fod y patrwm rhywbeth tebyg drwy Brydain. Ond yng Ngwynedd — ac mae tystiolaeth meddygon lleol yn cadarnhau hyn — mae'r sefyllfa yn waeth o lawer ac mae'r achosion ar gynnydd. Mae'n sefyll i reswm felly y dylid canolbwyntio'n hymchwil yng Ngwynedd, lle mae'r broblem ar ei gwaethaf, a chodi canolfan addas i drin y clefyd, nid anfon cleifion i Clatterbridge a Bryste.

Mae cymuned wledig Gwynedd yn debyg o ddioddef mewn ffyrdd eraill Bydd meddygon a chanddyn nhw nifer fawr o gleifion ar eu llyfrau — rhwng 5,000 a 7,000 — yn cael mantais ar draul meddygon ag ychydig o gleifion. Caiff y syrjeris mawrion swm arbennig o arian gan y Llywodraeth i brynu gwasanaeth gan yr ysbytai. Ond fydd gan y rhan fwyaf o feddygon gwledig, er mor bwysig eu cyfranid yng nghefn gwlad, ddim gobaith o gwbl cystadlu yn erbyn trefn o'r fath. Fydd

Eirug Wyn — Cynghorydd Sir dros ardal y Waunfawr.

ganddyn nhw ddim digon o enwau ar eu llyfrau, a bydd rhaid i'r cleifion aros yn y ciw. Mae 70% bellach yn dewis cael eu trin yn breifat oherwydd peryglon colli mantais cael triniaeth frys. Y tlawd sy'n bendant o ddioddef o dan sustem o'r fath.

Pres sy'n rheoli. Clywais y dydd o'r blaen am glaf mewn siop gemist a chanddo dri presgripsiwn yn holi'r fferyllydd pa un oedd y pwysicaf o'r tri gan nad oedd ganddo ddigon o arian i fforddio'r cwbwl. Pres sy'n rheoli yn yr ysbytai hefyd gydag arbenigwyr yn godro pob ceiniog posib o'r farchnad breifat. Gynt doedden nhw ond yn cael caniatad i drin cyfartaledd bychan o gleifion preifat. Erbyn hyn mae ganddyn nhw fwy o ryddid i wneud fel y mynnon nhw.

Ydych chi'n cofio, rai blynyddoedd yn ôl, y Llywodraeth yn cau nifer fawr o ysbytai bychai, fel Ysbyty'r Bwthyn a Gallt y Sil? Erbyn hyn mae nhw'n dechrau sylweddoli mai camgymeriad oedd hyn i gyd a bod gwerth i'r ysbytai bychain lleol i drin rhai cleifion penodol. Doeddan nhw ddim yn fodlon gwrando ar y rhai ohonom fu'n dadlau yn eu herbyn ar y pryd. Beth fydd y gost i'r trethdalwyr tybed o ailagor yr ysbytai hyn — cost y gellid fod wedi ei harbed pe bai nhw wedi gwrando yn y lle cyntaf ar lais pobol a chymunedau.

Gweinyddwyr yr awdurdod iechyd — rhai ohonyn nhw'n ennill tua £50,000 y flwyddyn — sy'n gwneud y penderfyniadau hyn. Nhw hefyd, nid meddygon lleol, sy'n cael penderfynu os yw henoed yn ddigon sâl i fynd i ysbyty, neu'n ddigon iach i fynd i gartref henoed lle mae disgwyl i deuluoedd dalu hyd at £300 yr wythnos at eu cadw yno. Bydd 'gofal yn y gymuned' yn dechrau ymhen mis neu ddau. Caiff cleifion eu hanfon adref o'r ysbytai gan y biwrocratiaid i'w cymunedau ond fe ymddengys, am na fydd digon o arian na gofal ar gael i'w hymgeleddu'n effeithiol, y bydd meddygon mewn sawl achos yn eu hanfon yn ôl i'r ysbytai.

Rhwng 1989 a 1992 penodwyd 30,000 yn *fwy* o fiwrocratiaid yn y gwasanaeth iechyd, ond 26,000 yn *llai* o nyrsys. Chwyddodd cost biwrocratiaeth y gwasanaeth o £25.7 miliwn yn 1987 i £494.2 miliwn eleni. Elw, nid iechyd y claf, sy'n cyfrif.

Byddai Aneurin Bevan yn troi yn ei fedd.

CWM-Y-GLO

Mrs Iris Williams, Glanrafon, Ffôn: 872275

Adref o'r Ysbyty: Anfonwn ein cofion gan ddymuno gwellhad llwyr a buan i Mrs N. Williams (Anti Nel) Pantafon a Mrs Gwyneth Chick, Rhos y Ffin, ar ôl derbyn triniaethau yn Ysbyty Gwynedd.

Gwellhad: Ni fu Mrs H. M. Roberts, 1 Bryn Gro yn dda yn ddiweddar a bu gyda'i theulu am gyfnod ond erbyn hyn wedi gwella ac wedi dod gartref.

Yr Urdd: Dros yr wythnosau diwethaf bu'r plant canlynol yn brysur iawn yn gwneud modelau a *collage* i gystadlu yng nghystadleuaeth gwaith llaw y Cylch: Karrah, Kim, Carys, Arwyn, Keith, Chris, John, Clair, Ceri, Leigh, Llion a Brendan. Bu *collage* John, Clair a Ceri yn llwyddiannus i fynd i gystadleuaeth y Sir ac yno fe gafodd gwaith John y drydedd wobr a bydd ei waith i'w weld yn yr arddangosfa ar faes Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a dymunwn pob lwc iddo yno.

Nos Lun, 7 Mawrth, aeth yr Adran i Orsaf Dân Caernarfon a chawsom weld a chlywed hanes yr injan dân a'r offer ymladd tân. Mwynhaodd y plant y noson yn fawr iawn. Llawer o ddiolch i Mr Alun Rowlands am ein tywys o gwmpas ac i Anti Avril am drefnu'r noson.

Nos Lun, 21 Mawrth, i gloi y tymor, cafwyd noson o fwynhad a hwyl gyda disgo. Braf iawn oedd cael croesawu Adran Penisarwaun i ymuno hefo ni.

Yr Ysgol Gynradd: Treuliodd Bl. 3, 4, 5 a 6 brynhawn difyr iawn yn Amgueddfa'r Gogledd yn Llanberis. Cawsant gwmni yr arlunydd Linda Parry, darlithydd yng Ngholeg Gwynedd, Bangor. Dan ei chyfarwyddyd hi buont yn efelychu patrymau a lliwiau rhai darluniau arbennig. Yna cawsant gyfle i ddylunio llun neu batrwm ar lechen.

Y tymor hwn bu Louisa Morgan o Goleg Pencraig a Sioned Jones o Ysgol Brynrefail yn treulio bob dydd Gwener gyda ni fel rhan o gwrs a phrofiad gwaith. Bellach daeth yn amser i ni ffarwelio â'r ddyw ohonynt. Pob dymuniad da iddynt a diolch o galon am eu gwasanaeth a'u cyfeillgarwch tra buont yma.

Y mis hwn eto, rydym yn falch o groesawu dwy ferch fach newydd i'r Ysgol. Daeth June a Maria Lockett i fyw i Frynrefail. Gobeithio y byddant yn hapus iawn yn nosbarth y babanod.

Enillwyd Clwb yr Ysgol am fis Chwefror gan Mr Eifion Jones, Glan y Don, Cwm-y-glo. Aeth yr ail wobr i Mrs Mair Huws, Glasgoed, Llanrug.

Cynhelir Sêl Cist Car ar fuarth yr Ysgol ddydd Sadwrn, 9 Ebrill, rhwng 10 a 3 o'r gloch. Yr Ysgol Feithrin sy'n trefnu'r weithgaredd ond bydd gan yr Ysgol Gynradd stondin yno hefyd a gwerthfawrogir unrhyw gyfraniad tuag ati. Bydd paned a bisged ar gael yn y Ganolfan.

GWASANAETHAU MASNACHOL GWYNEDD

YSGOL CWM-Y-GLO

Gwhoddir ceisiadau am y swydd o

CYMHORTHYDD CYFFREDINOL CEGIN (C1)

Oriau gwaith wythnosol (heb gyfrif amser pryd bwyd) 8·75 awr (11.45 a.m. – 2 p.m.)

Cymwysterau a Phrofiad Gwaith o fantais

Ffurflenni cais gan:
GWASANAETHAU MASNACHOL
SWYDDFA'R SIR
CAERNARFON
GWYNEDD LL55 1SH
Ffôn: (0286) 679598
Dyddiad cau: 8.4.94

Adran yr Urdd, Cwm-y-glo, gyda Mr Alun Rowlands yng Ngorsaf Dân Caernarfon.

Y Bistro

43 - 45
Stryd Fawr
LLANBERIS. Ffôn 871278

Rhwng Ynys Môn a Pharis
Does unlle gwell i'w dewis
Am bryd o fwyd, waeth ble y bo,
Na'r Bistro yn Llanberis

DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: 871259

Eisteddfod Gadeiriol Gwaun Gynfi: Gwelsoch yn rhifyn diwethaf yr Eco bod yr Eisteddfod wedi'i chyfyngu i'r Sadwrn olaf yn Hydref am eleni.

Mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith, a gynhaliwyd ar 2 Mawrth, bu hir drafod ar y priodoldeb o symud o'r dyddiad hwnnw o 1995 ymlaen. Ystyriwyd dyddiadau o fis Ionawr i fis Rhagfyr, ond rhag tarfu ar drefniadau nifer fawr o eisteddfodau lleol eraill penderfynwyd yn y diwedd bod 'Steddfod Gwaun Gynfi i'w chynnal am y dyfodol gweladwy, ar y Sadwrn olaf yn Hydref, fel ar hyn o bryd. Nodwch y dyddiad felly yn eich dyddiaduron — tan troad y ganrif!!

Ebeneser a Chefnywaun: Derbyniwyd chwech o bobl ifanc yn aelodau o eglwys Cefnywaun yn ystod yr oedfa a gynhaliwyd yn y capel fore Sul, 6 Mawrth. Y chwech oedd Emyr Gibson, Barry John Thomas, Robin Sutherland, Elena Williams, Gwawr Williams ac Euros Williams. Ac yn ystod yr oedfa a gynhaliwyd yn Ebeneser fore Sul, 20 Mawrth, derbyniwyd y canlynol yn aelodau o eglwys Ebeneser: Sioned Evans, Siôn Wyn Hughes, Idris Parry, Dyfan Siôn, Dewi Williams a Martin Williams. Etholwyd Mr Ifor Glyn Efans yn ddiacon yn eglwys Ebeneser yn ystod yr oedfa nos Sul, 20 Mawrth. Mae'r eglwys yn ei longyfarch ac yn gobeithio y bydd yn derbyn y swydd.

Mae diwedd tymor y Cyfarfod Plant wedi cyrraedd eto, a bydd y plant yn cael seibiant yn ystod y tymor nesaf. Byddwn yn ailddechrau'r cyfarfodydd wythnosol ym mis Medi. Diolch i'r plant am ddod yn gyson ers mis Medi, a diolch i'r rhieni am eu cefnogaeth.

Merched y Wawr Cangen Deiniolen yn dathlu Gŵyl Ddewi yng nghwmni Mr a Mrs Gwilym Vaughan Jones, Bangor.

Merched y Wawr: Cyfarfu'r gangen yn y Caban ar nos Lun, 21 Chwefror, dan lywyddiaeth Beti Wyn Davies. Darllenwyd cofnodion o'r Pwyllgor Rhanbarth. Cafwyd gair gan Eirlys Williams sydd wedi cynrychioli'r gangen ar y Pwyllgor Anabl i egluro am y newidiadau sydd yn cymryd lle gyda'r pwyllgor hwn oherwydd y Ddeddf Elusen. Diolchwyd i Eirlys am ei gwaith canmoladwy ar y pwyllgor hwn dros nifer o flynyddoedd.

Llongyfarchwyd Eirian Jones ar ddod yn nain am yr ail waith y flwyddyn hon.

Y gŵr gwadd yn y cyfarfod oedd Mr Duncan Brown y naturiaethwr o'r Waunfawr a theitl ei sgwrs oedd 'O'r Môr i'r Mynydd' a thrwy y sgwrs a'r sleidiau cafwyd noson addysgiadol a difyr iawn. Diolchwyd iddo gan Megan Morris.

Enillydd y raffl oedd Gladys Jones. Beryl Hughes, Betty Williams a Marian Wyn Williams a gyfrannodd i'r baned.

Cyfarchion o Lundain

Pegi Williams, Green Terrace, Deiniolen gynt, gyda'i mherch Angela. Magwyd Pegi yn eglwys Cefnywaun. Wedi iddi briodi a byw yn Llundain mae'n mynychu eglwys Gymraeg Harrow. Bu ar S4C y llynedd yn deweud ei hanes ers gadael Deiniolen. Mae'n derbyn Eco'r Wyddfa yn gyson.

Cael blas ar wylio Deiniolen

Bu'r gangen yn dathlu Gŵyl Ddewi gyda chinio yng Ngwesty Dolbadarn, Llanberis, ar nos Wener, 11 Mawrth, gyda Mr a Mrs Gwilym Vaughan Jones yn westeion.

Enillwyr Clwb 100 Plaid Cymru. Mis Ionawr — £10: Mrs Megan Morris, Minffordd, Dinorwig; £5: Mrs Margaret Roberts, Crud yr Awel. Mis Chwefror — £10: Mrs Nan Owen, 48 Rhydfadog; £5: Mr Dafydd Morris, Cefn Coch. Mis Mawrth — £10: Miss Margaret Williams, Ael y Bryn Rhiwen; £5: Mr John Jones, 94 Pentre Helen.

Ysgol Gwaun Gynfi: Fe gafodd plant Ysgol Gwaun Gynfi gyngerdd Gŵyl Ddewi Sant yn yr Ysgol ar 1 o Fawrth. Aeth blwyddyn 4, 5, a 6 i'r Coleg Normal i ddysgu am Ganolbarth America ar ddau fore Llun. Daeth Mr Gareth Roberts i siarad efo rhieni Dosbarth Derbyn am bwysigrwydd darllen storïau i blant a chyd-ddarllen efo'u plant. Aeth dosbarth Mrs Hughes i ymweld ag Eglwys Llandinorwig a diolchwn i Mrs Williams a Mrs Roberts am sôn am yr Eglwys. Daeth Mrs Wilcox i'r ysgol i sôn am Gynllun Plannu Coed Tan y Ffynnon, mae blwyddyn 5 a 6 yn cael help i blannu coed yno. Daeth Mr Davies y dyn tynnu lluniau i'r Ysgol. Ar 18 Mawrth roedd yna Ffair Basg. Daeth PC Griffiths i'r Ysgol i siarad â'r plant.

Gohebwyr: URIEN a RHIAN

Diolchiadau:

Dymuna Rene Hughes a theulu y diweddar Rowland Hughes (Lleiniau), 1 Tan y Coed, Woodlands, Conwy, ddatgan eu diolch cywiraf i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad â hwy yn eu profedigaeth. Diolch yn arbennig i Uned Gofal y Galon Ysbyty Llandudno ac i'r Dr Gwynfor Evans am eu gofal. Hefyd i'r Parchg O. J. Roberts am ei gymorth. Diolch hefyd am y rhoddion: derbyniwyd £350 tuag at Ymchwil y Galon.

Dymuna Mrs Eira Wyn Jones, Crud-y-gwynt, Clwt-y-bont, ddiolch yn gynnes iawn i'w theulu a'i chyfeillion oll, am yr anrhegion, y cardiau nifers, yr holl ddymuniadau da, a'r galwadau ffôn a dderbyniodd yn dilyn y ddamwain ffordd a gafodd pan yn trafaelio gartref o'i gwaith yn Ysgol Dyffryn Conwy, Llanrwst, ar 22 Chwefror. Llawer o ddiolch i feddygon a gweinyddesau Wardiau Beuno a Phrysor, Ysbyty Gwynedd am eu gofal tyner. Diolchiadau cynnes hefyd i'r gweinyddesau a'r meddyg teuluol am bob cymorth ar ôl iddi ddod gartref. Diolch i bawb.

Dymuna Wendy a Gwynfor James, 9 Rhes Faenol, ddiolch o galon am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur genedigaeth eu mab, Owain Llŷr.

FINE ART TRADE GUILD

ORIEL PLAS GWYN

Pontrug, Caernarfon

Gwasanaeth Fframio Lluniau o bob math ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau gwreiddiol gan Artistiaid Lleol

Ar ffordd A4086
Caernarfon — Llanberis
Ffôn/ffacs: 0286 672619
Richard S. Humphreys

CYNGERDD MAWREDDOG

YNG NGHAPEL EBENESER DEINIOLEN

NOS SUL, 17 EBRILL 1994
am 7.30 o'r gloch

yng nghwmni:
CÔR ALAWON MENAI
CÔR MEIBION DWYFOR
ANNETTE BRYN PARRI
JOHN EIFION JONES
SIÂN WYN GIBSON
EUROS WYN WILLIAMS
DYLAN EURIG a MIRAIN HAF
GENOD TŶ'R YSGOL

Arweinydd: GWYN PARRI

Tocyn: £2 Plant £1

Elw tuag at Apêl Haematoleg a Chancr Ysbyty Gwynedd, Bangor.

DAU LAW DAN LWYN
(1)
gan Y Gwalch

Weithiau mae rhywun yn cofio am bobl mae rhywun wedi dod ar eu traws nhw ar y ddyrys daith; rhai yn arbennig. Un o'r rheiny oedd Miss Daphne.

Nith y Sgweiar oedd hi o Lundain; un fechan fywiog gwallt du tua ugain oed. Roedd yna gannoedd o genod yn y byd tua'r oedran hwnnw yr adeg honnno. Hi oedd ffefryn y Sgweiar, a oedd yn dechrau mynd ar ei hen sodlau, ac oherwydd ei fod yn ddilinach, roedd gweithwyr y stad yn darogan mai eiddo i'r nith fyddai'r Plas a'i holl amgylchoedd yn y diwedd. Doedden nhw ddim yn edrych ymlaen at y diwrnod, a rheswm da pam: roedd Miss Daphne yn hoff o gael ei ffordd ei hun ac yn dueddol o fynd yn dipyn o gowlad os nad oedd hi yn ei chael hi.

Roedd hyn wrth gwrs cyn dyfodiad y Chwyldro Mawr Sosialaidd. 'Chydig a feddyliem yr adeg honno y buasai eiddo'r hen greadur yn mynd rhwng y cŵn a'r brain, ac y byddai'r Plas ei hun yn hafan i hipis.

Roedd yna aml i wryw yr adeg honno yn ymwybodol o ddisgwyliadau'r eneth ac yn rhedeg a dawnsio tendars iddi a'u tafodau allan. Ond y gwir syfrdanol ydy, mai fi a aeth â'i sylw yn y diwedd, a hynny yn erbyn f'ewyllys. Yn un peth, wnes i erioed ffansio byw yn y Plas. Rhyw hen honglad o le drafftiog oeddwn i yn ei gael o bob amser.

Roeddwn i'n gweithio yn y gerddi yr adeg honno hefo Now Beipan Blwm. Wrth gwrs yr oeddem ar achlysuron yn cael ein galw i weneud dyletswyddau eraill fel curo i'r gynnau ar ddiwrnod saethu.

Achlysur felly ddaeth a fi i gyffyrddiad â Daphne. Daeth McIntosh, y cipar, at Now a fi rhyw ddiwrnod yn yr hydref, yn gawod o ddail crin a spanials, a dweud y byddai ein hangen ar y corsydd y dydd Sadwrn canlynol i 'wasanaethu'r byddigions', chwadal mam.

Roeddwn i i roi fy sylw yn arbennig i ryw fenyw o'r enw Daphne Playfair-Ground. Wyddwn i ddim yr adeg honno ei bod hi wedi dod ag un o'i hedmygwyr i'w chanlyn, ac na fedrai'r un o'r ddau daro tâs wair mewn entri.

Pan ddaeth y diwrnod roedd hi'n eithafol o oer. Roedd dyn y tywydd wedi dweud fod y gwynt yn dod o Seibiria, ac erbyn i ni gyrraedd y corsydd roeddwn yn ei goelio bob gair. Roedd McIntosh yn rhedeg yn ôl a blaen fel beili mewn sasiwn.

Cyn cychwyn cefais fy nghyflwyno i Miss Daphne a'i chydymaith. Rhyw geglyn go faint oedd o, a rhyw osgo arno fel pe bai ei fam wedi eistedd ar glustog a dwy bluen groes ynddo. Ond roedd un peth yn amlwg i bawb heb i neb fynd i'w geg. Roedd o'n ddigon hen i fod yn daid iddi.

Roedd yna ddigon o adar yn codi yn ystod yr helfa, ond ychydig iawn â ddeuai i lawr. Roedd Mr Gordon Pound, y cariad, yn gwastraffu powdwr fel pe bai hwnnw ar gael wrth y casgenaid, ac yr oedd yn taflu ei olygon yn gyson i gyfeiriad ei ddarpar wraig a finna fel pe bai ofn i mi ei llusgo i rhyw lwyn â'i threisio.

Doedd yr eneth ei hun, fodd bynnag, ddim am adael i hynny darfu dim ar ei diddanwch. Bob tro yr oeddem yn dod at rhyw lecyn llaith a lleidiog roedd hi'n neidio ar fy nghefn fel wiwer goed dan chwipio ei breichiau am fy llwnc. Unwaith neidiodd yn glir ar f'ysgwyddau a gwasgu ei chluniau am fy mhen. Roedd hynny, mae'n rhaid i mi gyfaddef, yn cadw'r gwynt oddi wrth fy nghlustiau ond yr oedd yn gyrru iasau eraill i lawr fy nghefn. Yn amlwg roedd hi'n edrych arnaf fel ei chamel preifat ei hun.

Ymhen hir a hwyr cefais gyfle i ddianc oddi wrth y cwmni. Sleifiais i'r coed ac eistedd ar fonyn gan gredu fod gweddill y dydd yn llwyr eiddo i mi. Ond siomiant oedd fy aros: pwy ddaeth i lawr y dreif, gan gicio dail crin, ond y ferch ei hun ac yr oedd hi'n rhy hwyr i guddio.

Pan welodd fi llifeiriodd pob gair a dilorniant a oedd ganddi yn ei geirfa i'm cyfeiriad, a dechreuodd olrhain fy achau ers y goncwest ac ynghynt. Ddwedais i ddim ar y pryd ond roedd gen i gynllun yn ffurfio yn fy mhen i gael gwared â'r jadan.

Wedi inni ailgychwyn, gyda'r bwriad o ddal y criw, arweiniais hi ar gyfyrgoll yn y coed. Gwyddwn fod pwll o ddŵr gerllaw. Neidiodd Daphne ar fy nghefn ond ceisiais ei dymchwel i'r dyfroedd. Ond roedd hithau, mae'n rhaid, yn barod am y fath dric. Daliodd ei gafael nes ein dymchwel ein dau i ganol y mawn a'r dŵr.

Erbyn i mi lwyddo i ddod i'r lan roedd hi'n 'sgrythu yn ei gilydd a'i dannedd yn clecian. Doedd gen i ddim dewis wedyn ond cythru i'w llaw a'i thywys i gyfeiriad ein tŷ ni cyn i ni ein dau rewi yn gorn.

Roedd hi'n un dda am redeg, a chyn pen dim roeddem yn y gegin fyw yn stemio fel dau farch rhyfel. Gwthiais Daphne i'r siambar i gael gwared â'i dillad gwlybion a chefais hyd i rhyw hen grys a chymysgfa o ddilladau eraill iddi roi amdani dros dro. Pan es a dysglaid o ddŵr cynnes iddi, dyna lle roedd hi yn eistedd ar erchwyn y gwely yn tynnu ei sannau ac yn dweud y dylwn fod wedi cnocio cyn dod i mewn.

Roeddwn innau erbyn hynny wedi cael gwared â'm dillad ac wrthi yn gwneud te yn y gegin. Cofiais fod gan mam botel o rum ym mhen draw'r cwpwrdd. Tywalltais ddau wydryn helaeth ac yna clywais yr eneth yn gwaeddi am liain sychu.

'Ar gefn y drws,' meddwn i, ac ar hynny agorodd hwnnw a daeth braich noeth i'r golwg.

'Hwn ydy o?' gofynnodd.

Yn ei llaw roedd yna glamp o geiliog ffesant. Roedd hwnnw hefyd, erbyn i mi gofio, yn crogi o dan fy nghôt ar ddrws y siambar.

O'r diwedd daeth allan a'i lliain yn gylch am ei phen, ac yn y dillad cymysg roedd hi'n edrych fel cymeriad allan o chwedlau Grim.

'O ble daeth y ffesant?' gofynnodd. 'Rwy'n gwybod rŵan pwy ydy'r potsiars 'na mae yncl yn cwyno amdanyn nhw o hyd. Mae'n siŵr ei fod o'n fusnes cynhyrfus iawn. Dywed wrtha i amdano.'

Roedd y rum erbyn hynny wedi treiddio i rannau anghysbell fy nghorff a'm meddwl. Estynnais fy llaw fel ag i wastadhau rhyw bleten ar y lliain bwrdd. Yn ddamweiniol roedd ei llaw hithau ar yr un pryd yn digwydd gwneud yr un peth. Roedd gwynt Seibiria yn dal i chwythu ar draws y rhosdir ac yr oedd y llygad brown yn edrych ym myw y llygad glas.

'Mi faswn i'n hoffi mynd i botsio rhyw noson,' meddai hi. 'Ei di a fi?'

'Y fi — i goed y Plas? Dim peryg. A beth am Mr Gord . . .?'

'dydy o yn dda i ddim,' meddai hithau. 'Mae dy fywyd di yn fwy cynhyrfus o lawer. Mi faswn i'n licio byw 'run fath â chdi.'

Dwi'n siŵr, meddwn innau wrthyf fy hun, gan feddwl am y deg swllt ar hugain hwnnw roeddwn i'n gael gan ei hewythr am wythnos galed o waith.

'Os nad ei di â fi,' meddai, 'mi ddwedaf wrth Yncl.'

'Blacmel mae nhw'n galw peth fel'na rownd ffor' yma,' meddwn.

'Ac yn Llundain,' meddai hithau mwya cŵl. 'Tyrd i'r Parc nos 'fory tua saith. Fyddi di ddim angen dy wn. Mi ddof i a f'un i.'

Cyfnos dawel oedd hi gydag ambell i gwmwl yn llithro dros y lleuad. Roeddwn i wedi sleifio trosodd i'r Parc fel yr oeddwn wedi ei wneud lawer gwaith o'r blaen, ond y tro yma yr oeddwn yn teimlo rhyw noethni heb fy ngwn. Yr oeddwn yn pwyso ar yr ochr dywyll i rhyw dderwen pan glywais rhywun yn chwibanu 'Au clair e la lune', a phwy oedd yn dod i lawr y reid, fel pe tasa hi'n mynd ar hyd y stryd fawr, ond y ferch ei hun a gwn o dan ei chesail, fel petasai hi'n mynd i ymosod ar y Plas ei hun.

Ar ôl cael cropar reit dda o rum a ddygwyd gan Daphne o bantri'r bwtler, a hwnnw yn fflamychu yn fy ngwaed, roeddwn yn ddigon parod i ddringo'r coed i hel y ffesants fel falau Awst, ac i wynebu holl wylltfilod y fforestydd tywyll. Erbyn i ni fynd i ben draw'r reid, roedd yr holl ddicllonedd a fegais yn fy mron tuag at Daphne wedi diflannu fel tarth o flaen yr haul. Ei dymuniad hi oedd fy ngorchmynion i; fel oedd Geraint a hithau'n Eluned.

Ond nid oedd ei meddwl hi ar ramant, a doeddwn innau, wrth lwc, ddim wedi mynd yn rhy hurt i anwybyddu'r rheolau sylfaenol.

(i'w barhau)

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD

BANGOR
354646

DRAENOG

HOLD ON! DEFI JOHN

Pwy tybed oedd y gŵr o Fethel a aeth i ddanfon ei ferch ar y trên ym Mangor a chael ei hun wedi'i gloi i mewn ac yn gorfod teithio i Lanfairfechan cyn medru dod oddi arni!

Lwcus nad oedd y trên yn mynd i Kings Lynn neu Lynmouth. Wrth fynd i'r twnnel clywai lais ei wraig bryderus yn gweiddi: *'My husband's on the train!'* Roedd ei phryder amdano yn galondid mawr iddo yn ei drallod.

GWASANAETH
DEINTYDDOL
O DAN Y GWASANAETH IECHYD
DYLAN THOMAS
B.D.S. (Cymru), DEINTYDD
Y DDEINTYDDFA
39 STRYD Y CAPEL, CAERNARFON
Ffôn: (0286) 672914

GORSAF BETROL
POWER BERAN
DEINIOLEN.
Ffôn: Llanberis 871521
Ar agor 7 a.m. – 9 p.m. bob diwrnod
Petrol ● Disel ● Nwy Calor ● Glo
Cylchgronnau ● Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd ● Wyau
Nwyddau Groser ● Melysion
Cyfle i ennill £10 bob wythnos i bawb sy'n prynu petrol

LLANRUG

Mrs Dyfi Jones, Tyddyn Rhyddallt. Ffôn: C'fon. 76733

Anrhegu Mrs Nansi Lovatt.

Merched y Wawr: I ddathlu dydd ein Nawddsant aeth nifer o aelodau'r gangen am bryd o fwyd i fwyty'r Stones yng Nghaernarfon. Anfonwyd cofion annwyl at Mrs Eileen Thomas, Penisarwaun, wedi iddi dderbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd; a dymunwyd adferiad iechyd i nifer o aelodau na allai ymuno â ni.

Cyflwynodd y Llywydd, Mrs Meryl Green, anrheg i Mrs Nansi Lovatt ar ran y gangen, sef darlun o flodau amryliw wedi'u paentio ar sidan. Gwerthfawrogwyd cyfraniad Mrs Lovatt i'r gangen ar hyd y blynyddoedd. Bu'n Llywydd ac Ysgrifennydd ynghyd â hyfforddi partïon ar gyfer Eisteddfod Merched y Wawr. Y mae Mrs Lovatt yn symud yn ôl i'w gwreiddiau yn Aberystwyth gan mai yno mae ei mab a'i theulu agosaf. Dymunir pob bendith iddi hi ac i'w gŵr, George. Diolchir iddi am ei charedigrwydd a'i hanwyldeb.

Aeth gwborau'r raffl i Bensiarwaun, i Myfanwy a Phyllis. Diolchwyd i Carys a Gwenda am wneud y trefniadau.

Nos Fawrth, 12 Ebrill, ceir sgwrs am droseddwyr ifanc gan Nia Ellis Williams.

Plaid Cymru: Ar nos Wener, Chwefror 25, trefnwyd Twmpath Dawns i ddathlu Gŵyl Ddewi yng Ngwesty Fictoria, Llanberis, gyda aelodau cangen Waunfawr yn ymuno â changen Llanrug. Croesawyd pawb gan Phyllis Ellis, a chyflwynodd y grŵp 'Aderyn Prin' i gyfeilio a rhoi eitemau cerddorol, a Celt Roberts, Talsarnau i alw i'r dawnswyr.

Rhoddwyd gwobrau'r raffl gan Gwyneth Humphreys, Plas Gwyn; Nan Humphreys, Pant Bryngwyn; a Vera Williams, Awelon, a'r enillwyr oedd: Lowri Glyn, Waunfawr; Heulwen Evans, Penisarwaun; ac Ann Ifans, Penisarwaun.

Dymunwn ddiolch i reolwr a staff Gwesty Fictoria, Llanberis, am eu croeso a'u trefniadau trylwyr a sicrhaodd noson arbennig o lwyddiannus.

Dymunwn adferiad llwyr a buan i'r Cynghorydd Emyr Tomos wedi llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Anfonwn ein cofion cynnes at aelodau sy'n wael yn eu cartrefi. Cydymdeimlwn yn gywir iawn â Hefin Jones, Pant Mwyn, yn ei brofedigaeth o golli ei fam yng Nghaernarfon.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Fercher, Ebrill 13, am 7.30 yn y Sefydliad Coffa, pan ddisgwylir Richard Morris Jones, Caernarfon, i roi anerchiad. Edrychwn ymlaen at eich gweld a'ch croesawu ar y noson honno.

Gwellhad buan: Dymunwn adferiad llwyr a buan i Owen Jones, Fferm y Garth, wedi iddo dderbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

Côr Clychau'r Grug: Nos Lun, 21 Mawrth, cyflwynwyd anrheg i Mrs Nansi Lovatt, sefydlydd y Côr bron i ddeunaw mlynedd yn ôl. Y mae Menna, Iona, Olwen, Jean ac Ann yn rhai o aelodau gwreiddiol y Côr ac yn cofio'r dyddiau difyr a hapus a dreuliwyd yng ngofal Mrs Lovatt. Derbyniodd gloch fechan o risial Cymreig i'w hatgoffa o'r 'Clychau' a ysbrydolwyd i ganu ganddi yma yn Llanrug. Dymunir pob hapusrwydd iddi hi a George, ei gŵr, yn Aberystwyth. Diolch Mrs Lovatt a phob bendith.

Yr Ysgol Gynradd: Bu disgyblion Bl. 5 a 6 ar y trên o Fangor i Gaergybi ar 3 Mawrth, fel rhan o thema'r tymor ar 'Teithio'. Cawsant gyfle i astudio'r orsaf a'r porthladd a chael mynd ar y cwch Stena Hibernia yng Nghaergybi. Cafwyd diwrnod hynod amrywiol a diddorol.

Tîm pêl-droed o dan 10 oed Llanrug.

Cyflwynwyd tusw o flodau a'n dymuniadau da i Mrs Howells yn ystod ei habsennoldeb mamolaeth o'r Ysgol a chroesawyd yn ôl Mrs Gwenifer Roberts at Bl. 5. Nid yw Mrs Roberts yn ddieithr i'r Ysgol na'r pentref bellach.

Enillwyr Clwb Cyfeillion am fis Mawrth oedd: 1, Rose Jones, 62 Glanffynnon; 2, Gwyn Williams, Crug Wen; 3, Rhiannon Ann Evans, 24 Nant y Glyn; 4, Mair Williams, Bron Haul; 5, John D. Thomas, Cwellyn, Tan-y-coed. Bydd y rhifau nesaf yn cael eu tynnu ar 11 Ebrill. Yna bydd cyfle i bawb ymaelodi eto am y flwyddyn sydd i ddod. Efallai mai chi fydd yn lwcus y flwyddyn nesaf!

Yr Urdd: Ddydd Sadwrn, 26 Chwefror a 5 Mawrth, cynhaliwyd y ddwy 'Steddfod — Cylch a Sir — a bu'r plant wrthi'n brysur a brwdfrydig yn cystadlu. Cafwyd llwyddiant eto eleni a dychwelodd y darian fawr yn ôl i'r Ysgol am yr ysgol gyda'r marciau uchaf. Da iawn chi blant!

Bydd y canlynol yn mynd ymlaen i'r Eisteddfod Sir — a dymunwn pob lwc i chwi eto — Dawns Greadigol o dan 12 oed; Dawnsio Disgo i Grŵp o dan 12 oed; Dawns Unigol: Elin Dafydd a Zoe Pritchard; Dawnsio Gwerin dan 10 oed; Dawnsio Gwerin dan 12 oed; Dawns Stepio Unigol i Ferched: Siân Green ac Elin; Unawd Llinynnol: Siân Green; Piano: Siân Green; Unawd 8-12 oed: Sioned Wyn Jones; Cân Werin: Sioned Wyn Jones; Parti Cerdd Dant dan 12 oed.

Bore Sadwrn, 3 Mawrth, roedd sêl cist car ar fuarth yr ysgol a'r elw yn mynd i gronfa'r Urdd. Cafwyd bore llewyrchus iawn. Diolch i bawb a gefnogodd. Gwnaed elw o £260.

Bydd dau o ddisgyblion Bl. 6 yn ymddangos ar y teledu yn fuan — Gavin P. Jones yn y ddrama 'Brodyr a Chwiorydd' gan Ffilmiau Bryngwyn; a dewiswyd Jamie Williams gan Gwmni'r Castell i sôn am yr hyn a hoffai ddewis fel gyrfa yn gweithio yn ATS. Edrychwn ymlaen i'w gweld.

Diolch: Dymuna Arwyn a Gwenda Roberts, Hafle, ddiolch i bawb am y cardiau, anrhegion a'r dymuniadau da ar achlysur eu priodas arian ar 1 Mawrth.

Plant yr Urdd a'r darian enfawr.

J.M. JONES
A'I FEIBION
GWAITH CERRIG BEDDAU

Y SGWÂR LLANRUG
Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol
Cerrig o bob math ar gael
Ffôn:
C'fon 672898 (dydd)
C'fon 676285 (nos)

Am eich ANGHENION ADEILADU mawr a bach MASNACHWYR A "D.I.Y." am BRISIAU CYSTADLEUOL dewch at
BRYN
(B & K Williams)



Yr Hen Ysgol
Glanmoelyn
LLANRUG
Ffôn: 677482

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Cyngerdd Gŵyl Ddewi: Trefnwyd noson Cawl a Chân gan Lleisiau Lliwedd i ddathlu Gŵyl Ddewi yn festri Capel Coch, nos lau, 3 Mawrth. Mr John Huw Hughes oedd yn arwain y noson. Cymerwyd rhan gan Lleisiau Lliwedd dan arweiniad Mrs Mattie Hughes a chafwyd unawdau a deuawdau gan aelodau'r parti. Perfformiwyd cân actol gan blant adran bentref yr Urdd. Yr oeddent wedi eu hyfforddi gan Mrs Lisabeth Roberts, Mrs Susan Brookes, Mrs Ann Jones a Mr Brian Williams. Cymerwyd rhan hefyd gan barti canu yr Adran dan arweiniad Mrs Falmai Pritchard. Yr oedd Mr Gareth Jones wedi bod yn hynod o brysur cyn ac yn ystod y cyngerdd gan mai ef oedd yn cyfeilio i'r tri pharti. Mrs Dilys Baylis oedd llywydd y noson a diolchwyd i bawb gan y Parchg John Pritchard. Daeth cynulleidfa dda ynghyd a gwnaed elw o £100 er budd Adran yr Urdd.

Llywydd y Cyngerdd: Mrs Dilys Baylis

Eglwys Sant Peris a Sant Padarn

Y Gymdeithas: Daeth aelodau Cymdeithas yr Eglwys ynghyd i ddathlu Gŵyl ein Nawddsant ar nos lau, 3 Mawrth, yng Ngwesty Dolbadarn. Mwynhawyd pryd o fwyd traddodiadol rhagorol gan yr holl aelodau a hefyd gwmpeini hynaws y gŵr gwadd, y Parchg J. Aelwyn Roberts, cyn-Ficer Llandegai. Cadwodd ddiddordeb yr aelodau i'r eiliad olaf gyda'i hanesion ysbryd cyffrous. Diolchwyd iddo ef, i Mrs Margaret Ellis ac i bawb a gymerodd ran yn y trefniadau ynghyd â Mr Aneurin Jones a'i staff am wneud y noson yn un mor arbennig gan y Parchg Gwynfor Williams.

Undeb y Mamau: Gweinyddwyd y Cymun Bendigaid yn Hafan Elan ar nos Lun, 7 Mawrth, gan y Parchg Peter Richards. Darllenwyd y Llith a'r Ysgrythur gan Mrs E. Taylor a Mrs M. Roberts. Yn dilyn trafodwyd rhai materion gan Mrs E. Taylor. Yn gofalu am y lluniaeth roedd Mrs K. Jones a Mrs M. Latham a diolchwyd iddynt gan Mrs J. Ransom. Rhoddwyd y raffl gan Mrs S. Edwards ac fe'i henillwyd gan Mrs M. Latham. Dymunwyd pob bendith i'r Rheithor a'i deulu wedi iddynt symud i Lanfaethlu ar Ynys Môn. Bydd y cyfarfod nesaf ar 11 Ebrill. Terfynwyd trwy weddi.

Apêl y Tŵr: Ar Sadwrn, 26 Chwefror, aeth criw o oddeutu 30 — yn blant, pobl ifanc ac oedolion — ar daith gerdded o Eglwys Sant Padarn i Eglwys Sant Peris. Er iddi fod yn wythnos o dywydd stormus fe gafwyd diwrnod heulog a sych. Ar gychwyn y daith canwyd cloch yr Eglwys ac wedi cyrraedd Eglwys Sant Peris fe ganwyd y gloch yno a chafwyd gwasanaeth byr o dan ofal Mr Derek Jones. Yn garedig iawn roedd Marie Baylis wedi trefnu lluniaeth ysgafn cyn ein bod yn dychwelyd yn ôl i Lanberis. Trefnydd y daith oedd Mr Ken Jones, Blaen Ddôl ac fe wnaed elw sylweddol at gronfa atgyweirio to yr Eglwys. Diolch i bawb a gymerodd ran a diolch arbennig i bob un o'r noddwyr.

Y Gymdeithas Unedig: Mr John Huw Hughes oedd y siaradwr gwadd yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mawrth. Cafwyd sgwrs ganddo ar ofergoelion o bob math. Penderfynwyd cynnal y swper blynyddol yn festri Capel Coch eleni eto.

Capel Coch: Mae dau dymor o weithgareddau'r Cyfarfod Plant wedi hedfan heibio unwaith eto. Cafwyd cwmni criw da o blant yn y cyfarfodydd ers mis Medi. Nid yw'r cyfarfod yn cael ei gynnal yn ystod tymor yr haf. Mae mis Medi yn edrych yn bell iawn ar hyn o bryd, ond buan iawn y daw hi'n amser i ailddechrau'r cyfarfod bryd hynny. Diolch i'r plant am ddod yn gyson ar bnawn Mawrth a diolch i'r rhieni am bob cymorth.

Cast cân actol adran yr Urdd.

Aeth dau dîm o'r Ysgol Sul i Fangor ar 21 Mawrth i gymryd rhan yn y gystadleuaeth flynyddol i Ysgolion Sul Arfon. Diolch i'r rhieni a ddaeth i ofalu am y timau. Roedd y plant wedi mwynhau'r gemau yn fawr.

Bydd cyfarfod nesaf Cymdeithas Chwiorydd Capel Coch a Rehoboth yn cael ei gynnal yn festri Capel Coch, am 2 o'r gloch ddydd lau, 14 Ebrill. Mae siaradwr y mis diwethaf yn ymddiheuro am fethu cadw ei gyhoeddiad!

Cynhelir y Dosbarth Beiblaidd yn festri gefn Capel Coch am 7 o'r gloch, nos Lun, 18 Ebrill. Mae croeso cynnes i unrhyw un i ddod atom i'r Dosbarth Beiblaidd hwn. Does dim rhaid i chi fod yn aelod o Gapel Coch nag o unrhyw gapel nag eglwys arall o ran hynny.

Noson o Ddramâu: Bydd Cwmni Drama Llanberis yn perfformio dwy gomedi fer, 'Y Ddau Dad' a 'Yr M.O.T.' yn Theatr Gorffwysfa, Llanberis, ar nos Lun, 25 Ebrill am ? o'r gloch. Bydd elw'r noson yn cael ei roi i Adran Llanberis o'r Urdd. Dyma gyfle da i bawb na lwyddodd i weld y dramâu hyn ym mis Chwefror. Mae'n siŵr y bydd yna rai hefyd yn awyddus i'w gweld am yr eildro. Dowch i gefnogi'r Cwmni Drama a chefnogi'r Urdd ar yr un pryd.

Diolch: Dymuna Mrs Mary Jackson, Maes Padarn, ddiolch o galon i Gareth, Elizabeth a Brenda, cymdogion a ffindiau am y llu cardiau, anrhegion a'r blodau a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 80 oed. Diolch o galon i bawb.

Diolch: Dymuna Shane a Nia ddiolch o galon i'w ffrindiau, teulu a chymdogion am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur genedigaeth eu mab bach, Nathan. Diolch yn fawr.

Enillwyr Clwb Ffrindiau Ysgol Dolbadarn am fis Mawrth — £35: Mrs H. Jones, 7 Stryd y Ffynnon (194); £25: Mr W. Roberts, Hyfrydle (141); £15: Mr A. Jones, Gwesty Dolbadarn (73); £10: Mr V. Jones, Maenol, Caernarfon (13); £5: Mrs I. Bearman, 17 Stad Glanrafon, Bontnewydd (92). Diolch am eich cefnogaeth.

Tîm pêl-droed dan 10 oed Llanberis.

Heliwch eich traed am fargen i
SIOP ESGIDIAU GLENS
Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn: 871470

Royal Victoria Hotel
LLANBERIS
Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer Priodasau, Partïon, Dathliadau ac Achlysuron Arbennig
Cyfleusterau Cynhadleddau a Phwyllgorau
Bwydlen Bar a Chinio Dydd Sul
Cwrw Felin Foel
Ffôn: Llanberis 870253

MODURDY
PLAS BACH
CAEATHRO
Ffôn: C'fon 672072
Gwerthu, Trwsio
Trin Cyrff
H.P. ar gael

Cyfarfod Gweddi: Cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi Byd-eang y Chwiorydd yn festri Capel Coch ar ddydd Gwener, 4 Mawrth, dan arweiniad Mrs Maureen Lennon. Cymerwyd rhan gan chwiorydd eglwysi'r pentref a thraddodwyd yr anerchiad gan Mrs Dilys Baylis.

Yr Urdd: Dymuna pwyllgor Adran Bentref yr Urdd ddiolch i'r plant am eu holl waith ar gyfer yr eisteddfod yn ddiweddar. Diolch hefyd i bawb a fu wrthi'n brysur yn hyfforddi'r plant ar gyfer y gân actol a'r parti canu a'r gymnasteg. Diolch am gefnogaeth y rhai a hyfforddodd blant ar gyfer y cystadlaethau unigol, ac i bawb a wnaeth y gwisgoedd ar gyfer y gân actol, ac a fu'n helpu efo'r gwaith celf a chrefft.

Wedi prysurdeb yr eisteddfod cynhaliwyd dau sesiwn o gemau yn y cyfarfodydd wythnosol, a chafodd y plant iau wneud cerdyn Pasg yn y cyfarfod olaf cyn y gwyliau. Diolch hefyd i bawb a fu'n helpu yn y cyfarfodydd wythnosol arferol.

Gemma Chong a Katherine Pike, enillwyr cystadleuaeth gymnasteg dan 12 oed i barau. Pob hwyl i'r ddwy yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Nolgellau.

Ysgol Dolbadarn: Dymuna Mrs Lisabeth Roberts, y brifathrawes, ddiolch o galon i bawb a gefnogodd y bore coffi a gynhaliwyd yn y Bistro gan Gyfeillion yr Ysgol yn ddiweddar. Gwnaed elw o £74 er budd yr Ysgol. Cynhaliwyd prynhawn agored i'r rhieni gael gweld gwaith eu plant cyn diwedd y tymor.

Erbyn hyn cyrhaeddodd y llyfrau a archebwyd gyda'r tocynnau W. H. Smith a gasglwyd gan y plant. Rydym hefyd wedi archebu llyfrau efo'r tocynnau Birds Eye a gasglwyd. Diolch am bob help efo'r casglu.

Bu'r Nyrs Beti Parry yn siarad am gadw'n iach efo plant dosbarth Mrs Brookes yn ystod wythnos ola'r tymor. A'r wythnos honno hefyd treuliodd uned ffilmio Gwasg Prifysgol Rhydychen ddiwrnod yn yr Ysgol. Mae'r Wasg yn gwneud rhaglen fideo ar ddysgu Saesneg fel ail iaith, a bu'r uned yn ffilmio un o ddosbarthiadau'r Ysgol wrth ei waith. Bydd y rhaglen fideo yn cael ei defnyddio mewn gwledydd tramor gan y Wasg. Bydd raid aros i weld a gaiff y ffilm ei henwebu ar gyfer yr Oscars y flwyddyn nesaf!

Diolch am eich cefnogaeth i'r Ysgol drwy'r tymor, a dymunwn Basg dedwydd i bawb ohonoch.

Parti canu Adran Llanberis fu'n cystadlu yn Eisteddfod Gylch yr Urdd.

Ysgol Feithrin Llanberis yn 21 oed

Plant yr Ysgol Feithrin gyda Martyn Geraint.

Yr Ysgol Feithrin: Roedd Dydd Gŵyl Ddewi yn ddiwrnod arbennig iawn i blant Ysgol Feithrin Llanberis eleni. Mae 21 mlynedd ers sefydlu'r Ysgol Feithrin yn y pentref, a threfnwyd parti i'r plant yn festri Capel Coch i ddathlu'r achlysur. Roedd yr hogiau wedi eu gwisgo fel chwarelwyr a'r genod mewn gwisg draddodiadol Gymreig yn y parti. Cyflwynwyd plât arbennig ag arno sumbol y Mudiad Ysgolion Meithrin iddynt i gofio'r dathlu. Roedd y plât wedi ei gynllunio gan Emlyn Baylis, cwmni Clôn, Llanberis. Cafodd plant 'lawr grisiau' Ysgol Dolbadarn ymuno â hwy ar gyfer cyngerdd bach yng nghwmni Martyn Geraint o'r rhaglen deledu 'Slot Meithrin'. Mwynhaodd y plant y canu yn fawr.

Cychwynwyd Ysgol Feithrin Llanberis gan y ddiweddar Mrs Ann Owen, gyda Mrs Sheila Roberts a Mrs Eifiona Harris yn ei chynorthwyo. Ar y pryd cynhaliwyd yr ysgol yn y Ganolfan. Dros y blynyddoedd bu amryw eraill ynglŷn â'r gwaith o arwain a gofalu am y plant bach. Cafodd yr athrawes bresennol, Mrs Catherine Williams, ei hapwyntio ddeuddeng mlynedd yn ôl, ac erbyn hyn mae Mrs Jan Vaughan wedi bod yn ei chynorthwyo ers wyth mlynedd. Mae'r gwaith ynghlwm wrth y Mudiad Ysgolion Meithrin wrth gwrs, a'r ddwy athrawes wedi derbyn hyfforddiant a chefnogaeth y Mudiad hwnnw. Ac erbyn hyn mae Anti Catherine ac Anti Jan wedi cael cwmni ugeiniau o blant yn yr ysgol dros y blynyddoedd.

Chwe mlynedd yn ôl daeth cyfle i'r Ysgol Feithrin symud i stafell wag yn Ysgol Dolbadarn, ac yno y mae o hyd. O fod yno, mae'r plant wedi hen arfer â'r adeilad a staff a phlant yr ysgol erbyn daw'r amser iddynt fynd i'r 'ysgol fawr' eu hunain. Mae'r Ysgol Feithrin yn agored o ddydd llun tan ddydd Iau. Daw'r plant iau yno am ddau bnawn a'r plant hŷn am bedwar bore. Dymuniadau gorau i'r Ysgol am flynyddoedd eto i ddod.

Anti Jan ac Anti Catherine yn barod am y parti dathlu.

GWÊL Y LLYN

Lake View Hotel

LLANBERIS

870422

Prydau Arbennig ar gyfer partïon

Byddai perchnogion a staff y gwesty yn falch o'ch croesawu ar gyfer dathliadau o bob math.

Aled Jones

Peiriannydd Gwres Canolog a Plymio

4 Bryn Eglwys

PENISARWAUN

Ffôn Llanberis

871047

Cwmni TARIAN Cyf.

Yswiriant Car neu Yswriant Tŷ

Gadewch i ni Roi pris i chi.

TARIAN

6 Stryd Bangor, Caernarfon

Ffôn: (0286) 677787

Wavell Roberts

CIGYDD

London House

LLANRUG

Ffôn: C'fon 673574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus

Selsig cartref, cigoedd parod i'w bwyta

Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU

DEWCH ATOM NI!

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: Felinheli 670726

Llongyfarchiadau i Angharad Price, Tan y Ffordd ar ennill dwy ysgoloriaeth yn ddiweddar. Bydd Angharad yn treulio chwe mis yn Fiena, ar ôl ei arholiadau gradd yn Mehefin, yn astudio gwaith tri bardd drwy Ysgoloriaeth Goffa Saunders Lewis. Angharad yw enillydd cyntaf yr ysgoloriaeth. Mae Angharad hefyd wedi cael Ysgoloriaeth leithoedd Modern Prifysgol Rhydychen.

Yr Urdd: Bellach mae gweithgareddau wythnosol y gangen wedi dod i ben gydag ymweliad â'r Ganolfan Hamdden yng Nghaernarfon. Aeth llond bws o blant, ynghyd â rhai rhieni, i fwynhau noson o chwaraeon yno. Hoffai'r pwyllgor ddiolch i'r rhieni am eu cymorth.

Cystadleuaeth Pêl-rwyd: Bu i dîm pêl-rwyd cangen yr Urdd lwyddo i ddod yn ail yng nghystadleuaeth pêl-rwyd o dan 15 oed, rhanbarth Eryri yr Urdd, a gynhaliwyd yn Ysgol Eithinog, Bangor, yn ddiweddar. Roedd pum tîm yn cystadlu, ac er i Bethel ennill eu gemau yn erbyn Llanrwst, 11-0; Llithfaeth 5-0; Chwilog 5-0; a chael gêm gyfartal 3-3 yn erbyn Penrhosgarnedd, collodd y tîm ar wahaniaeth goliau i Benrhosgarnedd. Aelodau'r tîm oedd Anest Williams, Bethan Williams, Fiona Lambrecht, Eleri Robinson, Nia Jones, Ellen Jones a Llinos Williams.

Eisteddfod yr Urdd — Meirionnydd: Bydd y gangen leol yn cael eu cynrychioli gan dair o gystadlaethau yn y Genedlaethol, sef grŵp llefaru dan 15 oed; grŵp dawnsio disgo dan 15 oed; a Dewi Griffiths, unawd pres. Ar y dydd Mercher, 1 Mehefin, cynhelir y tair cystadleuaeth ac os oes rhywun â diddordeb i ddod ar y bws cysylltwch â Miriam Thomas neu Glenys Griffiths. Bydd lle i tua 20 o bobl.

Merched y Wawr: Cyfarfu'r gangen leol i ddathlu Gŵyl Ddewi yn yr ysgol gyda lluniaeth ysgafn wedi ei baratoi gan y pwyllgor. Cyfeiriodd Eirlys Williams, y llywydd, at lwyddiant plant yr aelodau yn Eisteddfodau'r Urdd. Llongyfarchwyd Alys Jones ar gyhoeddi llyfr arall ac hefyd i'w merch, Non, ar ennill ysgoloriaeth i Brifysgol Aberystwyth; i Rhian, merch Delyth Williams, ar ennill nifer o wobrau mewn cystadleuaeth llefaru yng Nghaer; i Garry, mab Carys Williams ar ennill ras. Cafwyd orig ddifyr ar lafar ac ar gân yng nghwmni tair o ferched talentog Pen Llŷn, sef Nia, Medwen a Gwenda, Llwyndyrus. Diolchwyd iddynt ar ran y gangen gan Glenys Griffiths. Bydd y cyfarfod nesaf ar 13 Ebrill yng nghwmni Gwenan Roberts.

Snwcer: Mae aelodau Clwb Snwcer Bethel wedi bod wrthi'n ddygn yn ymarfer o dan arweiniad eu capten, Idris Rees. Yn ddiweddar cymerasant ran yng nghystadleuaeth Adran B, Cynghrair Bangor a'r Cylch a llwyddo i ennill y gwpan a hynny am y tro cyntaf erioed. Bydd seremoni cyflwyno'r gwpan yn cymryd lle ym mis Mai yng Nghlwb Pêl-droed Caernarfon. Aelodau y tîm buddugol oedd David Jones, Ian Roberts, Emlyn Thomas, Mark Jones, Paul Williams, Barry Thomas a'r capten, Idris Rees.

Y Gymdeithas Lenyddol: Daeth y tymor i ben gyda chinio Gŵyl Ddewi yn Nhŷ Golchi. Cafwyd noson ddifyr iawn yng nghwmni y gŵr gwadd Twm Elias. Diolchwyd i'r gŵr gwadd gan y llywydd, Mr Glyn Roberts. Diolch yn fawr i'r swyddogion a'r pwyllgor am drefnu tymor difyr iawn ar ein cyfer.

Clwb 300 y Neuadd: Enillwyr gwobrau am fis Chwefror oedd — £20: Mrs Kathleen Bell, Tŷ Newydd (220); £10: Mr Gerwyn Jones, Eithinog (144); £5 yr un: Mrs Jean Hughes, Nefyn (166); Manon Gwynedd, Cadnant (214); Miss Emma Bardsley, Windy Corner (3); Mrs Gwyneth Williams, Llain-yr-ardd (65); Barry a Catrin Evans, Swyn Eryri (63); Gareth Jones, Llys Elen (224); Mrs June Jones, 5 Bro Rhos (186); Mrs Freda Jones, 3 Rhos-lan (151).

Clwb 100 yr Ysgol: Enillwyr gwobrau am fis Mawrth oedd — £20: Ceris W. Williams, 1 Tan y Cae (95); £15: John Jones, 10 Trem y Foel, Y Felinheli (15); £10: David a Maureen Robers, Aden, Pontrug (108); £5: Valerie A. Owen, 10 Rhos-lan (52); £3: Ann Salisbury, 3 Tan-y-buarth (75). Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Gwasanaethau Y Cysegr am fis Ebrill (10 a.m. a 5.30 p.m. gyda'r Ysgol Sul am 10 a.m.):

3: Gwasanaethau
10: Parchg Elwyn Edwards
17: Parchg Glyndwr Williams
24: Parchg W. R. Williams.

Pe bai ysgrifenyddion cyhoeddiadau yr eglwysi eraill yn cysylltu â'r gohebydd fe ellid cynnwys gwybodaeth am eu gwasanaethau hwythau yn y rhifynnau nesaf.

Chwaraeon Ysgolion Sul Arfon: Daeth timau fu'n cynrychioli Ysgolion Sul Bethel i'r brig yn y cystadlaethau pêl-droed a 5-bob-ochr, a gynhaliwyd yn Neuadd Chwaraeon Coleg y Brifysgol Bangor, ar 21 a 22 Mawrth.

Nos Lun yn y cystadlaethau 5-bob-ochr o dan 11 oed tîm A Bethel ddaeth yn fuddugol. Yn y gêm derfynol cafodd tîm Bethel un gôl i ddim yn erbyn Llanrug ac yn y gêm gyn-derfynol roedd tîm A Bethel yn erbyn tîm B Bethel a 3-1 oedd y sgôr.

Llongyfarchiadau mawr i'r ddau dîm a dymuniadau gorau i dîm A yn y rownd nesaf.

Aelodau'r timau oedd — tîm A: Ifan Rowlands, Aled Vaughan, Owain Sion, Aled Hefin, Mark Williams a Iolo Ellis.

Tîm B: Jonathan Jones, Alun Gaffey, Llion Thomas, Dylan Hughes, Paul Thomas a Gethin Jones.

Nos Fawrth tîm Bethel ddaeth yn fuddugol yn y gemau pêl-rwyd o dan 11 oed a byddant hwythau yn awr yn mynd ymlaen i'r rowndiau nesaf.

Aelodau'r tîm oedd: Nia Thomas, Gwenan Michael, Jennifer Jones, Bethan Mair Jones, Gwenan Jones, Jemma Robinson a Kelly Williams.

Yr Ysgol Gynradd: Ar ddydd Gŵyl Ddewi cynhaliodd Clwb Bro Bethel eu cyfarfod yng nghwmni plant yr Ysgol. Perfformiodd holl blant yr Ysgol yn eu tro eitemau i'r henoed. Paratowyd te blasus wedyn a'i weini gan blant blwyddyn 5 a 6.

Ddydd Mawrth 22 o'r mis bu 12 o ddisgyblion Bl. 6 yng Nghelli Gyffwrdd drwy'r pnawn yn ffilmio yng nghwmni Garmon Emyr a thîm Dime Goch. Darlledir campau'r plant yn ystod rhaglen y plant Uned 5 ar S4C pnawn dydd Iau, 31 Mawrth.

Diolchiadau

Dymuna Lliwen, Wenallt, ddiolch o galon i deulu a chyfeillion am eu dymuniadau da, cardiau ac anrhegion ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 18 oed.

Dymuna Mrs Elizabeth Evans, Blaen Parc ddiolch i staff Ysbyty Dewi Sant, Bangor, am eu gofal caredig ohoni yn ddiweddar. Diolch hefyd i'w theulu, cymdogion, ffrindiau, a'i chydweithwyr yn Ysbyty Eryri, Caernarfon, am eu caredigrwydd mawr.

GARTH MAELOG
PET CENTRE AND GROOMING SALON
Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dwr oer
Offer pysgota

Molchi, cribo a chlipio
cwn a chathod
o bob math
gan arbenigwr
STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277

Am groeso cartrefol Cymreig bob amser
Aneuryn a Jeanette Jones a'r staff

E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis
Ffôn: 870202 a 870272
TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

AM FFENESTRI, DRYSAU A STAFELLOEDD
HAUL UPVC, PREN CALED AC ALWMINIWM
FFENESTRI CELTAIDD
(CELTIC WINDOWS)
2 TAN Y BRYN, BETHEL
NHBC
★ Gwydro Dwbl a Sengl
★ Gwaith Domestig a Chontract
★ Gwarant 10 mlynedd
★ Amcangyfrif prisiau yn rhad ac am ddim

CYMHARWCH EIN PRISIAU
CYSTADLEUOL NI CYN PRYNU!
FFONIWCH (0286) 671181 NEU (0831) 326160

'Anti Ani' a'r teulu tu allan i Tŷ Newydd, ei chartref am yr 80 mlynedd.

Dathlu Pen-blwydd yn 80 oed: Yn ddiweddar cyrhaeddodd un o 'gymeriadau' Bethel garreg filltir nodedig drwy ddathlu ei phen-blwydd yn 80 oed. Mae Annie Elisabeth Williams erbyn hyn yn un o drigolion hynaf y pentref — ond mor fywiog ag erioed. I ddathlu'r achlysur trefnwyd noson hwyliog iawn yn y Gors Bach, Llanddeiniolen. Yn fwriadol ni wyddai Mrs Williams ddim am y trefniadau, ac yr oedd gweld ei hwyneb pan gerddodd i mewn yn wir bictiwr. Yn wir mae'n dal yn ddirgelwch i'r pentrefwyr sut y gallodd Gwilym Hefin, ei mab distaw, gadw'r gyfrinach cyhyd. Yr oedd y teulu wedi paratoi yn drylwyr a'r wyresau wrth eu bodd yn gweini er mwyn sicrhau noson gofiadwy i 'nain'. Yr oedd y gymysgedd barablus o hen ac ifanc yr ardal yn creu awyrgylch hyfryd iawn. Roedd Mrs Williams wrth ei bodd yn cymdeithasu a hel atgofion. Roedd ambell un yno oedd yn yr un dosbarth â hi yn Ysgol Bethel. Roedd yn braf clywed y criw yma yn trefnu rhyw aduniad arall — mewn rhyw 20 mlynedd. Yr oedd canu bywiog Dylan yn cadw'r noson mewn hwyliau da.

Hoffai Mrs Williams fanteisio ar y cyfle i ddiolch i'w theulu agos a'i llu o ffrindiau am eu cymwynas parod yn trefnu'r noson ac am y llu cardiau ag anrhegion.

'Wn i ddim os oedd yna sawl 'Ben-maen-mawr' y bore canlynol ond yn sicr cafodd Mrs Williams a phawb oedd yn bresennol noson i'w chofio.

Gyda llaw roeddwn i'n meddwl fod pobl yn arafu tipyn wrth heneiddio — sgersli bilîf — yr oedd Mrs Williams a Buddug ar eu trafael wedyn ar y bore Sadwrn. 'Wn i ddim os oes gwir yn y si fod y ddwy am gyhoeddi llyfr: *Gweld Gwynedd o Fws Crosville!* Yn sicr byddai llawer stori reit ddiddorol mewn llyfr o'r fath. Pen-blwydd hapus Annie Elisabeth, a llawer ohonynt.

Dathlu'r Ŵyl yn Eisteddfota!: I ddathlu Gŵyl Ddewi eleni cynhaliwyd Ffug Eisteddfod lwyddiannus yng Nghapel Siloam, Y Bontnewydd. Yr oedd tri thîm yn ymgiprys am y lawryfon, sef y tair Gymdeithas Lenyddol yng ngofalaeth y Parchg W. R. Williams, sef Y Felinheli, Cysegr a'r Bontnewydd.

Er gwaetha'r teitl nid rhyw sioe ffwrdd â hi oedd hon. Cafwyd cadeirio urddasol a dawns flodau gwir rhythmig ac fe ddaeth yr Archdderwydd Geraint ag urddas anhygoel i'r brif seremoni (piti am y 'ladyrs' yn y neilons!).

Cafwyd gwrthdystio o safon — yn amlwg roedd arbenigwyr ar y gamp yno! Cafwyd datganiadau clodwiw gan y gwahanol fandiau cegin, partïon cydadrodd a'r corau a chafwyd beirniadu hollol di-duedd (a llawer di-arall!) gan Gareth Maelor. Er iddo fod yn darged geiriol a difrïol gan y cystadleuwyr gwelodd ddiwedd y noson yn ddi-anaf! Clywyd un bygythiad yn hollol glir — 'Watcha di nes doi di i'n capal ni!' — torri cyhoeddiad tybed?

Bu yn noson hwyliog iawn gyda llawer o ddiolch i griw Bontnewydd am y croeso a'r lluniaeth hael. Y flwyddyn nesaf cynhelir yr Eisteddfod ym Methel ac mae si fod yr ymarferion wedi cychwyn eisoes. Yn anffodus bu rhaid i'r beirniad ddiflannu ar fyr rybudd dan fygythiad ar ddiwedd y noson. Ni chafwyd felly y marciau terfynol. Pawb yn gyfartal, felly chwedl brawd yr Archdderyn!

I Fethel y daeth y Goron (a'r gadair i eistedd ynddi), wrth i Dafydd Williams, bardd ifanc sydd â dyfodol disglair iddo, gyflawni y gamp orchestol o gyfrannu diweddglo i'r limrig isod:

Pan alwodd Sam Tân ym Modaden
Roedd gwreic.ion yn cochi'r ffurfafen;
Ac meddai'r rhen lol
'Ti Geraint a'th lol,
Bydd Collwyn a'i lais ar bob rhaglen.'

Band Cegin Bethel yn taro y cywair cywir!

CARPEDI GLÂN
Mynnwch driniaeth
STIMVAK
gyda'r offer mwyaf modern, diweddaraf, sydd ar gael. Am fanylion cysylltwch â
TEGID PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR 650291
hefyd ail-osod carpedi

Am Wasanaeth Fframio Lluniau Tystysgrifau Tapestri
am brisiau rhesymol
ELWYN PRITCHARD
Parc Padarn, Llanberis
Ar agor Llun – Sadwrn
10.00 – 4.30
Ffôn: Llanberis 870922

OSMOND SHAW DEINIOLEN
GWERTHU – TRWSIO
★ Teledu
★ Fideo
★ Offer Trydan
Gwasanaeth
Ffôn 24 awr
LLANBERIS 870545

Gwynedd Hotel & Restaurant
Llanberis 870203
Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau bedydd, pen-blwydd a phob achlysur arbennig arall.
Gallwn drefnu adloniant - disgo a.y.y.b.
Bwydlen Bar a Restaurant
Cinio Dydd Sul

GWYNETH ROBERTS
84 Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: 870491
PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION
Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati
Peis, Rholiau Sosej
Pasteiod, Teisennau Hufen
Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati
BECWS ERYRI
Stryd Fawr, Llanberis 870491

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR
Ar Agor
9-7pm
9-5pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher
Dewis eang o Welyau Sengl a Dwbl.
Dewis eang o '3 Piece Suites'.
Lleni 'Venetian' a Llenni 'Roler'
Gwaith Contract.
5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc – allwch chi fforddio prynu o batrymau?
WAUNFAWR 650291

BRYNREFAIL

Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

Croeso: Estynnwn groeso i Paul a Mair Lockett a'u plant June, Maria, Alan a Robert, sydd wedi ymgartrefu yn 1 Trem Eilian.

Priodas Rhuddem: Llongyfarchiadau i Glyn a Betty Owen, Tros yr Afon, ar ddathlu eu priodas rhuddem ar 6 Mawrth. Dymuna'r ddau ddiolch yn gynnes am yr anrhegion, blodau a'r cardiau dderbyniwyd ar yr achlysur.

Profedigaeth: Ddydd Gwener, 11 Mawrth, bu farw Mr Dennis Milton Jones, 11 Trem Eilian, yn Ysbyty Bryn Seiont, yn 72 mlwydd oed, wedi cystudd a ddioddefodd yn ddewr. Bu'r angladd ar 15 Mawrth yn Eglwys Santes Helen, Penisarwaun, ac yn dilyn yn y fynwent. Derbyniwyd rhoddion er cof tuag at Ward Macmillan, Ysbyty Bryn Seiont. Cydymdeimlir yn ddwys â'r plant, Helen, Priscilla, Wilfred, Brenda, Brian a'u teuluoedd ynghyd a'i frawd, Mr Malcolm Jones, 'Rallt, yn eu profedigaeth.

Sefydliad y Merched: Cynhaliwyd cyfarfod mis Mawrth yn y Festri ar nos Lun, 21 Mawrth, dan lywyddiaeth Mrs Pat Jones. Wedi darllen llythyr y mis, llongyfarchwyd Mrs Eirlys Williams am ddod yn nain unwaith eto. Cynhelir cyfarfod o Cyngor Gwanwyn Sefydliad y Merched ym Methesda ar 28 Ebrill a bydd nifer o'r aelodau yn cynrychioli'r gangen yn y cyfarfod. Gwraig wadd y noson oedd Mrs Esme Dyson a oedd yn arddangos a thrafod gemau hen ffasiwn. Paratowyd y baned gan Mrs J. A. Roberts a Mrs J. Hughes ac enillwyd gwobr y mis, rhoddedig gan Mrs Betty Owen, gan Mrs Mai Davies. Bydd y cyfarfod nesaf ar 18 Ebrill.

Cymdeithas y Chwiorydd Brynrefail M.C.: Bydd tymor newydd y Gymdeithas am 1994 yn agor nos lau, 7 Ebrill am 7 o'r gloch yn y Festri. Y wraig wadd am y noson fydd Mrs Nansi Jones, Llanberis.

Priodas Aur
Mr a Mrs Gwilym Hughes (Wil a Jennie), Bryn Parc, Brynrefail. Priodwyd yn Eglwys M.C. Brynrefail, Ebrill 8, 1944. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r ddeuddyn ar eu Priodas Aur.

NANT PERIS

Elwyn Searell Jones, Dwyfor
Ffôn: 870440

Cymdeithas y Chwiorydd: Cynhelir cyfarfod nesaf Cymdeithas Chwiorydd Capel Coch a Rehoboth yn festri Capel Coch, am 2 o'r gloch, ddydd lau, 14 Ebrill.

Michael Owen (Cadeirydd) a Stanley Morgan (Trysorydd) yn cyflwyno siec i gynrychiolwyr Cronfa Nyrsus y Pedwar Plwyf ar ran Pwyllgor Rasus Cŵn Defaid Nant Peris.

Dymuno'n dda: Estynnwn ein dymuniadau gorau i Alan Pritchard, Llys Awel, sydd mewn ysbyty yn Llundain ar hyn o bryd. Gobeithio y byddi'n cryfhau yn fuan, Alan, ac y gwelwn di gartref yn ystod gwyliau'r Pasg.

Cyfarfod Gweddi: Cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi Byd-eang y Chwiorydd yng Nghapel Rehoboth, bnawn Gwener, 4 Mawrth. Yr oedd rhai o chwiorydd Rehoboth ac Eglwys Sant Peris yn cymryd rhan.

John Closs yn derbyn sieciau ar ran nyrsus Llanberis.

Am bob math o
WYDR wedi'i
DORRI, DDANFON NEU EI OSOD.
cysylltwch â
Barrys GLASS

Camelot,
PENISARWAUN
Ffôn: Llanberis 871144

Cefnogwch Fusnesau Lleol

CEIR CYMRU
BETHEL (0248) 670451
(Hefyd yng Ngherrig-y-drudion a'r Gaerwen, Môn)

A ydych yn ystyried newid eich car o fewn y flwyddyn nesaf? Ystyriwch y ffeithiau hyn:

1. Mae tri-chwarter y ceir newydd a gaiff eu gwerthu ym Mhrydain yn colli rhwng 25% a 30% o'u gwerth erbyn eu bod yn naw mis oed.
2. Mae cwmnïau mawr a chwmnïau lesio a llogi yn derbyn oddeutu 25% o ddisgownt wrth brynu eu ceir ac felly mae'r cerbydau hyn yn dod ar y farchnad am brisiau isel ac fel arfer mewn cyflwr rhagorol wedi cael eu cynnal a'u cadw heb ystyried costau.
3. Mae gennym brofiad o 40 mlynedd yn prynu a gwerthu ceir ail-law ac rydym, ar gyfartaledd, yn trafaelio mil o filltiroedd bob wythnos yn chwilio am y bargeinion gorau er mwyn eu cynnig i bobl Gwynedd ar elw sydd fel arfer o gwmpas 5% o'r pris.

Geni ♥ Bedyddio ♥ Iôed ♥ Priodas ♥
Achlysur arbennig?
Anrheg unigryw?
Beth am un o sampleri
PWYTHAU CAIN
Cynllunir pob sampler yn ôl dymuniad ac anghenion yr unigolyn.
Hefyd gwniadwaith o bob math gwneud dillad, newidiadau, llenni, a.y.y.b.
Cysylltwch â
MARY ELLIOTT
Llanberis 872438
Cartref Newydd ♥ Darnau o Farddoniaeth
Dymuniadau ♥ Atgofion ♥ Llwyddiant ♥ Ymddeoliad
Diwrnodau ♥ Graddio ♥ Anrhydedd ♥ Dyrchafiad

W.J.GRIFFITH
PLYMAR A GOSODWR GWRES CANOLOG
Pant Tirion, Llanrug
Ffôn: Caernarfon 673248
Gosodwyr Nwy Cofrestredig Corgi
CORGI GAS IN SAFE HANDS
Aelod o'r *Association of Mechanical Services Contractors*
Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...

BYSIAU ARFON
LLANRUG
(Eric Morris)
Ffôn: Caernarfon 675175 a 677858

Y STORFA LLANRUG
(Richard a Meirwen Williams)
Ffôn: C'fon 672790
Ar agor bob dydd o'r wythnos at eich gwasanaeth
Nid oes unrhyw dâl am ddanfon archeb i'ch cartref yn ardal Llanrug

CROESAIR EBRILL



AR DRAWS

1. Y Sais yn cael smôc wrth ochr boncyff, ac yn achosi fflamau (6)
4. Mae'r ateb yn daclus yn nhric y mentrus (5)
8. Yr hyn oedd ar bob un o draed y cŵn bach (5)
9. Cam o roi un a deg yng nghoflaid y ferch (7)
10. Mynegiant a ddaw o gymryd dechrau'r dechrau oddi ar y dramodydd (7)
11. Dychryn o weld budreddi o gwmpas canol y borfa (4)
12. Yr hyn a wna priodas (3)
14. Dyhead a ddaw o Storïau'r Henllys Fawr, W. J. Griffith (4)
15. Offeryn gymnasteg melyn sydd bron yn bedair oed (4)
18. Nifer yr afonydd yn Rhos-lan (3)
21. Meudwy neu enciliwr (4)
23. Daw llawer o'r dinasoedd Fenis ac Ur (7)
25. Mae'n llawn dagrau o sylweddoli fod rhywun yn cael hwyl o fusnes drwy ei lythyrau cariad (7)
26. 'Tyrd, Ysbryd Sanctaidd, -----'r ffordd' WW (5)
27. Merch ddwl o Sweden? (5)
28. Aeron neu rawn y rhosyn gwyllt (6)

I LAWR

1. Chwip fferyllwyr wedi colli eu llythrennau olaf? (6)
2. Llefarydd un o Wynedd yn difyrru? (7)
3. Y weithred o gwtogi gair (8)
4. Cawell baban (4)
5. Y ffordd i deithio'n ôl o Charnock Richard i Emsworth? (5)
6. O dan y gwely wrth ben y lolfa (6)
7. Pa Urdd sy'n baeddu Siôn Corn? (5)
13. Mae diffyg gwres mewn gorfoledd pan newidir dechrau ddoe am ddechrau echdoe! (8)
166. Fe arferai Gari Tryfan ddod o'r fan yma (2,5)
17. A'i aelodau o Eglwys Rufain a welir mewn cors? (6)
19. Gwahanu oddi wrth wifren y ddaear (5)
20. Hen wely heb fod yn drwm . . . (6)
22. a hen gybydd heb feddalu (5)
24. Y Goch, Y Wen, Y Ddu, a phob un yn Arfon (4)

CROESAIR MAWRTH

Ymgais **Nan Elis, Hafryn, Llwyn Hudol, Pwllheli,** ddaeth allan o'r het oedd yn cynnwys atebion cywir croesair mis Mawrth. I ddweud y gwir doedd dim angen het gan fod pob un, ag eithrio pedwar o'r atebion a dderbyniais yn anghywir. Byddai cap tylwyth teg wedi gwneud yn iawn!!

O blith cystadleuwyr selog Llŷn y daw'r buddugol, ynghyd â dau arall o'r rhai cywir — daw y llall o Rhuthun.

Llongyfarchiadau i Nan ac i'r tri arall. Daw £5 drwy'r post yn fuan. Ymysg y rhai na welodd yr het o gwbl roedd un, a bostiwyd yng Nghaernarfon, yn ddi-enw ac un arall heb ei orffen!! Chwara' teg i bawb!!

Gobeithiaf y daw hwn, eto, a llawer o bleser i chi. Yr atebion, os gwelwch yn dda, i Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, Caernarfon, **erbyn 25 Ebrill.**

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

Linda Morris

GWASANAETH TRIN GWALLT YN EICH CARTREF

1 BRYN FEDWEN, FFORDD YR ORSAF

LLANRUG. Ffôn: 678857

Dyddiadur y Mis

MIS EBRILL

1. Gwener **DINORWIG:** Gorymdaith y Groglith. Cychwyn o'r Ganolfan am 2 o'r gloch.

8. Gwener **LLANBERIS:** 'Bore Swopio Sticeri' yn Cilfynydd, Llanberis, rhwng 10 a 12 o'r gloch. Cyfle i'r plant gyfnewid sticeri pêl-droed y Premier League.

9. Sadwrn **CWM-Y-GLO:** Yr Ysgol Feithrin yn cynnal Sêl Cist Car ar fuarth yr Ysgol rhwng 10 o'r gloch a 3 o'r gloch.

11. Llun **LLANBERIS:** Undeb y Mamau.

12. Mawrth **LLANRUG:** Merched y Wawr — sgwrs gan Nia Elis Williams.

13. Mercher **BETHEL:** Merched y Wawr yng nghwmni Gwenan Roberts.

LLANRUG: Plaid Cymru yng nghwmni Richard Morris Jones, Caernarfon.

14. Iau **LLANBERIS:** Cyfarfod y Chwiorydd yn Capel Coch am 2 o'r gloch.

17. Sul **LLANBERIS:** Cymanfa Annibynwyr Cylch Padarn yng Nghapel Jerusalem.

DEINIOLEN: Cyngerdd yn Ebeneser am 7.30 o'r gloch. Elw er budd Cronfa Haematoleg Ysbyty Gwynedd.

18. Llun **DEINIOLEN:** Merched y Wawr — sgwrs gan Mrs Ella Wyn Jones, Penmynydd.

LLANBERIS: Dosbarth Beiblaidd yn Capel Coch am 7 o'r gloch.

20. Mercher **PENISARWAUN:** Cyngerdd gan Hogia'r Wyddfa yn Neuadd yr Ysgol Gymuned.

25. Llun **LLANBERIS:** Cwmni Drama Llanberis yn cyflwyno dwy gomedi fer yn Theatr Gorffwysfa am 7.30 o'r gloch. Yr elw at Adran yr Urdd, Llanberis.

RHODDION

£5:

Mrs E. Parry, 4 Rhes Eilian, Waunfawr; Annie Hughes, Bryn, Cwm-y-glo; Mrs May Jackson, Maes Padarn, Llanberis; Mrs Rene Hughes, 1 Tan y Coed, Woodlands, Conwy; Mrs Alice E. Williams, 3 Hyfrydle, Caernarfon.

£4:

Mr Richard Humphreys, Oriel Plas Gwyn, Llanrug.

£3:

Mrs Eira Wyn Jones, Crud y Gwynt, Clwt-y-bont.

£2:

Mrs Clara Roberts, Anfield House, Llanberis; Mrs Elisabeth Evans, Blaen Parc, Bethel.

STICERI PÊL-DROED

Ydach chi'n casglu sticeri pêl-droed y 'Premier League'? Oes gennych chi ormod o 'swops'?

Dyma gyfle i'w newid, a gobeithio lenwi eich albwm.

Bydd 'Bore Swopio Sticeri' yn cael ei gynnal yn Cilfynydd, Llanberis, fore Gwener, Ebrill 8fed, rhwng 10 o'r gloch a 12 o'r gloch. Pris mynediad fydd 20c a'r elw tuag at Ysgol Dolbadarn. Dowch i chwilio am y sticeri sydd ar goll o'ch casgliad.

APÊL

Beth amser yn ôl bu'r Prifardd Selwyn Griffith yn apelio am bensiliau, beiros, ac ati, i fynd hefo fo i'r Gambia. Mae yna apêl gyffelyb eto, ond y tro hwn anfoner beiros — INC COCH YN UNIG — i'r Golygydd, Cilfynydd, Llanberis. Diolch am eich cydweithrediad.

THE SEIONT MANOR HOTEL

LLANRUG. Ffôn: 673366

GWESTY HAMDDEN

Swper rhamantus i ddau
Cinio hamddenol
Sgwrs hefo ffrindiau dros baned o goffi
Brecwast, cinio neu swper busnes
Parti dathlu
Cinio Dydd Sul i'r teulu
Gwledd brodas
fythgofiadwy
Sauna, nofio, ystafell ffitrwydd
Ymlacio ym mar y llyfrgell

Y safon uchaf am brisiau rhesymol iawn.

CHWARAEON

CYSTADLEUAETH Y 200

Yn naturiol mae'r achlysur pwysig yma yn mynnu ein bod yn bwrw golwg yn ôl dros y deunaw mlynedd diwethaf. Bu cryn newid yn safon pêl-droed ers hynny. Oedd y Caernarfon & District cystal â'r Sealink presennol? A oedd sefydlu Cynghrair Gwynedd yn ddatblygiad i'w ganmol? Beth fydd dylanwad y twf yng Nghyngreiriau leuenctid? A ddylid ail gyflwyno y gynghrair o dan 18 oed? Digon o waith i gnoi cil yma.

Beth oedd y sefyllfa yn 1976?

Roedd Llanberis yn y Caernarfon & District, fel Llanrug. Nid oedd Deiniolen wedi ail-ffurfio. Roedd tîm ar gael ei ffurfio ym Methel. Yn 1976-77 a 1978-79 roedd Llanrug i gipio y Senior Cup. A fydd Deiniolen yn eu hefelychu eleni?

Mae un peth yn sicr fe welwyd, yn ystod y deunaw mlynedd ddiwethaf, lawer o gemau cofiadwy a llawer o'r rheiny yn gemau 'derby' caled.

Rhoddodd nifer o chwaraewyr — y rhan fwyaf ohonynt yn fechgyn lleol — llawer iawn o bleser. Ond, pwy oedd y gorau?

Dyma eich cyfle i roddi eich barn trwy fod yn ddewiswyr.

Gofynnais i sawl person i nodi 'prif chwaraewyr' a fu'n cynrychioli Llanberis, Llanrug a Deiniolen yn ystod y deunaw mlynedd diwethaf. Bu nifer o'r chwaraewyr hynny yn cynrychioli mwy nag un o'r clybiau — ac yn wir fe fu rhai yn chwarae i'r tri thîm.

1976 y C & D. 1994 y Sealink!

BETH SYDD ANGEN EI WNEUD

1. DEWIS CARFAN O 18 CHWARAEWR

2. Rhennir y garfan yn:

2 GÔLGEIDWAID; 6 AMDDIFFYNWYR; 6 CANOL CAE; 4 YMOSODWR

3. Y dull o chwarae fydd:

1 GÔLGEIDWAD; 4 AMDDIFFYNWYR (2 gefnwr, 2 canol yr amddiffyn); 3 CANOL CAE; 3 YMOSODWR

4. Rhaid rhestru enwau'r garfan ar y ffurflen isod a'i dychwelyd i 5, Y DDÔL, BETHEL, **cyn Ebrill 10fed**

5. Bydd y person agosaf at y tîm a ddewisir gan y panel beirniaid yn ennill y wobr. Os yw'r cynigion yn gyfartal yna rhoddir sylw i'r agosaf at y garfan.

6. Y Wobr fydd **Dau docyn eisteddle yn y gêm Cymru v Sweden** (Rhoddedig gan Cymdeithas Pêl-droed Cymru)

DYMA'R RHESTR O CHWARAEWYR I CHWI DDEWIS OHONYNT

GOLGEIDWAID
GWILYM WILLIAMS
NIGEL PHILIPS
DAVID GRIFFITHS
STEPHEN OWEN
NIGEL HARDWIGE

BLAENWYR
GWILYM WILLIAMS (Gwil Bach)
MARC LLOYD WILLIAMS
DILWYN JOHN WILLIAMS
GWYNDAF JONES
MALCOLM ALLEN
EMLYN ROBERTS
CHRIS BARLOW
VERNON LLOYD
BARRY PITTS
RICHARD WILLIAMS
DIC OWEN

CEFNWYR
GLYN GRIFFITHS
MIKE ROBERTS
EIFION JONES
COLIN SAYNOR
STEWART WILLIAMS
DAI JONES
RAY HARDING
HYWYN JONES
WAYNE PHILIPS
DAVID PHILIPS
GARETH P. JONES
DILWYN MORRIS
KEVIN JONES
JOHN WILLIAMS (John Cefn)

CANOL CAE
GERAINT WILLIAMS
PERCY ALLEN
PETER ROBERTS
TERENCE GRIFFITHS
KEN GRIFFITHS
KEVIN MORGAN
SELWYN ALLSUPP
GWYNFOR OWEN
LEN PADMORE
KEN OWEN

BLE MAE NHW HEDDIW

Os mai uchelgais rhai — ac mae'n nhw'n bod — ydi dweud wrth eu plant, neu'r wyrion, iddyn nhw fod yn bencampwyr un tro, wel dyma'r golofn. Cefais fenthyg llyfrau mabolgampau Ysgol Brynrefail dros gyfnod bodolaeth yr Eco. Yno mae Dic Parry a'r adran Ymarfer Corff wedi cadw record o gemau pêl-droed tai, rasus traws-gwlad a mabolgampau'r ysgol. Yno hefyd, ceir record fanwl o'r sawl sy wedi cynrychioli Cymru mewn gwahanol gampau. Y mae'r rhestr anrhydedd yma yn glod i'r Ysgol, ac mae manylder y llyfrau efallai yn dweud rhywbeth hefyd. Yn sicr, mae'n hawdd gweld ble mae traddodiad rhedeg yr ardal wedi hannu ohono. Gwelir enw Colin Jones yno, ac enw Gwynfor Owen, a ddaliai record y bechgyn hŷn am gyfnod. Mae'r ddau wrth gwrs wedi cynrychioli Cymru. Mae un record yn sefyll o hyd, sef record Alun Foulkes i'r bechgyn iau. Mae ei amser o 14.92 wedi sefyll ers 1972. Erbyn hyn mae'n gwibio'n llawer cyflymach yn y car rali.

ALUN — 22 blwyddyn ar y brig.

Er mwyn i chwi famau a thadau gael ymffrostio, dyma draws-doriad o'r llyfrynnau gan ganolbwyntio ar rai a dorrodd record:

1976	400m Genethod Iau: Elizabeth Jones (Eryri) 80.3 eiliad
	800m Genethod Iau: Karen Williams (Eryri) 3m 20.8 eiliad
1977	Traws-gwlad — Bechgyn iau: Michael John Williams 17m 7e
1978	Traws-gwlad — Bechgyn hŷn: Iorwerth Wyn Evans (Elidir) 20m 34.9e
1979	200m Genethod Iau: Carys Williams (Elidir) 30.4 eiliad
1980	Pwysau — Genethod hŷn: Julia Nicholas (Gwyrfai) 9.24m
	400m Genethod Iau: Melanie Sellars (Elidir) 1m 15e
	1500m Bechgyn Iau: Gareth Hughes (Gwyrfai) 5m 25.2e
1981	Disgen — Genethod hŷn: Susan Ward (Gwyrfai) 28m
	Genethod Iau: Meirwen Williams (Elidir) 21.5m
1984	Pwysau — Bechgyn hŷn: Michael Roberts 13.62m
1986	100m Genethod Iau: Meinir Williams (Eryri) 13.74e
	100m Genethod Hŷn: Helen Mai Pritchard (Elidir) 13.26e
1988	Traws-gwlad — Bechgyn Hŷn: Colin Jones (Gwyrfai) 19m 16e

Mae'n ddiddorol sylwi fod y nifer o recordiau a dorrwyd wedi lleihau yn ystod y blynyddoedd diwethaf. A yw hynyn adlewyrchu oes y fideo a'r bwyd 'sothach' tybed?

Gobeithio fod y rhestr enwau wedi dod â phleser ac ambell i atgof i lawer ohonoch. Ym mhob agwedd o fywyd mae'n bwysig ein bod yn cadw cofnodion i'r 'oes a ddêl'. Bydd digwyddiadau heddiw yn faes astudiaeth i rywun yn y dyfodol.

Mae tipyn o waith cnoi cil i chi yma. Felly beth am gynnig a llenwi'r ffurflen isod: Nodwch ar y ffurflen pwy fyddai'r Capten.

TIM DEWISOL	WRTH GEFN
GÔL	
.....	.....
AMDDIFFYN (4)	
.....	.....
.....	.....
.....	.....
.....	.....
CANOL CAE (3)	
.....	.....
.....	.....
.....	.....
BLAENWYR (3)	
.....	.....
.....	.....
.....	.....